# Cynllun Rheoli Asedau Priffyrdd

## 2025-2030

Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

## Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol

| | |
|---|---|
| Awdur: | Steve Hallows |
| Dyddiad cymeradwywyd gan y Cabinet: | 6 Mai 2025 |
| Asesiad Effaith Integredig: | Nac oes |
| Fersiwn: | 2025-2030 v3.1 |
| Dyddiad Cyhoeddi: | 16 Mai 2025 |
| Dyddiad Adolygu: | Ebrill 2030 |

## Gwybodaeth am y Ddogfen

| | |
|---|---|
| **Teitl** | Cynllun Rheoli Asedau Priffyrdd Cyngor Sir Ceredigion 2025-2030 |
| **Awdur** | Steve Hallows – Rheolwr Gwasanaeth (Datblygu Priffyrdd) |
| **Disgrifiad** | Mae'r ddogfen hon yn crynhoi Polisi Rheoli Asedau Priffyrdd Ceredigion (2025-2030). Mae'n cynnwys polisïau a strategaethau a ddefnyddir gan y gwasanaeth i adeiladu, caffael, gweithredu, cynnal a chadw, adfer a gwaredu holl Asedau Priffyrdd y Cyngor. |
| **Adolygiad nesaf i'w gyhoeddi** | Ebrill 2030 |

## Hanes Dogfen

| Fersiwn | Statws | Dyddiad | Awdur | Newidiadau o'r Fersiwn Flaenorol |
|---|---|---|---|---|
| V1.0 | Drafft | 25 Mawrth | SJH | Drafft Cyntaf |
| V2.0 | Drafft | 11/03/25 | SJH | Sylwadau gan RhLl |
| V3.0 | Drafft | 12/03/25 | SJH | Sylwadau gan RhLl |
| V3.0 | Drafft | 19/03/25 | SJH | Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus – Dim sylwadau |
| V3.0 | Drafft | 06/05/25 | SJH | Cabinet – Dim sylwadau |
| V3.1 | TERFYNOL | 16/05/25 | SJH | Cymeradwywyd gan y Cabinet |

## Cyfrifoldeb am y Cynllun

Dangosir isod y cyfrifoldeb am gyflwyno a diweddaru'r cynllun hwn

| Swyddog y Cyngor | Yn gyfrifol am |
|---|---|
| Phil Jones | Gwasanaethau Priffyrdd |
| Steve Hallows | Gwasanaeth Datblygu Priffyrdd |
| Caroline Wride | Gwasanaeth Cynnal a Chadw Priffyrdd |

# Rhagair

***Arweinydd y Cyngor***

*Fel Arweinydd y Cyngor, rwy'n falch o weld y dull gweithredu cynlluniedig yn cael ei ddatblygu ymhellach wrth reoli ein rhwydwaith priffyrdd.*

*Rydym i gyd yn ymwybodol o'r pwysau ariannol mawr sydd ar y sector cyhoeddus ac mae hyn yn golygu ei bod yn bwysicach fyth ein bod yn rheoli ein hadnoddau er mwyn cael y canlyniadau pwysig y mae eu hangen arnom o'n system ffyrdd.*

*Mae trigolion, busnesau ac ymwelwyr â Cheredigion i gyd yn dibynnu ar y mynediad y mae ein rhwydwaith priffyrdd yn ei ddarparu, ac mae'n anodd meddwl am lawer o agweddau ar fywyd bob dydd lle nad yw cysylltiadau trafnidiaeth da wedi chwarae rôl gefnogol bwysig.*

*Gan edrych i'r dyfodol bydd rheolaeth dda o'n rhwydwaith priffyrdd yn hanfodol i hwyluso ein huchelgeisiau, ein nodau adfywio ac annog cerdded, beicio a defnyddio ein rhwydwaith trafnidiaeth teithwyr.*

*Wrth i gyllidebau dynhau mae'n fwyfwy pwysig byth ein bod yn canolbwyntio'r adnoddau sydd ar gael i sicrhau'r eithaf orau bosibl. Yn erbyn y cefndir hwn, bydd y Cynllun Rheoli Asedau Priffyrdd yn ddogfen allweddol ar gyfer sianelu ein hadnoddau tuag at y meysydd lle mae'r angen mwyaf am fuddsoddiad.*

*Wrth gwrs bydd rhaid gwneud penderfyniadau anodd o ran sut y caiff ein harian ei fuddsoddi a bydd y cynllun hwn yn ffurfio fframwaith allweddol ar gyfer llywio'r penderfyniadau hynny.*

…………………………………………...

Bryan Davies
**Arweinydd y Cyngor**

***Prif Swyddog Gweithredol***

*Croeso i Gynllun Rheoli Asedau Priffyrdd (CRhAP) Cyngor Sir Ceredigion. Mae rhwydwaith priffyrdd Ceredigion yn cynnwys dros 2,150 km o ffyrdd y mae angen eu rheoli a'u cynnal yn erbyn cefndir o draffig sy'n cynyddu'n barhaus, tywydd amrywiol, a disgwyliadau uchel y cyhoedd.*

*Mae'r rhwydwaith trafnidiaeth, ac yn arbennig ein ffyrdd, yn chwarae rôl bwysig wrth gefnogi llawer o'r gwasanaethau a ddarperir gan y Cyngor Sir, ac mae rheolaeth dda o'r rhwydwaith priffyrdd yn allweddol i ba mor dda rydym yn gweithredu fel sir.*

*Mae'r system ffyrdd yng Ngheredigion yn cefnogi nid yn unig ein dyheadau fel sir ond hefyd y rhanbarth ehangach, a bydd yn rhan bwysig o gyflawni Bargen Twf Canolbarth Cymru.*

*Mae'r Cynllun Rheoli Asedau Priffyrdd (CRhAP) yn darparu'r fframwaith a'r map llwybr tuag at reoli ein rhwydwaith priffyrdd yn effeithiol. Mae canllawiau cenedlaethol a phwysau ariannol cynyddol yn ein symud tuag at y dull seiliedig ar risg a fabwysiadwyd yn y cynllun hwn a fydd yn helpu i sicrhau ein bod yn buddsoddi ein cyllid lle mae ei angen fwyaf, ac yn y modd mwyaf effeithiol.*

*Bydd y CRhAP yn destun adolygiad blynyddol ac adrodd ar berfformiad trwy Adroddiad Blynyddol ar Statws ac Opsiynau a fydd yn ein galluogi i fonitro cynnydd a gwneud penderfyniadau buddsoddi gwybodus.*

……………………………………………

Eifion Evans
**Prif Weithredwr**

**Diffiniadau**

**Asedau:** Yng nghyd-destun priffyrdd – yr ased yw'r briffordd ei hun. Mae hyn yn cynnwys yr holl nodweddion eraill sy'n cynnal y briffordd a thaith diogel a hwylus y cyhoedd ar hyd y briffordd.

**Cofrestr Asedau:** Cofnod o wybodaeth am asedau yr ystyrir ei bod yn werth ei nodi ar wahân.

**Oes Ased:** Yr amser o gaffael i waredu.

**Rheoli Asedau:** Gweithgareddau ac arferion y mae'r Cyngor yn eu defnyddio i reoli ei asedau ffisegol yn y ffordd orau bosibl dros eu cylchred oes.

**Cynllun Rheoli Asedau:** Cynllun sy'n manylu ar driniaethau ariannol a thechnegol dros oes yr ased er mwyn gallu cynnal yr ased ar lefel gwasanaeth y cytunwyd arni.

**Lefel Gwasanaeth:** Y safon gwasanaeth a osodwyd ar gyfer pob grŵp/math o asedau.

**Costau Oes Gyfan:** Cyfanswm cost ased dros ei oes gyfan gan gynnwys gwariant cyfalaf, gwariant gweithredol, gwariant cynnal a chadw ac yn y pen draw ei gostau datgomisiynu neu waredu.

**Gwariant Cyfalaf:** Unrhyw wariant a ddefnyddir i brynu, caffael neu adeiladu ased newydd.

**Gwariant Gweithredol:** Unrhyw wariant sy'n gysylltiedig â gwella, ychwanegu at neu uwchraddio gallu ased sy'n bodoli er mwyn bodloni lefel ddiwygiedig o wasanaeth y cytunwyd arni.

**Gwariant Refeniw/Cynnal a Chadw:** Unrhyw wariant sy'n caniatáu i ased barhau i ddarparu'r lefel o wasanaeth y cytunwyd arni hyd at ddiwedd ei oes.

**Gwariant Datgomisiynu neu Waredu:** Unrhyw wariant sy'n ofynnol ar ddiwedd oes gyfan pob math o ased.

DRAFT

# Tabl Cynnwys

Gwybodaeth am y Ddogfen ..... i
Rhagair ..... ii
Diffiniadau ..... iii
1.0 CRYNODEB GWEITHREDOL ..... 4
2.0 CYFLWYNIAD ..... 6
3.0 CYFROL 1 – POLISI A STRATEGAETH ..... 9
4.0 POLISI CRhAP ..... 23
5.0 GWEITHREDU STRATEGAETH POLISI CRhAP ..... 28
6.0 RHEOLAETH ARIANNOL CRhAP ..... 29
7.0 ADOLYGIAD PERFFORMIAD ..... 30
8.0 LLAWLYFR CYNNAL A CHADW PRIFFYRDD ..... 32
9.0 ADRODDIAD BLYNYDDOL CRhAP ..... 33
10.0 RHEOLI'R CRhAP ..... 34
11.0 ROLAU A CHYFRIFOLDEBAU ..... 36
12.0 GWEITHDREFNAU A PHOLISÏAU CYSYLLTIEDIG ..... 37
13.0 CYFROL 2 – FFRAMWAITH RHEOLI ASEDAU PRIFFYRDD ..... 38
14.0 ROLAU, CYFRIFOLDEBAU A CHYMWYSEDDAU ..... 40
15.0 COFNODI COSTAU ..... 42
16.0 RHEOLI DATA ..... 43
17.0 ASESU A GWELLA DATA ..... 52
18.0 CYFROL 3 – CYNLLUN CYNNAL A CHADW PRIFFYRDD ..... 55
19.0 ASEDAU PRIFFYRDD ..... 56
20.0 DISGWYLIADAU CWSMERIAID ..... 58
21.0 RHEOLI RISG ..... 59

22.0 CAFFAEL ... 60
23.0 GWEITHGAREDD YMGYMERWYR STATUDOL ... 62
24.0 SAFONAU GWASANAETH ... 65
25.0 RHEOLI TRAFFIG ... 67
26.0 HIERARCHAETH RHWYDWAITH ... 68
27.0 Y DREFN ARCHWILIO ... 69
28.0 ASESIADAU CYFLWR ... 72
29.0 Y DREFN ATGYWEIRIO ... 75
30.0 BLAENORIAETHU CYNLLUN PRIFFYRDD ... 77
31.0 CYNNAL A CHADW CERBYTFFYRDD ... 78
32.0 STRATEGAETH CYNNAL A CHADW CERBYTFFYRDD ... 81
33.0 CRYNODEB O WAITH AR GERBYTFFYRDD ... 82
34.0 CYNNAL A CHADW TROEDFFYRDD A FFYRDD BEICIAU ... 84
35.0 STRATEGAETH CYNNAL A CHADW TROEDFFYRDD A FFYRDD BEICIAU ... 87
36.0 CRYNODEB O WAITH TROEDFFYRDD ... 88
37.0 CYNNAL A CHADW GOLEUADAU STRYD ... 90
38.0 STRATEGAETH CYNNAL A CHADW GOLEUADAU STRYD ... 92
39.0 CRYNODEB O'R GWAITH GOLEUADAU STRYD ... 93
40.0 CYNNAL A CHADW PONTYDD AC ADEILEDDAU PRIFFYRDD ... 95
41.0 STRATEGAETH CYNNAL A CHADW PONTYDD A ADEILEDDAU ... 96
42.0 CRYNODEB O'R GWAITH AR BONTYDD AC ADEILEDDAU ... 97
43.0 CYNNAL A CHADW GOLEUADAU TRAFFIG ... 98
44.0 STRATEGAETH CYNNAL A CHADW GOLEUADAU TRAFFIG ... 99
45.0 RISGIAU I'R CYNLLUN ... 100
ATODIAD A: DARNAU O DDEDDF PRIFFYRDD 1980 ... 103
ATODIAD B: CATEGORÏAU HIERARCHAETH ASEDAU ... 106

ATODIAD C: AMLDER ARCHWILIADAU ........................................................................ 108

ATODIAD Ch: MATHAU O DDIFFYGION A LEFELAU YMYRRAETH ............................ 110

ATODIAD D: ATAL ARCHWILIAD DIOGELWCH FFYRDD............................................ 113

ATODIAD Dd: COD YMARFER AR GYFER ARCHWILIADAU DIOGELWCH FFYRDD SIROL A'R YMATEB 2021 .................................................................................... 115

## 1.0 CRYNODEB GWEITHREDOL

**1.1** Mae'r adroddiad hwn yn trafod sut y bydd yr ased priffyrdd yn cael ei reoli a'i gynnal gan Wasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol yn unol ag arferion gorau a dulliau sy'n gyson ag Awdurdodau cyfagos, gan alluogi meincnodi bob blwyddyn.

**1.2** Mae'r cynllun i fuddsoddi yn yr ased priffyrdd yn seiliedig ar sut mae'r ased wedi cael ei reoli yn ystod y cyfnod CRhAP blaenorol a'r costau a fyddai'n gysylltiedig â chynnal y lefelau presennol o ddirywiad yn erbyn y pwysau chwyddiant presennol.

**1.3** **Argymhellir ar gyfer y cyfnod 2025 i 2030 y dylai'r camau gweithredu a'r buddsoddiad cyllidebol gan y Cyngor fod fel a ganlyn:**

**Cerbytffyrdd –** CYNNAL Y CYFLWR PRESENNOL

- Bydd angen buddsoddi cyllid blynyddol o tua £4.6M mewn adnewyddu **cynlluniedig** trwy
    - Gosod haen wyneb (surface dressing) ar draws tua 90km o gerbytffyrdd
    - Ailosod wyneb y ffordd ar draws tua 20km o gerbytffyrdd
- Bydd angen dyrannu cyllid refeniw blynyddol o £2.3M ar gyfer atgyweirio **adweithiol** cerbytffyrdd yn unol â Llawlyfr Cynnal a Chadw Priffyrdd 2022 er mwyn
    - Atgyweirio diffygion ar y gyfradd gyfredol o tua 1500 y flwyddyn

**Troedffyrdd a Ffyrdd Beiciau –** RHEOLI GYDAG ATGYWEIRIADAU ADWEITHIOL

- Bydd angen buddsoddi cyllid blynyddol o tua £160k mewn
    - Triniaethau ailosod asedau **cynlluniedig** ar ffurf ailadeiladu ac ailosod wyneb y ffordd ar draws 1km o droedffyrdd a ffyrdd beiciau
- Bydd angen dyrannu cyllid refeniw blynyddol o £200k ar gyfer atgyweirio **adweithiol** troedffyrdd a ffyrdd beiciau yn unol â Llawlyfr Cynnal a Chadw Priffyrdd 2022 er mwyn
    - Atgyweirio diffygion ar y gyfradd gyfredol o tua 200 o ddiffygion y flwyddyn.

**Goleuadau Stryd –** CYNNAL Y CYFLWR PRESENNOL

- Parhau i fuddsoddi mewn mesurau y cytunwyd arnynt i leihau'r defnydd o ynni yn ystod ailosodiadau diwedd oes

- Buddsoddiad blynyddol cynlluniedig o £35k i ailosod colofn diwedd oes a nodwyd trwy brofion annistrywiol
- Buddsoddiad blynyddol **cynlluniedig** o £35k mewn ailosod ceblau diwedd oes a nodwyd trwy brofion trydanol
- Bydd angen dyrannu cyllid refeniw blynyddol o £393k ar gyfer atgyweirio/ailosod **adweithiol** offer goleuadau stryd er mwyn
    - Atgyweirio neu ailosod diffygion i safonau cyfredol ar gyfradd o tua 450 y flwyddyn

**Pontydd ac Adeileddau –** BUDDSODDI I LEIHAU NIFER YR ASEDAU SYDD MEWN CYFLWR GWAEL NEU WAEL IAWN

- Bydd angen buddsoddiad blynyddol **cynlluniedig** o gyllid cyfalaf o tua 200k i adnewyddu'r adeileddau sydd mewn cyflwr gwael iawn
- Bydd angen dyrannu cyllid refeniw blynyddol o £336k ar gyfer y gwaith atgyweirio cylchol **cynlluniedig** ac **adweithiol** ar bontydd ac adeileddau yn unol â Llawlyfr Cynnal a Chadw Priffyrdd 2022

**Arwyddion Traffig –** CYNNAL Y CYFLWR PRESENNOL

- Bydd angen cyllid cyfalaf **cynlluniedig** o tua £20k i ailosod un groesfan reoledig dros gyfnod y cynllun
- Bydd angen dyrannu cyllid refeniw blynyddol o £14k ar gyfer gwaith cynnal a chadw cylchol **adweithiol** a **chynlluniedig** ar seilwaith goleuadau traffig yn unol â Llawlyfr Cynnal a Chadw Priffyrdd 2022

## 2.0 CYFLWYNIAD

**2.1** Mae'r CRhAP hwn wedi cael ei ddatblygu i lywio'r gwaith o reoli'r holl asedau seilwaith priffyrdd sydd o dan reolaeth Cyngor Sir Ceredigion fel y'i diffinnir gan y gofrestr priffyrdd. Yr asedau allweddol a gynhwysir yn y cynllun hwn yw cerbytffyrdd (ffyrdd), troedffyrdd a ffyrdd beiciau, pontydd ac adeileddau a goleuadau stryd. Bydd y cynllun hwn yn diweddaru'r polisïau a chynlluniau presennol ar gyfer rheoli seilwaith priffyrdd ac yn nodi dulliau cydymffurfio ac ymateb yr awdurdod trwy ddull seiliedig ar risg yn unol â'r ddogfen *Seilwaith Priffyrdd wedi'i Reoli'n Dda – Cod Ymarfer*.


**2.2** Mae'r CRhAP yn amlinellu strategaeth y Cyngor ar gyfer rheoli ei asedau seilwaith priffyrdd ac yn cydnabod pwysigrwydd ei seilwaith priffyrdd o ran cyfrannu at amcanion corfforaethol, rhanbarthol a lleol.

**2.3** Pwrpas y CRhAP yw diffinio'r safonau gwasanaeth y gall defnyddwyr eu disgwyl ac egluro'r strategaethau sydd i'w gweithredu er mwyn cyrraedd y safonau hyn.

**2.4** Mae'r cynllun hwn wedi cael ei ddatblygu yn unol ag arferion cynllunio rheoli asedau priffyrdd a argymhellir gan Gymdeithas Syrfewyr Sirol (Cymru) a chynlluniau a strategaethau corfforaethol y Cyngor.

**2.5** Bydd safonau, targedau a thybiaethau gwariant yn y CRhAP hwn yn cael eu monitro a'u hadrodd yn flynyddol. Bydd yr adroddiad yn cyflwyno crynodeb o gyflwr asedau'r Cyngor am y flwyddyn ac yn darparu gwybodaeth a gaiff ei defnyddio i lywio dewisiadau ynghylch lefelau buddsoddi yn y dyfodol yn ystod y broses gosod cyllideb. Y wybodaeth a ddefnyddir i gynnal yr ymarfer hwn fydd cyllideb gyflawn y flwyddyn ariannol flaenorol a data arolwg cyflwr.

**2.6** Mae pedair elfen allweddol i'r CRhAP a'i nod yw darparu'r hyblygrwydd i ymdopi â newidiadau mewn adnoddau, gofynion a blaenoriaethau. Mae pedair prif elfen i'r CRhAP:




**2.7** Cyfrol 1 – Polisi a Strategaeth

Mae'r polisi yn amlinellu dull Cyngor Sir Ceredigion o reoli asedau seilwaith priffyrdd. Mae'r strategaeth rheoli asedau yn nodi'r amcanion allweddol ar gyfer yr ased priffyrdd a sut y cânt eu cyflawni, gan gynnwys rhwymedigaethau statudol, anghenion rhanddeiliaid a pherfformiad cyffredinol y seilwaith priffyrdd yng nghyd-destun unrhyw gyfyngiadau megis cyllid.

**2.8** Cyfrol 2 – Y Fframwaith Rheoli Asedau Priffyrdd

Mae'r fframwaith yn nodi'r strategaethau a'r prosesau sy'n ofynnol i ddatblygu, dogfennu, gweithredu a gwella rheolaeth asedau yn barhaus. Mae'r strategaethau o fewn y fframwaith yn cael eu datblygu gan roi sylw dyledus i'r strategaethau rhanbarthol, corfforaethol a lleol.

Mae'r fframwaith hefyd yn diffinio sut, beth a ble y cedwir data yn erbyn pob categori ased. Mae'n manylu ar y systemau a ddefnyddir ar gyfer storio data ac yn nodi pa mor aml y caiff y data hwn ei ddiweddaru, ei wirio a'i ddilysu.

**2.9** Cyfrol 3 – Y Cynllun Cynnal a Chadw Priffyrdd

Mae hwn wedi cael ei ddatblygu i amlinellu'r modd y bydd y Cyngor yn rheoli ac yn cynllunio'r gwaith cynnal a chadw gweithredol ar gyfer ein hasedau seilwaith priffyrdd. Mae'r llawlyfr cynnal a chadw wedi cael ei ddatblygu dros gyfnod o amser ac mae'n nodi prosesau a gweithdrefnau technegol ar gyfer cyflwyno'r gwasanaeth cynnal a chadw priffyrdd o ddydd i ddydd. Mae'r cynllun hwn yn cyd-fynd yn agos â'r Cod Ymarfer ar gyfer Archwiliadau Diogelwch ar Ffyrdd Sirol a'r Ymateb 2021. Mae'r Cod Ymarfer hwn yn sefydlu trefn effeithiol ar gyfer arolygu, asesu a chofnodi a dyma'r elfen bwysicaf o waith cynnal a chadw priffyrdd. Diffinnir nodweddion y drefn, sy'n cynnwys amlder yr archwiliadau, yr eitemau i'w cofnodi a natur yr ymateb, yn dilyn asesiad o'u risgiau cymharol. Bydd gofyn i'r Cyngor addasu i alwadau, adnoddau a thechnoleg newidiol hefyd a gweithredu'r arferion rheoli asedau gorau yn barhaus. Bydd agweddau ar y cynllun yn cael eu diweddaru wrth i'r Cyngor weithio'n agos gyda chymdogion ac awdurdodau lleol eraill mewn modd cydweithredol gan ymgysylltu trwy brosiect rheoli asedau Cymdeithas Syrfewyr Sirol Cymru.

Mae'r CRhAP yn sail i reoli, blaenoriaethu a lefelau gwasanaeth ar gyfer cynnal a chadw priffyrdd a buddsoddi mewn seilwaith. Wrth weithredu'r CRhAP, bydd y Gwasanaeth yn gweithio yn ôl cyfres o werthoedd craidd y Cyngor wrth gyflawni ein hamcanion polisi.

**2.10** Cyfrol 4 – Adroddiad Blynyddol ar Statws ac Opsiynau

Bydd hwn yn adroddiad blynyddol cylchol ar wahân a gynhyrchir bob blwyddyn ariannol a fydd yn adolygu'r buddsoddiad a wnaed gan y Cyngor yn ystod y flwyddyn ariannol flaenorol ac yn ei gysylltu â'r arolygon cyflwr a gynhelir ar gyfer pob categori asedau. Yr adroddiad yw'r cyfrwng ar gyfer pennu'r buddsoddiad cynlluniedig ar gyfer pob categori asedau. Bydd opsiynau buddsoddi yn cael eu cyflwyno yn yr adroddiad gan ragfynegi sut y bydd cyflwr yr ased yn perfformio dros weddill cyfnod y CRhAP am swm penodol yn y gyllideb. Bydd yr Adroddiad Blynyddol ar Statws ac Opsiynau ar gael cyn proses gosod cyllideb y Cyngor ym mis Rhagfyr, gan gynnig modd gwneud penderfyniadau ariannol ar gyfer y flwyddyn ariannol ganlynol.

## 3.0 CYFROL 1 – POLISI A STRATEGAETH

**3.1** Mae'r polisi hwn yn llywio'r gwaith o reoli Asedau Priffyrdd Cyngor Sir Ceredigion er mwyn sicrhau bod:

- Asedau'n parhau i ddarparu gwasanaeth i'r rhanddeiliaid ar lefel y cytunwyd arni.
- Cyfeiriad clir i staff wneud penderfyniadau gwybodus.
- Gofynion deddfwriaethol yn cael eu bodloni.
- Risgiau wedi'u cyfyngu i lefelau derbyniol.
- Asedau sy'n cael eu brynu neu eu hadeiladu yn cael eu cymeradwyo dim ond ar ôl asesu costau a buddion oes gyfan.
- Cyfrifoldeb ar gyfer rheoli pob math o ased yn cael ei neilltuo'n glir.

**3.2** Mae adolygiad polisi wedi cael ei gynnal i lywio datblygiad y CRhAP hwn ac mae'n defnyddio'r dogfennau canlynol i ddarparu rhwydwaith priffyrdd a gynhelir yn dda;

<u>Polisi Cenedlaethol</u>

- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
- Llwybr Newydd: Strategaeth Drafnidiaeth Cymru (2021)
- Polisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 11, 2021)
- Deddf Teithio Llesol (Cymru) (2013) a Chanllawiau Deddf Teithio Llesol (2021)
- Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru (2021)
- Cymru'r Dyfodol – Cynllun Cenedlaethol 2040
- Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016
- Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel, 2019 a Chynllun Sero Net Cymru (2021 – 2025)
- Cynllun Cyflawni Cenedlaethol ar gyfer Trafnidiaeth, 2022

<u>Polisi Rhanbarthol</u>

- Cynllun Trafnidiaeth Lleol ar y Cyd Canolbarth Cymru 2015
- Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Drafft Canolbarth Cymru 2025

<u>Polisi Lleol</u>


- Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion 2007 – 2022
- Strategaeth Gorfforaethol Ceredigion 2022 – 2027
- Cynllun Llesiant Lleol Ceredigion 2009 – 2023

## 3.3 Polisi Cenedlaethol

### 3.4 *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015*

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ceisio sicrhau bod cyrff cyhoeddus yn cydweithio ac yn ystyried cenedlaethau'r dyfodol yn y penderfyniadau a wneir heddiw. Mae'r Ddeddf yn amlinellu saith nod llesiant, fel a ganlyn:

- Cymru lewyrchus
- Cymru gydnerth
- Cymru iachach
- Cymru fwy cyfartal
- Cymru o gymunedau cydlynus
- Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu
- Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang




**3.5** Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) hefyd yn manylu ar bum ffordd o weithio i alluogi'r Ddeddf. Bydd y rhain yn cael eu hystyried wrth arfarnu opsiynau ar gyfer y dyfodol, sef:

**Hirdymor** – "Pwysigrwydd cydbwyso anghenion tymor byr gyda'r angen i ddiogelu'r gallu i ddiwallu anghenion hirdymor." Bydd gwella cysylltiadau trafnidiaeth yn sicrhau bod anghenion hirdymor y gymuned yn cael eu diwallu, megis cael mynediad at wasanaethau a chyfleusterau allweddol a darparu'r cyfle i wneud gwelliannau i'r rhwydwaith Teithio Llesol lleol yn y dyfodol trwy gynnal rhwydwaith trafnidiaeth cydlynol.

**Atal** – "Sut y gall gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni eu hamcanion." Bydd cynnal y rhwydwaith trafnidiaeth yn atal torri cyswllt trafnidiaeth allweddol ar gyfer y cymunedau lleol ac yn cyfrannu at yr agenda atal newid hinsawdd trwy annog mwy o deithiau Teithio Llesol.


**Integreiddio** – "Ystyried sut y gall amcanion llesiant y corff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r nodau llesiant, ar bob un o'u hamcanion, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill."

**Cydweithio** – "Gallai cydweithredu ag unrhyw berson arall (neu wahanol adrannau yn y corff ei hun) helpu'r corff i fodloni ei amcanion llesiant." Ymgysylltwyd â rhanddeiliaid sy'n gweithredu o fewn Cyngor Sir Ceredigion fel rhan o'r broses CRhAP.

**Cynnwys** – "Pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau llesiant a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal y maent yn ei gwasanaethu." Fel rhan o'r broses ymgysylltu â rhanddeiliaid, bydd cynrychiolwyr cenedlaethol, rhanbarthol a lleol ynghyd â phartïon lleol eraill â diddordeb, h.y. Llywodraeth Cymru, Cynghorau Cymuned, Trafnidiaeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru, Grwpiau Anabledd, ac ati, yn cael eu cynnwys yn gynnar yn y broses er mwyn bwydo i mewn i opsiwn/dewis cynllun.

**3.6** *Llwybr Newydd: Strategaeth Drafnidiaeth Cymru (2021)*

Mae Llwybr Newydd: Strategaeth Drafnidiaeth Cymru yn amlinellu gweledigaeth ac uchelgeisiau 20 mlynedd hirdymor Llywodraeth Cymru ar gyfer trafnidiaeth a sut maent yn cyfrannu at lesiant yng Nghymru. Mae'r Strategaeth yn defnyddio'r Hierarchaeth Teithio Cynaliadwy. Mae hyn yn blaenoriaethu dulliau trafnidiaeth mwy cynaliadwy, megis cerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus, dros y cerbyd modur preifat. Mae Ffigur 1 yn cyflwyno'r Hierarchaeth




*Ffigur 1 – Yr Hierarchaeth Trafnidiaeth Gynaliadwy*

**3.7** Gweledigaeth Strategaeth Drafnidiaeth Cymru yw "system drafnidiaeth hygyrch, gynaliadwy ac effeithlon". Mae hyn i'w chyflawni gan y pedwar uchelgais hirdymor:

- Yn dda ar gyfer pobl a chymunedau;
- Yn dda ar gyfer yr amgylchedd;
- Yn dda ar gyfer economi a lleoedd yng Nghymru; ac
- Yn dda ar gyfer diwylliant a'r Gymraeg.

**3.8** Er mwyn gwireddu gweledigaeth y Strategaeth a'r pedwar uchelgais hirdymor 20 mlynedd, mae tair prif flaenoriaeth ar gyfer y pum mlynedd nesaf a fydd yn destun adolygiad os bydd amgylchiadau a thechnoleg yn newid:

- Dod â gwasanaethau i bobl er mwyn lleihau'r angen i deithio;
- Galluogi pobl a nwyddau i symud yn hawdd o ddrws i ddrws gan ddefnyddio gwasanaethau a seilwaith trafnidiaeth hygyrch, cynaliadwy ac effeithlon; ac
- Annog pobl i newid i drafnidiaeth fwy cynaliadwy.

**3.9** Mae amcanion ardal yr astudiaeth yn cefnogi'r Hierarchaeth Teithio Cynaliadwy, sy'n rhoi blaenoriaeth i gerdded a beicio, trwy gynnal yr Hawliau Tramwy Cyhoeddus presennol a'r Llwybr Beicio sy'n mynd dros y bont. Byddai cynnal y nodweddion hyn hefyd yn rhoi cyfle i wella'r rhwydwaith Teithio Llesol lleol yn y dyfodol, fel cynllun ar wahân, oherwydd pwysigrwydd strategol y bont a'i chysylltiadau â chymunedau cyfagos. At hynny, byddai cynnal y rhwydwaith trafnidiaeth lleol hefyd yn cynnal mynediad i'r rhwydwaith bysiau sy'n cael ei flaenoriaethu yn yr Hierarchaeth.

**3.10** *Polisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 11, 2021)*

Mae Polisi Cynllunio Cymru (PCC) yn nodi polisïau cynllunio Llywodraeth Cymru ar gyfer defnydd tir yng Nghymru. Prif amcan PCC yw sicrhau bod y system gynllunio yn cyfrannu at gyflawni datblygu cynaliadwy ac yn gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a deddfwriaeth allweddol a dyletswyddau canlyniadol eraill, megis y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol.

**3.11** Mae PCC yn hyrwyddo gweithredu ar bob lefel o'r broses gynllunio sy'n helpu i wneud y mwyaf o'i gyfraniad at lesiant Cymru a'i chymunedau. Er mwyn cefnogi'r gwaith o gyflawni nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), mae PCC yn canolbwyntio ar y cysyniad o Greu Lleoedd. Mae PCC yn rhan o gyfres o ddogfennau sydd wrth wraidd y system gynllunio yng Nghymru, ac mae'n hyrwyddo camau gweithredu ar bob lefel trwy gyfres o ganlyniadau strategol a gofodol. Mae Tabl 1 yn cynrychioli'r themâu allweddol a'u hamcanion cyflawnadwy ar gyfer Creu Lleoedd.

| Thema Allweddol | Cyflawnadwy |
|---|---|
| Creu Lleoedd ar Waith | • Dylunio Da yn Creu Lleoedd Gwell;<br>• Hyrwyddo Lleoedd Iachach;<br>• Y Gymraeg a Chreu Lleoedd;<br>• Rheoli Adnoddau Naturiol mewn Ffordd Gynaliadwy;<br>• Creu Lleoedd mewn Ardaloedd Gwledig. |
| Creu Lleoedd Strategol | • Y Strategaeth Ofodol a'r Drefn Chwilio Safleoedd;<br>• Hygyrchedd;<br>• Aneddiadau Newydd;<br>• Tir a Ddatblygwyd o'r Blaen;<br>• Defnyddio Pwerau Prynu Gorfodol;<br>• Y Tir Amaethyddol Gorau a Mwyaf Amlbwrpas;<br>• Datblygu yng Nghefn Gwlad;<br>• Seilwaith Ategol;<br>• Rheoli Ffurf Aneddiadau – Lleiniau Glas a Lletemau Glas. |

*Tabl 1 – Themâu allweddol Polisi Cynllunio Cymru a'r hyn y gellir ei gyflawni*

**3.12** Mae Polisi Cynllunio Cymru hefyd yn amlinellu Egwyddorion Cynllunio Allweddol, sef:

- Creu a Chynnal Cymunedau;
- Helpu'r Economi i Dyfu mewn Ffordd Gynaliadwy;
- Gwneud y Gorau o Adnoddau;
- Amddiffyn yr Amgylchedd a Chyfyngu ar yr Effeithiau ar yr Amgylchedd; a
- Hwyluso Amgylcheddau Hygyrch ac Iach.

**3.13** Yn unol â PCC, mae'r CRhAP hwn yn amlinellu amcanion sy'n mynd i'r afael â'r materion trafnidiaeth yn ardal yr astudiaeth a fydd yn helpu i gyflawni themâu ac amcanion PCC Rhifyn 11. Er enghraifft, bydd blaenoriaethu pwysigrwydd strategol cysylltiadau trafnidiaeth lleol yn cynorthwyo'r hyn y gellir ei gyflawni ar draws holl themâu PCC, megis 'seilwaith ategol', 'hygyrchedd', 'dylunio da yn gwneud lleoedd gwell', a 'hyrwyddo lleoedd iachach'

**3.14** *Deddf Teithio Llesol (Cymru) (2013) a Chanllawiau Deddf Teithio Llesol (2021)*

Pasiwyd Deddf Teithio Llesol (Cymru) gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn 2013. Diweddarwyd Canllawiau'r Ddeddf Teithio Llesol ym mis Gorffennaf 2021. Mae'r canllawiau yn ceisio sicrhau llwybrau a chyfleusterau teithio llesol newydd a gwell,

gan wella'r ddarpariaeth ar gyfer cerddwyr a beicwyr ledled Cymru. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol fapio llwybrau teithio llesol presennol a monitro cyfleusterau/llwybrau teithio llesol yn rheolaidd er mwyn adolygu lle mae angen gwelliannau a/neu lwybrau newydd. Mae rhan o'r broses hon yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol gynhyrchu adroddiadau blynyddol ynghylch faint y mae llwybrau'n cael eu defnyddio.

**3.15** Diweddarwyd Canllawiau'r Ddeddf Teithio Llesol gan Lywodraeth Cymru ym mis Gorffennaf 2021 ac maent yn rhoi arweiniad ar gyflawni gofynion y Ddeddf. Mae'r canllawiau'n nodi'r weledigaeth 'bod cerdded a beicio yn ddewis naturiol ar gyfer siwrneiau byr bob dydd, neu fel rhan o daith hirach ar y cyd â dulliau cynaliadwy eraill'. Mae'r canllawiau hefyd yn nodi uchelgais 15 mlynedd ar gyfer rhwydwaith o lwybrau cerdded a beicio diogel, uniongyrchol, cydlynol, cyfforddus a deniadol o fewn a rhwng aneddiadau allweddol ledled Cymru.'

**3.16** Bydd cynnal a chadw'r rhwydweithiau ffyrdd, beicio a throedffyrdd yn rhoi cyfleoedd i gymunedau ar bob ochr i'r afon deithio i gyrchfannau allweddol, ar droed neu ar feic, gan felly cyfrannu'n gadarnhaol at y nifer sy'n manteisio ar siwrneiau llesol yn y sir.

**3.17** *Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru (2021)*

Mae'r Rhaglen Lywodraethu (Mehefin 2021) yn nodi'r deg amcan llesiant y bydd Llywodraeth Cymru yn eu defnyddio er mwyn gwneud y cyfraniad mwyaf posibl at saith nod llesiant hirdymor Cymru a'r camau a gaiff eu cymryd i'w cyflawni. Y deg amcan llesiant yw:

- Darparu gofal iechyd effeithiol, cynaliadwy o ansawdd uchel.
- Parhau â'n rhaglen hirdymor o ddiwygio addysg, a sicrhau bod anghydraddoldebau addysgol yn lleihau a bod safonau'n codi.
- Diogelu, ailadeiladu a datblygu ein gwasanaethau ar gyfer pobl agored i niwed.
- Dathlu amrywiaeth a gweithredu i ddileu anghydraddoldeb o bob math.
- Adeiladu economi ar sail egwyddorion gwaith teg, cynaliadwyedd a diwydiannau a gwasanaethau'r dyfodol.
- Bwrw ymlaen tuag at filiwn o siaradwyr Cymraeg, a galluogi twristiaeth, chwaraeon a'r celfyddydau i ffynnu.
- Adeiladu economi gryfach a gwyrddach wrth inni ddatgarboneiddio cymaint â phosibl.
- Gwneud ein dinasoedd, ein trefi a'n pentrefi yn lleoedd gwell fyth i fyw a gweithio ynddynt.

- Ymgorffori ein hymateb i'r argyfwng hinsawdd a natur ym mhopeth a wnawn.
- Arwain Cymru mewn sgwrs genedlaethol ynglŷn â'n dyfodol cyfansoddiadol, a rhoi'r presenoldeb cryfaf posibl i'n gwlad ar y llwyfan byd-eang.

**3.18** Mae'r CRhAP yn cefnogi'r Rhaglen Lywodraethu trwy helpu i adeiladu economi gryfach a gwyrddach a gwneud ein dinasoedd, ein trefi a'n pentrefi yn lleoedd gwell i fyw a gweithio ynddynt. Bydd cyflawni amcanion yr astudiaeth yn sicrhau rhwydwaith trafnidiaeth leol cydlynol sy'n cefnogi anghenion y gymuned i gael mynediad at gyfleusterau allweddol.

**3.19** *Cymru'r Dyfodol – Y Cynllun Cenedlaethol 2040*

Cymru'r Dyfodol – Y Cynllun Cenedlaethol 2040 yw'r fframwaith datblygu cenedlaethol sy'n gosod y cyfeiriad ar gyfer datblygu yng Nghymru hyd at 2040. Mae'n gynllun datblygu gyda strategaeth ar gyfer mynd i'r afael â blaenoriaethau cenedlaethol allweddol trwy'r system gynllunio, gan gynnwys cynnal a datblygu economi fywiog, cyflawni datgarboneiddio a gwrthsefyll yr hinsawdd, datblygu ecosystemau cryf a gwella iechyd a llesiant ein cymunedau. Mae Cynllun Cenedlaethol 2040 yn disodli'r ddogfen flaenorol, sef Cynllun Gofodol Cymru. Yn wahanol i Gynllun Gofodol Cymru, mae gan y Cynllun Cenedlaethol statws cynllun datblygu ac felly mae ganddo fwy o arwyddocâd.

**3.20** Bydd y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol yn:

- Mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd, trwy roi blaenoriaeth i ddatgarboneiddio ac arferion ecogyfeillgar;
- Nodi lle mae angen twf a seilwaith o bwysigrwydd cenedlaethol a sut y gall y system gynllunio – yn genedlaethol, yn rhanbarthol ac yn lleol – ei gyflawni;
- Darparu cyfeiriad ar gyfer Cynlluniau Datblygu Strategol a Lleol a chefnogi penderfynu ar Ddatblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol;
- Cyd-fynd â Pholisi Cynllunio Cymru sy'n nodi polisïau cynllunio Llywodraeth Cymru, a bydd yn parhau i ddarparu cyd-destun ar gyfer cynllunio defnydd tir;
- Cefnogi strategaethau economaidd, trafnidiaeth, amgylcheddol, tai, ynni a diwylliannol cenedlaethol a sicrhau y gellir eu cyflawni trwy'r system gynllunio.

**3.21** Mae Cymru'r Dyfodol yn nodi 11 canlyniad sy'n gweithio tuag at wireddu'r uchelgeisiau hyn yn seiliedig ar yr egwyddorion cynllunio cenedlaethol a'r canlyniadau creu lleoedd cynaliadwy cenedlaethol a nodir ym Mholisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 11). Mae'r 11 canlyniad fel a ganlyn:

**3.22** Cymru lle mae pobl yn byw…

- …ac yn gweithio mewn lleoedd cysylltiedig, cynhwysol ac iach
- … mewn lleoedd gwledig llewyrchus lle y gallant gael cartrefi, gwaith a gwasanaethau
- … mewn rhanbarthau nodedig sy'n mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd ac anghydraddoldebau economaidd-gymdeithasol drwy dwf cynaliadwy
- … mewn lleoedd lle mae'r Gymraeg yn ffynnu
- … ac yn gweithio mewn trefi a dinasoedd sy'n ganolbwynt ac yn sbardun i dwf cynaliadwy
- … mewn lleoedd lle y caiff ffyniant, arloesedd a diwylliant ei hyrwyddo
- … mewn lleoedd lle mae teithio yn gynaliadwy
- … mewn lleoedd â seilwaith digidol o'r radd flaenaf
- … mewn lleoedd sy'n rheoli eu hadnoddau naturiol yn gynaliadwy ac yn lleihau llygredd
- … mewn lleoedd ag ecosystemau bioamrywiol, cadarn a chysylltiedig
- … mewn lleoedd sydd wedi'u datgarboneiddio ac sy'n gallu gwrthsefyll yr hinsawdd

**3.23** Roedd y strategaeth ofodol a amlinellir yn y ddogfen Cymru'r Dyfodol yn rhestru 33 o bolisïau, dau ohonynt yn ymwneud yn uniongyrchol â thrafnidiaeth a gwella cysylltedd. Mae'r rhain fel a ganlyn:

**Polisi 11 – Cysylltedd Cenedlaethol**

Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Trafnidiaeth Cymru, awdurdodau lleol, gweithredwyr a phartneriaid er mwyn cefnogi'r gwaith o gyflawni'r mesurau canlynol i wella cysylltedd cenedlaethol:

- Rhwydwaith Rheilffyrdd – Trawsnewid y rhwydwaith rheilffyrdd a gwella ansawdd gwasanaethau rheilffyrdd i deithwyr.
- Rhwydwaith Bysiau – Buddsoddi yn y gwaith o ddatblygu'r rhwydwaith bysiau cenedlaethol, wedi'i integreiddio'n llwyr â rhwydweithiau bysiau rhanbarthol a lleol, er mwyn cynyddu nifer y teithiau ar fysiau a gwella mynediad ar fws i ystod ehangach o gyrchfannau.
- Rhwydwaith Ffyrdd Strategol – Buddsoddi mewn gwelliannau ffyrdd er mwyn lleihau amseroedd teithio, cyflwyno rhwydwaith ffyrdd mwy diogel a chadarn, a gwella ansawdd aer a sŵn. Creu rhwydwaith o fannau gwefru cyflym bod modd teithio ymhellach mewn cerbydau trydan ledled Cymru.

- Y Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol – Adfywio'r Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol er mwyn creu rhwydwaith o lwybrau di-draffig sy'n cysylltu dinasoedd, trefi a chefn gwlad Cymru.

**Polisi 12 – Cysylltedd Rhanbarthol**

Mewn ardaloedd trefol, er mwyn cefnogi twf ac adfywio cynaliadwy, ein blaenoriaethau fydd gwella ac integreiddio teithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus. Mewn ardaloedd gwledig, ein blaenoriaethau yw cefnogi'r defnydd o gerbydau allyriadau isel iawn ac arallgyfeirio a chynnal gwasanaethau bysiau lleol. Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Trafnidiaeth Cymru, awdurdodau lleol, gweithredwyr a phartneriaid er mwyn cyflawni'r mesurau canlynol i wella cysylltedd rhanbarthol:

- Teithio Llesol – Blaenoriaethu cerdded a beicio ar gyfer teithio lleol. Byddwn yn cefnogi'r gwaith o roi'r Ddeddf Teithio Llesol ar waith er mwyn creu rhwydweithiau cynhwysfawr o lwybrau cerdded a beicio lleol sy'n cysylltu lleoedd y mae angen i bobl eu cyrraedd at ddibenion bob dydd.
- Bysiau – Gwella'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer cynllunio a darparu gwasanaethau bysiau lleol. Byddwn yn buddsoddi yn y gwaith o ddatblygu rhwydweithiau bysiau rhanbarthol a lleol integredig er mwyn cynyddu nifer y teithiau ar fysiau a gwella mynediad ar fws i ystod ehangach o gyrchfannau.
- Cerbydau Allyriadau Isel Iawn – Cefnogi'r gwaith o gyflwyno seilwaith tanwydd addas er mwyn hwyluso'r penderfyniad i fabwysiadu cerbydau allyriadau isel iawn, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig.

Mae'r CRhAP yn cefnogi nodau'r ddogfen Cymru'r Dyfodol trwy warchod y rhwydwaith trafnidiaeth lleol ar gyfer yr holl ddefnyddwyr, sy'n arbennig o bwysig mewn cymunedau gwledig lle mae pellteroedd hwy fel arfer rhwng tarddiad y daith a'r gyrchfan. O ran cysylltedd cenedlaethol, bydd cynnal y rhwydwaith trafnidiaeth lleol yn cryfhau'r rhwydwaith ffyrdd strategol trwy ddarparu cyswllt hanfodol rhwng cymunedau mewn siroedd cyfagos a chysylltiadau â rhwydwaith cefnffyrdd yr A44 a'r A487.

Mae'r CRhAP hwn yn cyflwyno'r achos dros gynnal y briffordd a gwella cysylltiadau â'r rhwydwaith bysiau a beicio lleol, a thrwy wneud hynny ddarparu cyswllt trafnidiaeth gynaliadwy hanfodol i wasanaethau yn yr ardal leol ac yn ehangach.

**3.24** *Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016*

Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) yn rhoi ar waith y ddeddfwriaeth y mae ei hangen i gynllunio a rheoli adnoddau naturiol Cymru mewn ffordd fwy rhagweithiol, cynaliadwy a chydgysylltiedig. Mae saith rhan i'r Ddeddf yn amrywio o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy a newid hinsawdd i'r Pwyllgor Llifogydd ac Erydu Arfordirol a draenio tir. Mae'n gosod Cymru fel economi werdd, carbon isel sy'n barod i addasu i effeithiau newid hinsawdd.

Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd i leihau allyriadau o fewn cyllidebau carbon Llywodraeth Cymru. Y targedau interim ar gyfer lleihau allyriadau yw:

- 2030: gostyngiad o 45%; a
- 2040: gostyngiad o 67%.

Nod y CRhAP yw archwilio'r opsiynau sy'n cefnogi anghenion yr amgylchedd, gan gynnwys lleihau allyriadau. Bydd lleihau'r angen i gerbydau wneud siwrneiau hirach, gwahanol i gyrraedd pen eu taith, e.e. ffermwyr lleol yn cael mynediad i'w tir yn ystod eu diwrnod gwaith neu fusnesau lleol yn dosbarthu nwyddau, yn lleihau'r allyriadau a gynhyrchir o ganlyniad i'r rhwydwaith ffyrdd lleol.

**3.25** *Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel, 2019 a Chynllun Sero Net Cymru (2021 – 2025)*

Ym mis Ebrill 2019, datganodd Llywodraeth Cymru argyfwng hinsawdd a chynhyrchodd Gynllun Carbon Isel 100 pwynt sy'n rhoi manylion ynghylch sut y gall Cymru fod yn garbon niwtral erbyn 2030. Mae Cynllun Sero Net Cymru yn gynllun gweithredu pum mlynedd sy'n llunio cam nesaf nod Cymru i fod yn sero net erbyn 2050. Dyma'r cynllun lleihau allyriadau nesaf yn dilyn ymlaen o'r ddogfen Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel (2016-20).

Mae'r cynllun yn nodi bod lleihau allyriadau o drafnidiaeth yn chwarae rôl bwysig yn y nod cyffredinol o sicrhau bod Cymru'n cyrraedd sero net, yn ogystal â chwarae rôl o ran "creu manteision ehangach mewn perthynas ag iechyd, ansawdd aer, hygyrchedd a'r economi". Mae hyrwyddo newid tuag at deithio mwy cynaliadwy yn un o'r meysydd lliniaru a nodwyd. Bydd yr astudiaeth bresennol yn cyfrannu at y newid hwn trwy gynnal yr isadeiledd cerdded a beicio presennol fel y gall gyfrannu at ddyheadau'r Cyngor ar gyfer rhwydwaith teithio llesol yn yr ardal hon. Bydd hyn yn sicrhau bod Teithio Llesol yn ddull teithio hyfyw, yn enwedig o ran mynediad at wasanaethau lleol a theithio i gyrchfannau allweddol ymhellach i ffwrdd.

**3.26** *Cynllun Cyflawni Cenedlaethol ar gyfer Trafnidiaeth (2022)*

Mae'r Cynllun Cyflawni Cenedlaethol ar gyfer Trafnidiaeth (CCCT) yn amlinellu sut y bydd Llywodraeth Cymru yn cyflawni'r blaenoriaethau a'r uchelgeisiau a nodir yn y ddogfen Llwybr Newydd: Strategaeth Drafnidiaeth Cymru (2021) o 2022 i 2027. Mae'n adeiladu ar yr ymrwymiadau yn Strategaeth Drafnidiaeth Cymru sy'n nodi sut y bydd Llywodraeth Cymru yn buddsoddi'n gyfrifol, yn cyflawni'r strategaeth ac yn dwyn ei hun ac eraill i gyfrif gan ddefnyddio'r pum ffordd o weithio. Mae'r CCCT yn cefnogi'r gwaith o gyflenwi Teithio Llesol a'i nod yw cyflawni 3 blaenoriaeth:

- Dod â gwasanaethau i bobl er mwyn lleihau'r angen i bobl ddefnyddio eu ceir bob dydd;
- Darparu gwasanaethau a seilwaith trafnidiaeth hygyrch, cynaliadwy ac effeithlon;
- Newid ymddygiad.

Mae hyn yn arbennig o bwysig mewn cymunedau gwledig lle mae gwasanaethau a chyfleusterau yn tueddu i fod ymhellach i ffwrdd. Bydd cynnal a chaniatáu i'r llwybrau defnyddwyr di-fodur presennol gael eu datblygu ymhellach yn hwyluso cynnydd mewn teithiau mwy lleol trwy gerdded a beicio, neu ar y cyd â gwasanaethau bysiau lleol.

**3.27 Polisi Rhanbarthol**

**3.28** *Cynllun Trafnidiaeth Lleol ar y Cyd Canolbarth Cymru 2015*

Gweledigaeth Cynllun Trafnidiaeth Lleol ar y Cyd Canolbarth Cymru 2015 yw *"cynllunio ar gyfer, a darparu mewn partneriaeth, system drafnidiaeth fforddiadwy ac integredig yn y rhanbarth sy'n hwyluso datblygiad economaidd, yn sicrhau mynediad i bawb at wasanaethau a chyfleoedd, yn cynnal ac yn gwella ansawdd bywyd cymunedol, ac yn gwneud cyfraniad gweithgar at reoli carbon ac ansawdd yr amgylchedd"*.

Mae'r cynllun yn nodi nifer o faterion a chyfleoedd ar gyfer trafnidiaeth yng Nghanolbarth Cymru ac yn disgrifio pa Ymyraethau Lefel Uwch y mae eu hangen er mwyn mynd i'r afael â'r rhain. Yr Ymyraethau Lefel Uwch a restrir yw:

- Gwella Cysylltiadau Strategol;
- Gwella Hygyrchedd i Gyflogaeth a Gwasanaethau;
- Annog Cerdded a Beicio;
- Rhwydweithiau Trafnidiaeth Gyhoeddus Integredig; a
- Gwella Diogelwch.

Bydd y CRhAP yn rhoi sylw i'r ymyraethau a nodir yn y Cynllun trwy gynnal cysylltiad strategol ag ardaloedd a chyfleusterau allweddol, a fydd yn ei dro yn gwella gwytnwch y rhwydwaith trafnidiaeth lleol.

**3.29** *Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Drafft Canolbarth Cymru 2025-30*

**Daw'r ymgynghoriad ar y cynllun drafft i ben ar 4 Ebrill 2025.**

Mae'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn cael ei ddatblygu gan Gyd-bwyllgor Corfforaethol Canolbarth Cymru sy'n bartneriaeth rhwng Cyngor Sir Ceredigion a Chyngor Sir Phowys o dan arweiniad Llwybr Newydd: Strategaeth Drafnidiaeth Cymru 2021 (gweler 3.6).

Mae'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol drafft yn gosod gweledigaeth uchelgeisiol i greu system drafnidiaeth gynaliadwy, carbon isel ac effeithlon. Bydd yn canolbwyntio ar wella cysylltedd o fewn a thu hwnt i Ganolbarth Cymru tra'n mynd i'r afael â'r heriau sy'n unigryw i'n tirwedd wledig. Mae amcanion allweddol y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn cynnwys:

- Cynyddu mynediad at ddulliau trafnidiaeth cynaliadwy fel beicio, cerdded a thrafnidiaeth gyhoeddus.
- Gwella cysylltiadau trafnidiaeth er mwyn hybu twf economaidd a thwristiaeth.
- Cefnogi ymdrechion i leihau effeithiau amgylcheddol trafnidiaeth.

Y weledigaeth ar gyfer y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yng Nghanolbarth Cymru yw, "System drafnidiaeth wledig, hygyrch, carbon isel, effeithlon, a chysylltiedig sy'n cefnogi twf economaidd cynaliadwy, cymunedau llewyrchus a diwylliant bywiog o fewn rhanbarth unigryw Canolbarth Cymru".

Mae'r gwaith o baratoi'r cynllun wedi cael ei oruchwylio gan Is-bwyllgor Trafnidiaeth Cyd-bwyllgor Corfforaethol Canolbarth Cymru. Mae'r Cynllun yn ddogfen statudol ar gyfer trafnidiaeth yn y rhanbarth. Mae'r ddau awdurdod lleol yn gweithio gyda'i gilydd i hwyluso llesiant economaidd, cynllunio datblygu strategol a thrafnidiaeth, gan sicrhau mynediad i bawb at wasanaethau a chyfleoedd, cynnal a gwella ansawdd bywyd cymunedol, a gwneud cyfraniad gweithredol at fod yn garbon sero net ac ansawdd yr amgylchedd trwy gyflenwi, mewn partneriaeth, system drafnidiaeth integredig a fforddiadwy yn y rhanbarth.

Mae'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn ategu gwaith yr awdurdodau lleol ym maes datblygu economaidd a chynllunio, gan gynnwys cynlluniau a pholisïau statudol y ddau awdurdod. Nod y Cynllun yw mynd i'r afael â'r materion a'r cyfleoedd allweddol ar gyfer Canolbarth Cymru:

- Anawsterau o ran cael mynediad at gyflogaeth a gwasanaethau, yn enwedig i'r rhai heb gar ac oherwydd yr angen i deithio'n bell.
- Cyfleoedd gwael ar gyfer goddiweddyd, mannau cyfyng a chyfyngiadau ar y rhwydwaith ffyrdd strategol yn arwain at fwy o amharu a llai o ddibynadwyedd amser siwrneiau ar gyfer symud pobl a nwyddau o fewn y rhanbarth ac i gyrchfannau allweddol y tu allan i Ganolbarth Cymru.
- Mwy o risgiau i wydnwch y rhwydwaith trwy effeithiau newid hinsawdd, gan gynnwys perygl llifogydd.
- Cyfleoedd i gynyddu'r gyfran teithio trwy gerdded, olwyno a beicio a gwella iechyd a llesiant y gymuned leol a pharhau i wella'r cofnod diogelwch ar y ffyrdd.

Mae'r Cynllun yn amlinellu rhaglen fanwl o 2025-2030 a fframwaith ar gyfer cynlluniau hyd at 2040 a thu hwnt.

**3.30 Polisi Lleol**

**3.31** *<u>Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion 2007 – 2022</u>*

Mae Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion (2007-2022) yn nodi polisïau a chynigion amrywiol mewn perthynas â datblygu a defnyddio tir. Mae'r Cynllun yn nodi deunaw amcan sy'n amlinellu sut y caiff gweledigaeth gyffredinol y CDLl ei chyflawni a sut y rhoddir sylw i'r materion allweddol. Yr amcanion sy'n ymwneud â thrafnidiaeth yw:

- Hyrwyddo patrwm o dwf sy'n helpu i gynnal bywiogrwydd nid yn unig y trefi a'r ardaloedd gwledig o'u cwmpas ond hefyd cymunedau gwledig y sir fawr hon, mewn modd sy'n gwella nodweddion cymdeithasol, diwylliannol, economaidd ac amgylcheddol ac yn gwneud y mwyaf o hygyrchedd a chysylltedd cynaliadwy.
- Cynnal a gwella amgylchedd adeiledig o ansawdd uchel sydd; yn caniatáu ar gyfer dylunio arloesol, yn adlewyrchu ymdeimlad o le, yn hawdd ei gyrraedd, yn hawdd ei ddefnyddio, yn ddiogel i fyw ynddo ac yn helpu i wella iechyd a llesiant ei gymunedau.
- Gwella a helpu i sicrhau y darperir ac y diogelir lefel briodol o gyfleusterau a gwasanaethau addysg, iechyd, diwylliannol, cymdeithasol, adloniadol, cymunedol, chwaraeon a hamdden a mynediad iddynt.
- Sicrhau bod datblygiad yn lleihau cyfraniad nwyon tŷ gwydr Ceredigion, yn unigol ac yn gronnol; a cheisio gostyngiad lle bynnag y bo modd. Sicrhau bod pob datblygiad yn ymaddasol ac yn wydn i natur newidiol yr hinsawdd a gweithio tuag at leihau'r perygl o lifogydd.

- Cynorthwyo i wella'r potensial ar gyfer teithio cynaliadwy; mynediad cyfartal; a chysylltedd y sir er mwyn ei heconomi, ei chymunedau a'u hiechyd a'u llesiant.

Mae Polisi DM04 yn y Cynllun yn canolbwyntio ar wella'r seilwaith trafnidiaeth er mwyn cynnig y potensial ar gyfer teithio cynaliadwy, megis "darparu cysylltiadau at lwybrau sydd eisoes yn bodoli o ddatblygiadau newydd, adnewyddu seilwaith nad yw'n cael ei ddefnyddio mwyach lle bydd hynny'n gwasanaethu datblygiad newydd mewn ffordd gynaliadwy a darparu gwell iechyd a safon byw…"

**3.32** *Strategaeth Gorfforaethol Ceredigion 2022 – 2027*

Mae'r Strategaeth Gorfforaethol yn ceisio cyflawni pedwar Amcan Llesiant Corfforaethol sy'n adlewyrchu cynaliadwyedd a llesiant dinasyddion Ceredigion. Mae'r cynllun yn nodi nifer o flaenoriaethau i gyflawni pob un o'r amcanion. Mae'r amcanion hynny wedi cael eu nodi ar ôl ymgynghori helaeth fel:

- Hybu'r Economi, Cefnogi Busnesau a Galluogi Cyflogaeth;
- Creu Cymunedau Gofalgar ac Iach;
- Darparu'r Dechrau Gorau mewn Bywyd a Galluogi Pobl o Bob Oed i Ddysgu;
- Creu Cymunedau Cynaliadwy a Gwyrdd sydd wedi'u Cysylltu'n Dda â'i Gilydd.

Bydd y CRhAP hwn yn sicrhau bod cysylltedd trafnidiaeth yn cael ei gynnal yn yr ardal leol, yn enwedig o ran cysylltiadau â gwasanaethau a chyfleusterau hanfodol ledled Ceredigion. Bydd y CRhAP hefyd yn sicrhau bod darpariaeth ar gyfer cerdded a beicio yn cael ei chynnal, gan annog ei defnyddio ac felly ei bod o fudd i lesiant corfforol a meddyliol.

**4.0 POLISI CRhAP**

**4.1 Datganiad Polisi**

**4.2** Mae'r CRhAP hwn yn diffinio rheoli asedau priffyrdd fel

"Dull systematig o ddiwallu'r angen strategol i reoli a chynnal asedau seilwaith priffyrdd trwy gynllunio hirdymor a'r dyraniad gorau o adnoddau er mwyn rheoli risg a bodloni gofynion perfformiad y Cyngor yn y modd mwyaf effeithlon a chynaliadwy".

**4.3** Yn erbyn y cefndir hwn, datblygwyd y CRhAP hwn i sicrhau bod gan y Cyngor asedau seilwaith priffyrdd wedi'i reoli'n dda yn unol â'r argymhellion yn y cod ymarfer cenedlaethol, a chyflawni dyheadau allweddol Cyngor Sir Ceredigion.

**4.4** Mae'r amcanion polisi canlynol ar gyfer y CRhAP hwn wedi cael eu datblygu i gefnogi'r dyheadau hyn:

**Amcanion Allweddol:**

1. Bydd yr Awdurdod Priffyrdd yn rheoli ei adnoddau i gefnogi symud nwyddau a phobl yn ddiogel ac yn gyflym trwy ddull sy'n seiliedig ar risg ac wedi'i flaenoriaethu.
2. Parhau i reoli a chynnal y rhwydwaith er mwyn galluogi dulliau teithio cynaliadwy gan gynnwys beicio a cherdded.
3. Bydd amcanion cynllunio cenedlaethol, corfforaethol a busnes yn sail i'r polisi hwn.
4. Bydd y Cyngor yn mabwysiadu arferion rheoli asedau effeithiol gan arwain at weithgareddau cynnal a chadw mwy effeithlon ac effeithiol.
5. Rhoi trefniadau priodol yn eu lle ar gyfer archwilio a chynnal a chadw, casglu data, arolygon cyflwr, rheoli stocrestrau a systemau gwybodaeth er mwyn gallu gwneud penderfyniadau gwybodus i sicrhau bod ein dyletswyddau statudol yn cael eu bodloni a lleihau'r hawliadau yn erbyn y Cyngor Sir.

**4.5 Cyflawni Amcanion Allweddol CRhAP**

**4.6** Bydd CRhAP Cyngor Sir Ceredigion yn cynnig modd cyflawni amcanion priffyrdd allweddol gan gefnogi amcanion rhanbarthol a Chyngor cyfan yr un pryd.

**4.7** Amcanion datganedig y Gwasanaeth Priffyrdd yw:

**Amcan allweddol 1:** Bydd yr Awdurdod Priffyrdd yn rheoli ei adnoddau i gefnogi symudi nwyddau a phobl yn ddiogel ac yn gyflym trwy ddull sy'n seiliedig ar risg ac wedi'i flaenoriaethu. Bydd hyn yn cael ei wneud trwy:

a) darparu rhwydwaith priffyrdd sy'n addas at y diben. Mae hyn yn golygu rhwydwaith ffyrdd sy'n: 1) Diogel – sicrhau cydymffurfiaeth â rhwymedigaethau statudol

b) bod yn addas i'w ddefnyddio – sicrhau argaeledd, cyfanrwydd, dibynadwyedd

c) cynaliadwy – sicrhau'r gwerth gorau i'r gymuned

ch) ategu strategaethau trafnidiaeth a diogelwch ar y ffyrdd cenedlaethol, rhanbarthol a lleol

d) cydlynu'r gwaith ar y rhwydwaith i leihau tagfeydd

dd) defnyddio matrics asesu risg, hierarchaeth rhwydwaith a maint y traffig er mwyn targedu adnoddau

**Amcan allweddol 2:** Parhau i reoli a chynnal y rhwydwaith er mwyn galluogi dulliau teithio cynaliadwy gan gynnwys beicio a cherdded. Bydd hyn yn cael ei wneud trwy:

a) cefnogi mentrau Teithio Llesol

b) cynnal a rheoli rhwydwaith beicio'r priffyrdd yng Ngheredigion

c) datblygu hierarchaeth cynnal a chadw troedffyrdd a ffyrdd beiciau

ch) cefnogi'r seilwaith ar gyfer rhwydweithiau trafnidiaeth teithwyr

d) cydnabod y defnydd o feiciau fel rhan o'n model blaenoriaethu buddsoddiad yn y priffyrdd

**Amcan allweddol 3:** Bydd amcanion cynllunio cenedlaethol, corfforaethol a busnes yn sail i'r polisi hwn. Bydd hyn yn cael ei wneud trwy:

a) cysylltu â phartneriaid mewnol ac allanol i sicrhau bod gweithgareddau cynnal a chadw priffyrdd yn cyd-fynd ag amcanion ehangach

b) cydnabod newidiadau mewn deddfwriaeth a pholisïau

c) gweithredu ar adborth a gafwyd gan Grŵp Monitro Cyfalaf y Cyngor i sicrhau goruchwyliaeth briodol ar gyfer buddsoddiad cyfalaf

ch) cynhyrchu Adroddiad Blynyddol ar Statws ac Opsiynau a fydd yn darparu datganiad sefyllfa ac opsiynau buddsoddi

**Amcan allweddol 4:** Bydd y Cyngor yn mabwysiadu arferion rheoli asedau effeithiol gan arwain at weithgareddau cynnal a chadw mwy effeithlon ac effeithiol. Bydd hyn yn cael ei wneud trwy:

a) cydnabod costau oes gyfan, cynaliadwyedd hirdymor, datblygiadau technegol ac ystyriaethau amgylcheddol mewn perthynas â'r adnoddau sydd ar gael

b) datblygu cynlluniau cylchred oes ar gyfer oes gyfan ein hasedau seilwaith er mwyn i ni allu gwneud gwaith cynnal a chadw ataliol ar yr adeg iawn ac osgoi atgyweiriadau adweithiol costus i'n hasedau

c) Cydweithio ag awdurdodau eraill Cymru o fewn prosiect rheoli asedau Cymdeithas Syrfewyr Sirol Cymru

**Amcan allweddol 5:** Rhoi trefniadau priodol yn eu lle ar gyfer archwilio a chynnal a chadw priodol, casglu data, arolygon cyflwr, rheoli stocrestrau a systemau gwybodaeth er mwyn gallu gwneud penderfyniadau gwybodus, sicrhau bod ein dyletswyddau statudol yn cael eu bodloni, a lleihau'r hawliadau yn erbyn y Cyngor Sir. Bydd hyn yn cael ei wneud trwy:

a) cynnal gweithdrefn archwilio asedau seilwaith briodol. Bydd hyn yn ystyried canllawiau cenedlaethol megis *Cod Ymarfer: Seilwaith Priffyrdd wedi'i Reoli'n Dda* ac ati.

b) sicrhau bod diffygion priffyrdd, boed wedi'u nodi gan archwilwyr neu wedi'u hadrodd gan y cyhoedd, yn cael eu hymchwilio a'u hatgyweirio yn unol â'r meini prawf a nodir yn ein Llawlyfr Cynnal a Chadw Priffyrdd (Cyfrol 3) a'r Cod Ymarfer ar gyfer Archwiliadau Diogelwch ar Ffyrdd Sirol a'r Ymateb 2021

c) cynnal ein buddsoddiad yn ein systemau rheoli asedau

ch) cynnal arolygon stocrestr a chyflwr priodol o'n hasedau seilwaith

d) buddsoddi mewn technoleg cipio data a thechnoleg symudol i gasglu gwybodaeth am asedau, data cyflwr a chadw cofnodion cywir o'r gwaith a wneir ar yr asedau

**4.8** Mae'r gweithdrefnau manwl a ddefnyddir i sicrhau bod y Cyngor yn darparu data i lywio ei broses gwneud penderfyniadau i'w gweld yn y Strategaeth Rheoli Gwybodaeth a Data. Mae'r strategaeth wedi'i nodi yng Nghyfrol 2 y CRhAP, y ddogfen fframwaith ategol, a bydd y gweithgareddau ymgysylltu yn cael eu hadrodd bob blwyddyn yn yr Adroddiad Blynyddol ar Statws ac Opsiynau.

### 4.9 Y Berthynas rhwng yr Amcanion Allweddol

| Amcanion y Cyngor | | | |
|---|---|---|---|
| Hybu'r Economi, Cefnogi Busnesau a Galluogi Cyflogaeth | Creu Cymunedau Gofalgar ac Iach | Darparu'r Dechrau Gorau mewn Bywyd a Galluogi Pobl o Bob Oed i Ddysgu | Creu Cymunedau Cynaliadwy a Gwyrdd sydd â Chysylltiadau Da |

| Amcanion Corfforaethol yn Ymwneud â Phriffyrdd | | | |
|---|---|---|---|
| Cynnal gwydnwch ein cymunedau gwledig a threfol trwy wella cysylltiadau trafnidiaeth | Gwella'r seilwaith priffyrdd a'r rhwydwaith cyfathrebu i gefnogi datblygu a gweithgarwch economaidd pellach | Lleihau goryrru a damweiniau traffig ar y ffyrdd a lleihau nifer y bobl a gafodd eu lladd neu eu hanafu ar y ffyrdd | Cael mwy o bobl i fod yn gorfforol egnïol yn amlach, gan hyrwyddo teithio llesol a darparu seilwaith trafnidiaeth gynaliadwy |

**Amcanion llesiant allweddol**

- Cefnogi busnesau newydd a busnesau sy'n tyfu yn y sir
- Annog a galluogi pobl i fod yn gorfforol egnïol er mwyn iddynt allu manteisio ar iechyd a llesiant cadarnhaol
- Datblygu cynllun gwella ar gyfer y ddarpariaeth strategol o gyfleusterau i gynyddu lefelau gweithgarwch corfforol yn y sir
- Cefnogi darpariaeth gynyddol ar gyfer cerdded a beicio
- Atal a gwrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth
- Gwella cysylltedd digidol, trafnidiaeth ac ynni

**Amcanion CRhAP**

1. Rheoli adnoddau i gefnogi symud pobl a nwyddau yn ddiogel ac yn gyflym
2. Rheoli a chynnal y rhwydwaith i alluogi dulliau teithio cynaliadwy gan gynnwys beicio a cherdded
3. Rhoi arolygon a systemau gwybodaeth yn eu lle ar gyfer archwiliadau, cynnal a chadw a chyflwr er mwyn gallu gwneud penderfyniadau gwybodus a bodloni ein dyletswyddau statudol
4. Mabwysiadu arferion rheoli asedau effeithiol
5. Cefnogi amcanion y cynllun busnes cenedlaethol, corfforaethol a gwasanaeth

**4.10 Cwmpas y Polisi**

**4.11** Mae'r Polisi hwn yn ymwneud ag asedau seilwaith priffyrdd ar rwydwaith priffyrdd cyhoeddus Cyngor Sir Ceredigion. Mae'r asedau seilwaith yn cynnwys:

- Ffyrdd
- Troedffyrdd
- Pontydd priffyrdd ac adeileddau cysylltiedig
- Draeniad priffyrdd
- Llwybrau beicio ar y ffordd ac oddi ar y ffordd
- Asedau geodechnegol
- Goleuadau priffyrdd, goleuadau traffig ac arwyddion wedi'u goleuo
- Dodrefn stryd priffyrdd a mesurau tawelu traffig
- Coed ac ymylon priffyrdd

**4.12** **Nid** yw'r asedau canlynol wedi'u cynnwys yn y Polisi:

- Cefnffyrdd
- Hawliau Tramwy Cyhoeddus
- Meysydd parcio
- Asedau draenio tir
- Cerbytffyrdd/troedffyrdd heb eu mabwysiadu
- Asedau priffyrdd y Cyngor heb eu mabwysiadu (ystad gorfforaethol)
- Amddiffynfeydd arfordirol
- Camerâu cyflymder/teledu cylch cyfyng/ANPR
- Asedau cymunedol neu a drosglwyddwyd
- Adeileddau/adeiladau corfforaethol heb eu mabwysiadu

## 5.0 GWEITHREDU STRATEGAETH POLISI CRhAP

### 5.1 Cynllunio Rheoli Asedau fel Polisi

Bydd y Cyngor yn mabwysiadu dull cynllunio rheoli asedau ar gyfer rheoli asedau seilwaith priffyrdd gan fabwysiadu'r arferion a argymhellir sydd wedi'u nodi yn y Fframwaith Rheoli Asedau Priffyrdd (Cymdeithas Syrfewyr Sirol Cymru).

Cyn eu derbyn, bydd prosiectau gwaith cyfalaf arfaethedig yn destun gwerthusiad cost technegol a chylchred oes a'u blaenoriaethu gan ddefnyddio meini prawf a bennwyd ymlaen llaw ac a ddatblygwyd i fodloni nodau'r Cynllun Corfforaethol a'r CRhAP.

### 5.2 Data Asedau

Bydd y Cyngor, trwy'r Rheolwyr Gwasanaeth Cynnal a Chadw/Datblygu Priffyrdd yn casglu a chynnal data digonol i gefnogi'r arferion a argymhellir. Bydd hyn yn cynnwys:

**Stocrestr:** cynnal cofrestr asedau i'r lefel o fanylder sydd ei hangen er mwyn bodloni gofynion Cod Asedau Seilwaith Trafnidiaeth y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA)

**Cofnodion archwilio:** cadw cofnodion o'r archwiliadau a gynhaliwyd a'r diffygion a nodwyd

**Cofnodion atgyweirio:** cadw manylion am yr atgyweiriadau a wnaed

**Data arolwg cyflwr:** cadw cofnodion o'r asesiadau cyflwr

**Data cyswllt cwsmeriaid:** cadw cofnodion o geisiadau, hysbysu am ddiffygion a chwynion

**Data cost:** cadw cofnodion o gost atgyweiriadau a gwaith yn ddigonol er mwyn gallu cynnal adolygiad

## 6.0 RHEOLAETH ARIANNOL CRhAP

**6.1** Bydd y Cyngor yn dilyn yr arferion rheolaeth ariannol priodol sy'n ofynnol er mwyn cefnogi rheolaeth asedau.

**6.2** Bydd y Cyngor yn **cofnodi ac yn adolygu'r** canlynol:

**6.3** Costau hanesyddol lefel uchel er mwyn deall sut mae'r lefel buddsoddi wedi effeithio ar gyflwr yr ased.

**6.4** Costau uned y gweithgareddau cyffredin er mwyn deall sut maent yn newid dros amser a'u defnyddio i lywio cost-effeithiolrwydd y gweithgareddau hynny.

**6.5** Meincnodi costau lefel uchel yn erbyn awdurdodau cymheiriaid er mwyn gallu asesu faint y mae eraill yn ei fuddsoddi a pha ganlyniadau y gallant eu cyflawni ar gyfer eu cyllidebau.

**6.6** Meincnodi costau uned yn erbyn awdurdodau cymheiriaid a chyflenwyr allanol er mwyn eu hasesu o ran faint y gall eraill ei gyflawni ar gyfer gweithgareddau tebyg.

**6.7** Bydd y Cyngor yn cyhoeddi **prisiad asedau blynyddol**. Gwneir hyn trwy gyfrifo costau dibrisiant blynyddol gan ddefnyddio dull a nodir yn y weithdrefn prisio asedau trafnidiaeth ac yn adrodd arnynt gyda ffigurau costau ailosod ac ailosod wedi'u dibrisio gros.

**6.8** Adrodd ar opsiynau costiad hirdymor yn y dyfodol er mwyn **dangos lefel y buddsoddiad sy'n ofynnol** er mwyn cynnal yr ased a gwneud dewisiadau gan ystyried anghenion tymor byr a hirdymor.

**6.9** Cynnal **dadansoddiad cost cylchred oes** (costiad oes gyfan) er mwyn gallu gwneud dewisiadau sy'n cydbwyso costau tymor byr a hirdymor yn briodol ac sy'n cynnig modd targedu'r opsiynau cost oes gyfan lleiaf.

**6.10** Cyhoeddi'r **prif opsiynau buddsoddi** trwy baratoi achosion busnes penodol i'r Grŵp Datblygu ar gyfer buddsoddiad cyfalaf gan sicrhau bod gwariant wedi cael ei gyfiawnhau, ei fonitro a'i adrodd a sicrhau bod y buddion a fwriedir yn cael eu gwireddu.

**6.11** **Adolygu'r dyraniad cyllideb** gan ddefnyddio Cynllun Rheoli Asedau Priffyrdd y Cyngor er mwyn argymell ac arwain gosod cyllidebau'r Cyngor ar gyfer cynnal a chadw asedau priffyrdd. Bydd hyn yn cynnwys y cyllid sy'n ofynnol ar gyfer prynu, cynnal a chadw, adfer ac ailosod asedau.

## 7.0 ADOLYGIAD PERFFORMIAD

**7.1** Er mwyn sicrhau y cedwir at y safonau a nodir yn y llawlyfr hwn bydd y Cyngor yn datblygu ac yn gweithredu trefn monitro perfformiad fel y nodir isod:

**7.2** **Disgwyliadau Cymunedol** – Monitro cysylltiadau gan ddefnyddwyr a thrigolion ac adrodd ar faterion a nodwyd neu dueddiadau yn nifer y cysylltiadau.

**7.3** **Adolygu Risg –** Cynnal adolygiad blynyddol o'r risgiau sy'n gysylltiedig â rheoli ei seilwaith priffyrdd ac adrodd ar y canlyniad.

Datblygu, cynnal ac adolygu'n rheolaidd Gofrestr Risg Asedau Priffyrdd a fydd yn nodi'r risgiau sy'n gysylltiedig ag isadeiledd priffyrdd y Cyngor ac yn cofnodi'r rheolaethau sydd yn eu lle i'w rheoli.

**7.4** **Mesurau Perfformiad Gweithredol –** Bydd cyfres o fesurau perfformiad gweithredol yn cael eu datblygu a'u defnyddio i fonitro gweithgareddau parhaus megis archwiliadau ac atgyweiriadau rheolaidd ac adweithiol. Cyhoeddir rhestr o'r mesurau perfformiad gweithredol ynghyd ag amlder adroddiadau ac i bwy yr adroddir.

**7.5** Bydd y mesurau gweithredol hyn yn cael eu cynllunio er mwyn i'r rheolwyr gwasanaeth allu cymryd camau unioni os yw perfformiad wedi disgyn yn is na'r safonau gofynnol. Felly, adroddir ar y mesurau hyn ar amlder penodol, h.y. misol, chwarterol ac ati o fewn y flwyddyn.

**7.6** **Dangosyddion Perfformiad –** Mae'r Dangosyddion Perfformiad Cenedlaethol a Lleol canlynol yn mesur perfformiad y gwasanaeth:

| **Dangosyddion Cenedlaethol** |
|---|
| DP Cenedlaethol PAM020 – % km o ffyrdd A sydd mewn cyflwr gwael |
| DP Cenedlaethol PAM021 – % km o ffyrdd B sydd mewn cyflwr gwael |
| DP Cenedlaethol PAM022 – % km o ffyrdd C sydd mewn cyflwr gwael |

| **Dangosyddion Lleol** |
| --- |
| DP Lleol HES-LPI-03 – Nifer cyfartalog y diwrnodau calendr a gymerwyd i atgyweirio diffygion goleuadau stryd yn ystod y flwyddyn |
| DP Lleol HES-LPI-09 – % y diffygion Categori 1 wedi'u hatgyweirio neu eu gwneud yn ddiogel erbyn diwedd y diwrnod gwaith nesaf |

**7.7** Yn ogystal, mae Cymdeithas Syrfewyr Sirol Cymru wedi datblygu cyfres o fesurau perfformiad a gynlluniwyd i alluogi awdurdodau i fonitro perfformiad eu hasedau priffyrdd. Bydd y Cyngor yn mabwysiadu'r broses o gofnodi ac adrodd ar y mesurau perfformiad hyn er mwyn gallu adolygu cynnydd o ran bodloni'r targedau cyflwr a osodwyd yn y Cynllun Rheoli Asedau a hwyluso cymhariaeth briodol ag awdurdodau cymheiriaid.

**7.8** **Meincnodi –** Mae'r Cyngor yn cymryd rhan mewn gweithgareddau meincnodi priodol gan ddefnyddio'r data a gofnodwyd ar gyfer Mesurau Perfformiad Gweithredol a Dangosyddion Perfformiad priodol. Bydd y meincnodi hwn yn cael ei hwyluso trwy brosiect CRhAP Cymdeithas Syrfewyr Sirol Cymru. Cydnabyddir bod rhai o'r mesurau yn ganlyniad uniongyrchol i ddewis y Cyngor o ran safonau lleol a'r targedau a fabwysiadwyd, ac felly efallai na fydd yn briodol bob amser i gymharu ag awdurdodau eraill. Fodd bynnag, mae elfennau o berfformiad lle bydd deall perfformiad cyfatebol mewn awdurdodau tebyg yn cynnig modd i'r Cyngor rannu a dysgu o arferion da a rhoi gwelliannau ar waith. Mae'r Cyngor yn gwneud hyn trwy gydweithio wedi'i hwyluso gan Gymdeithas Syrfewyr Sirol Cymru a'r pwyllgorau a grwpiau amrywiol y mae Cymdeithas Syrfewyr Sirol Cymru yn eu cefnogi.

## 8.0 LLAWLYFR CYNNAL A CHADW PRIFFYRDD

**8.1** Bydd y Cyngor, trwy'r Rheolwr Gwasanaeth (Cynnal a Chadw Priffyrdd) yn cynnal llawlyfr yn amlinellu sut mae gwaith cynnal a chadw priffyrdd yn cael ei wneud. Mae'r Llawlyfr Cynnal a Chadw Priffyrdd yn diffinio sut a phryd y byddwn yn:

- Archwilio
- Categoreiddio a blaenoriaethu atgyweiriadau adweithiol
- Asesu cyflwr
- Nodi a blaenoriaethu safleoedd i'w hadnewyddu neu eu hailosod
- Dewis y deunyddiau a ddefnyddir
- Paratoi rhaglenni gwaith
- Caffael a rheoli gwaith
- Cofnodi ac adrodd am gostau
- Cofnodi ac ymateb i gysylltiadau cwsmeriaid
- Mae hyn yn cyd-fynd yn agos â'r Cod Ymarfer ar gyfer Archwiliadau Diogelwch ar Ffyrdd Sirol a'r Ymateb 2021

## 9.0 ADRODDIAD BLYNYDDOL CRhAP

**9.1** Bydd y Cyngor, trwy'r Rheolwr Corfforaethol (Gwasanaethau Priffyrdd) yn paratoi Adroddiad Blynyddol ar Statws ac Opsiynau. Pwrpas yr adroddiad hwn yw rhoi gwybodaeth i reolwyr ac aelodau etholedig er mwyn gallu gosod safonau a'u cynnwys yn y Cynllun Rheoli Asedau Priffyrdd. Mae'n crynhoi ac yn adrodd am y canlynol:

- Statws pob grŵp asedau o ran ei gyflwr a gallu'r Cyngor i fodloni ei safonau atgyweirio adweithiol
- Canlyniad buddsoddiad y flwyddyn flaenorol o ran bodloni'r targedau ar gyfer safonau gwasanaeth
- Canlyniadau'r adolygiad risg blynyddol
- Yr opsiynau sydd ar gael ar gyfer y dyfodol o ran rhagfynegiadau tymor byr a hirdymor ar gyfer lefelau diffygion a chyflwr y gellir eu fforddio gyda lefelau cyllideb gwahanol

**9.2** Lle bynnag y bo modd, defnyddir modelu rhagfynegol i ddatblygu a gweithredu rhaglenni cynnal a chadw ataliol er mwyn sicrhau'r costau cylchred oes lleiaf. Mae gwerth gorau yn cael ei sicrhau trwy waith cynnal a chadw ataliol cynlluniedig yn hytrach na chynnal a chadw adweithiol cymharol ddrud.

**9.3** Pan fydd y gyllideb flynyddol yn cael ei gosod, bydd unrhyw newid i'r safonau gwasanaeth a nodir yn y Cynllun Rheoli Asedau yn cael ei wneud a chyhoeddir atodiad i'r Cynllun Rheoli Asedau Priffyrdd.

## 10.0 RHEOLI'R CRhAP

**10.1** Bydd y Cyngor trwy'r Rheolwr Corfforaethol (Gwasanaethau Priffyrdd) yn:

**10.2** Datblygu Cynllun Rheoli Asedau Priffyrdd ar gyfer ffyrdd (cerbytffyrdd), troedffyrdd, pontydd ac adeileddau a goleuadau stryd. Fel arfer caiff y CRhAP ei adolygu bob pum mlynedd.

**10.3** Bydd y CRhAP yn diffinio'r strategaethau rheoli i'w mabwysiadu trwy gydol cylchred oes yr ased.

**10.4** Bydd y CRhAP yn cynnwys:

- Newidiadau a ragwelir yn y galw yn y dyfodol
- Lefelau gwasanaeth sy'n ofynnol
- Y buddsoddiad sy'n ofynnol i gynnal a chadw, adnewyddu ac ailosod asedau er mwyn bodloni'r lefelau gwasanaeth a gymeradwywyd gan y Cyngor
- Dulliau monitro ac arfarnu perfformiad
- Rhagamcanion ariannol
- Y risgiau sy'n gysylltiedig â'r cynllun

**10.5** Bydd y Cyngor, trwy'r Rheolwr Gwasanaeth (Datblygu Priffyrdd), yn darparu **Rhaglen Waith** ac yn:

- Cynnal rhaglen dreigl ar gyfer yr holl grwpiau asedau sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'r strategaethau yn y CRhAP
- Gwerthuso ac adolygu'r rhaglen waith yn flynyddol

**10.6** Bydd y Cyngor, trwy'r Rheolwr Gwasanaeth (Datblygu Priffyrdd), yn sicrhau **Cyfathrebu** effeithiol trwy:

- Ddyrannu cyfrifoldeb am reoli asedau i staff sydd wedi'u hyfforddi'n briodol/yn fedrus/yn gymwys
- Cynnal cyfathrebiadau rheoli asedau cynlluniedig rheolaidd sy'n briodol i anghenion rhanddeiliaid
- Ymgysylltu â phrosiectau cenedlaethol perthnasol megis prosiect CRhAP Cymdeithas Syrfewyr Sirol Cymru.

**10.7** Bydd y Cyngor, trwy'r Rheolwr Corfforaethol (Gwasanaethau Priffyrdd) yn hybu **Gwelliant a Gwerth am Arian** trwy'r defnydd effeithiol o ddulliau rheoli asedau da er mwyn sicrhau gwelliannau a gwerth am arian gwell trwy gynnal a monitro cofrestr o welliannau effeithlonrwydd.

**10.8** Bydd y Cyngor, trwy'r Rheolwr Gwasanaeth (Cynnal a Chadw Priffyrdd) yn cynnal **asesiad o arferion rheoli asedau priffyrdd** yn flynyddol.

## 11.0 ROLAU A CHYFRIFOLDEBAU

**11.1** Mae'r rolau a'r cyfrifoldebau ar gyfer ymgymryd â chynllunio rheoli asedau priffyrdd wedi'u nodi isod:

### 11.2 Aelodau Etholedig

- Gweithredu fel ceidwaid asedau'r Cyngor.
- Pennu polisi rheoli asedau corfforaethol gan gysylltu â Chynllun Corfforaethol y Cyngor.
- Cytuno ar Lefelau Gwasanaeth a Lefelau Risg Derbyniol ar gyfer pob dosbarth asedau fel y cynghorir ac a argymhellir gan y Gwasanaeth yn ei Adroddiadau Blynyddol ar Statws ac Opsiynau.
- Dyrannu cyllidebau er mwyn cyrraedd y lefelau a osodwyd.
- Sicrhau bod adnoddau priodol ar gael ar gyfer gweithgareddau rheoli asedau.

### 11.3 Prif Swyddog Gweithredol / Grŵp Arweiniol Corfforaethol

- Darparu cyfeiriad ac arweiniad strategol.
- Sicrhau bod gwelliant parhaus ym maes rheoli asedau.
- Adolygu polisïau presennol a datblygu polisïau newydd yn ymwneud â rheoli asedau.
- Monitro ac adolygu rheolwyr a staff o ran cyflawni'r Strategaeth Rheoli Asedau.
- Sicrhau bod gwybodaeth gywir a dibynadwy am asedau yn cael ei chyflwyno i'r Cyngor.

### 11.4 Rheolwyr a Staff

- Gweithredu'r Polisi Rheoli Asedau a chynllun gydag adnoddau y cytunwyd arnynt.
- Datblygu a gweithredu cynlluniau gwella ar gyfer grwpiau asedau unigol.
- Datblygu a gweithredu rhaglenni cynnal a chadw a gwaith cyfalaf yn unol â'r Cynllun Rheoli Asedau a chyllidebau
- Cyflenwi lefelau gwasanaeth i safonau risg a chost y cytunwyd arnynt.
- Cyflwyno gwybodaeth i'r Cyngor, y Prif Swyddog Gweithredol a'r tîm Gweithredol o ran risgiau cylchred oes a chostau
- Ceisio adborth gan randdeiliaid ar newidiadau arfaethedig i lefelau gwasanaeth

## 12.0 GWEITHDREFNAU A PHOLISÏAU CYSYLLTIEDIG

**12.1** Strategaeth Ariannol Tymor Canolig – gweler y ddolen isod i dudalen we CSC

**STRATEGAETH ARIANNOL TYMOR CANOLIG 2024/25 – CYNGOR SIR CEREDIGION**

## 13.0 CYFROL 2 – FFRAMWAITH RHEOLI ASEDAU PRIFFYRDD

**13.1 Pwrpas –** Pwrpas yr adran hon yw dogfennu sut mae Cyngor Sir Ceredigion yn rheoli'r gwaith o gynnal a chadw priffyrdd. Mae'n dangos sut mae'r Cyngor yn bwriadu cyflawni ei ddyletswyddau fel yr Awdurdod Priffyrdd ac yn dogfennu'r dulliau a ddefnyddir i sicrhau bod y risg i ddefnyddwyr yn cael ei monitro a'i rheoli'n briodol.

**13.2 Cwmpas –** Bydd Gwasanaethau Priffyrdd yn ymgymryd â gweithgareddau cynnal a chadw ar ran y Cyngor ar y rhwydwaith ffyrdd sirol. Mae'r adran hon yn nodi'r gweithdrefnau a ddefnyddir gan y Cyngor wrth gynllunio a chyflawni'r holl waith a swyddogaethau sy'n gysylltiedig â rheoli, gweithredu, cynnal a chadw a gwella asedau priffyrdd, gan gynnwys sut y caiff y gweithgareddau eu monitro i sicrhau cydymffurfiaeth â pholisïau'r Cyngor.

**13.3 Gofynion Cyfreithiol**

**13.4** Fel yr Awdurdod Priffyrdd mae gan y Cyngor ddyletswydd i fodloni gofynion y ddeddfwriaeth ganlynol:

**Deddf Priffyrdd 1980:** Mae hon yn gosod dyletswydd ar Awdurdodau Priffyrdd i gynnal a chadw priffyrdd wedi'u mabwysiadu fel rhai y gellir eu cynnal ar draul y cyhoedd, a'u cadw'n ddiogel at ddefnydd y cyhoedd. Darperir cymalau pwysig ynghylch gwaith cynnal a chadw mawr yn Atodiad A. Yn arbennig, mae Adran 41 yn gosod dyletswydd i gynnal a chadw priffyrdd y gellir eu cynnal ar draul y cyhoedd. Nid oes diffiniad yn y Ddeddf o ran lefel y gwaith cynnal a chadw sy'n ofynnol er bod codau cenedlaethol wedi cael eu cynhyrchu i gynnig rhywfaint o arweiniad. Mae'r ddogfen, "Cod Ymarfer: Seilwaith Priffyrdd wedi'i Reoli'n Dda (Hydref 2016)" a gynhyrchwyd gan y Grŵp Cyswllt Ffyrdd, yn gwneud argymhellion ar gyfer arolygon ac archwiliadau o'r rhwydwaith priffyrdd mabwysiedig, ac eithrio lle mae cyfyngiadau neu alwadau lleol wedi gwneud datrysiadau lleol yn ofynnol.

**Deddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991:** Mae hon yn gosod dyletswydd ar Awdurdodau Priffyrdd i gydlynu'r holl waith ar y priffyrdd er mwyn sicrhau diogelwch, lleihau anghyfleustra i ddefnyddwyr priffyrdd, a diogelu'r priffyrdd a'u cyfarpar. Mae'r Ddeddf yn gorchymyn bod rhaid cydlynu gwaith stryd er mwyn amharu cyn lleied â phosibl. Mae hyn yn cynnwys cyfleustodau ac awdurdodau gwahanol yn cynllunio gwaith ar y cyd gan er mwyn osgoi cloddio dro ar ôl tro ar yr un darn o'r ffordd. Mesurau Diogelwch: Rhaid bod mesurau diogelwch cynhwysfawr yn eu lle ar gyfer yr holl waith stryd

**Deddf Rheoli Traffig 2004:** Mae'n gosod dyletswydd ar Awdurdodau Priffyrdd i sicrhau bod traffig yn symud yn hwylus ar eu rhwydwaith ffyrdd a rhwydweithiau awdurdodau cyfagos. Cyflwynwyd y Ddeddf hon i fynd i'r afael â thagfeydd ac amharu ar y rhwydwaith ffyrdd. Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i sicrhau bod traffig yn symud yn rhwydd ac yn gyflym ar eu ffyrdd ac ar ffyrdd awdurdodau cyfagos. Mae'r Ddeddf yn rhoi mwy o offer i gynghorau reoli polisïau parcio, cydlynu gwaith stryd a gorfodi rhai troseddau traffig symudol.

**13.5 Canllawiau Cenedlaethol**

**13.6** Er mwyn cynorthwyo awdurdodau i gyflawni eu dyletswyddau darperir y canllawiau cenedlaethol canlynol. Mae'r dulliau a fabwysiedir yn y llawlyfr hwn yn seiliedig ar gynnwys y canlynol:

- "Cod Ymarfer: Seilwaith Priffyrdd wedi'i Reoli'n Dda, UK Roads Liaison Group, 2016"
- "Ymagwedd Seiliedig ar Risg: Dull", 2018, Cymdeithas Syrfewyr Sirol Cymru, 2018
- "Llawlyfr Cofnodi Diffygion Archwilio Priffyrdd", Cymdeithas Syrfewyr Sirol Cymru, 2018

## 14.0 ROLAU, CYFRIFOLDEBAU A CHYMWYSEDDAU

**14.1** Mae'r rolau, cyfrifoldebau a chymwyseddau sy'n ofynnol gan y rhai sy'n ymwneud â rheoli asedau priffyrdd y Cyngor wedi'u diffinio yn Nhabl 2 isod:

| Rôl | Cyfrifoldeb |
|---|---|
| Cynghorwyr | Cymeradwyo defnyddio'r ddogfen hon fel polisi'r Cyngor. |
| Rheolwr Corfforaethol Gwasanaethau Priffyrdd | Datblygu dulliau ac atebion newydd i faterion amrywiol a chymhleth, gan weithio mewn meysydd newydd a heriol. Mae'r swydd yn ofynnol er mwyn dehongli deddfwriaeth a mentrau polisi cenedlaethol/rhanbarthol gan sicrhau bod ein polisi a'n gweithdrefnau mewnol yn cydymffurfio. Mae hyn yn cynnwys o fewn y gwasanaeth yn ogystal ag yn gorfforaethol, ac mae'n cynnwys adolygiadau sylfaenol o bolisïau a gweithdrefnau presennol. Mae deiliad y swydd hon hefyd yn darparu'r cyswllt allweddol hwnnw â Swyddogion Arweiniol Corfforaethol ac yn gweithio gyda Rheolwyr Corfforaethol eraill i sicrhau bod timau'n cael eu rheoli'n gyson er mwyn bodloni amcanion strategol a chorfforaethol, a bod y rhain yn cael eu cydgysylltu a'u gweithredu'n effeithiol ar draws pob maes gwasanaeth. |
| Rheolwr Gwasanaeth Cynnal a Chadw Priffyrdd | Datblygu'r polisi a'r safonau i'w defnyddio, sicrhau eu bod yn cael eu gweithredu'n effeithiol, monitro'r canlyniadau a chwblhau diweddariad blynyddol. |
| Rheolwr Gwasanaeth Datblygu Priffyrdd | Datblygu'r polisi a'r safonau i'w defnyddio, sicrhau eu gweithrediad effeithiol a bod asedau newydd yn gydnaws â safonau'r gwasanaeth, a darparu'r Adroddiadau Blynyddol ar Statws ac Opsiynau. |
| Archwilwyr Priffyrdd | Cynnal archwiliadau yn unol â pholisi'r Cyngor – Cod Ymarfer ar gyfer Archwiliadau Diogelwch ar Ffyrdd Sirol a'r Ymateb, gan gofnodi'r data priodol i'w fewnbynnu i'r system rheoli asedau. |
| Arweinwyr Gwaith | Blaenoriaethu'r rhaglen gylchol ar gyfer gwaith ataliol ac adweithiol o gywiro diffygion a chyfrannu at y rhaglen wedi'i blaenoriaethu o waith cynnal a chadw cynlluniedig. |
| Gangiau Gwaith | Gwneud gwaith adferol a chylchol yn unol â'r cyfarwyddiadau a chofnodi'r data gofynnol i'w fewnbynnu i'r system rheoli asedau. |
| Contractwyr | Gwneud atgyweiriadau yn unol â'r cyfarwyddiadau ac fel y pennir a chofnodi'r data gofynnol i'w fewnbynnu yn y system rheoli asedau. |

*Tabl 2 – Rolau a Chyfrifoldebau*

### 14.2 Cymwyseddau a Hyfforddiant

**14.3** Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i ddatblygu a hyfforddi staff yn barhaus. Mae'n bwysig sicrhau bod y rhai sy'n gweithredu'r CRhAP yn cael y cyfuniad o

hyfforddiant, sgiliau, profiad a gwybodaeth er mwyn iddynt allu cyflawni'r dasg(tasgau) yn effeithlon, yn effeithiol ac yn ddiogel.

**14.4** Mae'n bwysig bod pawb sy'n ymwneud â'r broses o gynnal a chadw priffyrdd yn deall maint a natur rhwymedigaethau cyfreithiol y Cyngor, fel yr Awdurdod Priffyrdd Lleol, ar gyfer cynnal a chadw priffyrdd, a sut mae'r rhain yn cysylltu â'u cyfrifoldebau penodol, gan gynnwys y gwahaniaeth pwysig rhwng dyletswyddau a phwerau.

**14.5** Deellir felly ar gyfer pob elfen o strategaeth cynnal a chadw'r Cyngor y bydd y rhai sy'n ymwneud â'r broses wedi cael hyfforddiant i'w galluogi i feddu ar y lefel angenrheidiol o gymhwysedd.

**14.6** Bydd y Cyngor yn darparu'r hyfforddiant angenrheidiol trwy ddefnyddio cyrff mewnol ac allanol er mwyn sicrhau y darperir cefnogaeth i gynnal cymhwysedd o'r fath. Ar ôl eu penodi, bydd holl archwilwyr priffyrdd Ceredigion yn cymryd rhan yn y rhaglen sefydlu a hyfforddi fewnol. Dilynir hyn gan hyfforddiant allanol ffurfiol a chymhwyster proffesiynol. Darperir hyfforddiant pellach fel y bo'n briodol i sicrhau datblygiad proffesiynol parhaus.

**14.7** Mae holl archwilwyr priffyrdd Ceredigion wedi'u hyfforddi i safon City and Guilds 6033 – Unedau 301 a 311. Darperir hyfforddiant ychwanegol i sicrhau cydymffurfiaeth â'r cod newydd, gan gynnwys unrhyw gynllun neu achrediad Cymhwysedd Archwilwyr Priffyrdd rhanbarthol neu genedlaethol.

<u>UNED 301: IECHYD A DIOGELWCH</u>

Darparu hyfforddiant iechyd a diogelwch sylfaenol priodol i archwilwyr priffyrdd gan eu dysgu sut i gynnal asesiad risg sylfaenol a'u cynorthwyo i weithio'n ddiogel ar y briffordd.

<u>UNED 311 – ARCHWILIO PRIFFYRDD – TECHNEGOL</u>

Ar gyfer y rhai sy'n cynnal archwiliadau priffyrdd ym mlwyddyn gyntaf eu penodiad ac fel cwrs gloywi defnyddiol i archwilwyr priffyrdd mwy profiadol. Mae'r cwrs yn rhoi gwybodaeth sylfaenol dda ar gyfer pob maes cynnal a chadw ac archwilio priffyrdd y gallent weithio ynddo.

## 15.0 COFNODI COSTAU

**15.1** Mae cost y gweithgareddau sy'n ofynnol i gynnal a chadw priffyrdd yn cael eu cofnodi er mwyn gallu eu monitro a'u rheoli. Mae'r codio a ddefnyddir i gofnodi costau i'w weld isod yn Nhabl 3.

**15.2** Dyrennir costau cynnal a chadw priffyrdd i un o'r categorïau canlynol:

| **Categori Cost** | **Gweithgaredd** |
|---|---|
| Cynnal a Chadw Cynlluniedig – Ataliol | Gweithgareddau cynnal a chadw cynlluniedig sy'n ceisio sicrhau na fydd angen gwneud atgyweiriadau drutach yn y dyfodol. |
| Cynnal a Chadw Cynlluniedig – Cywirol | Gweithgareddau cynnal a chadw cynlluniedig sy'n cywiro cyflwr yr ased ac na fyddai'n costio llawer mwy pe byddai oedi. |
| Cynnal a Chadw Cylchol Rheolaidd | Gwaith wedi'i drefnu sy'n cynnwys gweithgareddau ataliol ar sail cyfnod amser penodedig. |
| Rheolaidd – Cynnal a Chadw Adweithiol (Brys) | Atgyweirio adweithiol ar gyfer diffygion diogelwch posibl a nodwyd o archwiliad neu gŵyn gan gwsmeriaid / cais am wasanaeth. |
| Rheolaidd – Cynnal a Chadw Adweithiol (Heb fod yn waith brys) | Mân atgyweiriadau cynnal a chadw eraill llai brys. |
| Rheolaidd – Archwilio ac Arolygu | Cost archwiliadau ac arolygon arbenigol. |
| Costau Gweithredu | Costau gweithredu elfennau o'r ased. |
| Colled | Yr arian a wariwyd sydd i bob pwrpas wedi'i "golli" i'r Cyngor ac nid oes unrhyw fudd i'r ased na'r defnyddiwr. |
| Gwelliannau | Gwaith sy'n ychwanegu seilwaith newydd i'r ased. |

*Tabl 3 – Categorïau Cofnodi Costau*

## 16.0 RHEOLI DATA

### 16.1 Mathau o Ddata

**16.2** Y mathau o ddata sy'n ofynnol er mwyn rheoli asedau priffyrdd yw:

**Stocrestr:** nifer, lleoliad, maint, math, oedran a chyfansoddiad pob ased.

**Cyflwr:** mesur a graddio cyflwr yr ased o brofion neu archwiliad gweledol.

**Archwiliad:** manylion y drefn archwilio, canlyniadau'r archwiliad a'r camau gweithredu.

**Defnydd:** manylion am y defnydd o asedau ar ffurf data, megis cyfrif maint y traffig, llwybrau cerbydau trwm, ac ati.

**Diogelwch:** manylion damweiniau a digwyddiadau sy'n digwydd ar yr ased.

**Cost:** manylion cost yr uned a chyfanswm cost gweithgareddau er mwyn gallu meincnodi costau. Manylion y swm sy'n cael ei wario'n flynyddol i gynnal neu wella'r ased.

**16.3** Defnyddir y data asedau ar gyfer:

- Monitro ac adrodd ar gyflwr cydrannau'r asedau priffyrdd cyfan
- Rhagfynegi ac adrodd ar anghenion ariannu
- Nodi a blaenoriaethu gwaith cynnal a chadw
- Monitro ac adrodd ar berfformiad (dangosyddion perfformiad allweddol)
- Asesiad o gylchred oes cyfan asedau unigol neu gydrannau asedau
- Prisiad asedau a dadansoddiad o gostau dibrisiant
- Gwybodaeth gyhoeddus i ddarparu mwy o dryloywder

### 16.4 Categoreiddio Asedau

**16.5** At ddiben y ddogfen hon ac ar gyfer yr holl adroddiadau rheoli asedau priffyrdd, mae'r Cyngor wedi mabwysiadu'r dull categoreiddio a ddefnyddir yng Nghod Asedau Trafnidiaeth y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) fel y dangosir isod.

| **Lefel 1**<br>**Math o ased** | **Lefel 2**<br>**Grŵp asedau** | **Lefel 3**<br>**Cydrannau y mae lefel 2 yn eu cwmpasu** |
|---|---|---|
| Cerbytffyrdd | Elfennau sy'n seiliedig ar arwyneb (metr sgwâr)<br>• Palmentydd hyblyg<br>• Palmentydd cyfansawdd<br>• Palmentydd concrit anhyblyg<br>• Palmentydd cyfansawdd anhyblyg | • Haenau palmentydd<br>• Mathau eraill o arwynebau, e.e. pafin<br>• Llain ganol, cylchfan, cilfan, ynys draffig, ac ati<br>• Gwrthgloddiau (argloddiau a chloddiadau, uchder waliau cynnal <1.35m)<br>• Gostegu traffig<br>• Rhydau a sarnau |
| | Elfennau llinellog | • Cyrbau<br>• Marciau llinell<br>• Stydiau ffordd<br>• Elfennau draenio priffyrdd (gylïau, draeniau, ac ati, ond nid adeileddau mawr)<br>• Ffensys a gwrychoedd terfyn<br>• Llain galed/ymylon ysgwydd/llystyfiant |
| Troedffyrdd a Ffyrdd Beiciau (wedi'u cysylltu â'r priffyrdd neu ar wahân) | • Troedffyrdd<br>• Ardaloedd i gerddwyr<br>• Ffyrdd beiciau<br>• Llwybrau cyd-ddefnyddio | • Haenau palmentydd<br>• Mathau eraill o arwynebau, e.e. pafin blociau,<br>• Deunyddiau heb eu rhwymo |

| **Lefel 1**<br>**Math o ased** | **Lefel 2**<br>**Grŵp asedau** | **Lefel 3**<br>**Cydrannau y mae lefel 2 yn eu cwmpasu** |
|---|---|---|
| Adeileddau | • Pontydd (rhychwant >1.5m)<br>• Arwydd priffordd cantilifer<br>• Siambr/seler/claddgell<br>• Cylfatiau (diamedr/rhychwant >0.9m)<br>• Colofnau goleuo mast uchel (uchder >20m)<br>• Waliau cynnal (uchder >1.35m)<br>• Gantrïau arwyddion/signalau ac arwyddion priffyrdd cantilifer<br>• Gwrthgloddiau adeileddol, e.e. priddoedd wedi'u cryfhau/hatgyfnerthu (pob adeiledd ag uchder a ddargedwir gwirioneddol o 1.5m neu fwy)<br>• Isffordd: pibell<br>• Twnnel (hyd caeedig o 150m neu fwy)<br>• Tanffordd/isffordd: cerddwyr (rhychwant o 1.5m neu fwy)<br>• Tanffordd: cerbydau<br>• Adeiledd arbennig | Mae'r holl elfennau a nodir ar y pro fforma archwilio CSS ar gyfer adeileddau cludo dŵr llai yn cael eu hystyried yn ddraeniau priffyrdd |
| Goleuadau Priffyrdd | • Colofnau goleuo<br>• Uned oleuo ynghlwm wrth wal/ polyn pren<br>• Colofnau treftadaeth<br>• Bolardiau wedi'u goleuo<br>• Arwyddion traffig wedi'u goleuo | • Colofn a sylfeini<br>• Braced<br>• Unedau goleuo<br>• Offer rheoli, ceblau<br>• Gêr rheoli, switsys, ceblau gwifrau mewnol (yn ein perchnogaeth) |

| Lefel 1<br>Math o ased | Lefel 2<br>Grŵp asedau | Lefel 3<br>Cydrannau y mae lefel 2 yn eu cwmpasu |
|---|---|---|
| Dodrefn stryd | • Trafnidiaeth<br>• Priffyrdd<br>• Amwynder | • Arwyddion traffig (heb eu goleuo)<br>• Ffensys diogelwch<br>• Rhwystrau i gerddwyr<br>• Platiau enwau strydoedd<br>• Biniau<br>• Bolardiau<br>• Cysgodfannau bysiau<br>• Biniau graean<br>• Gridiau gwartheg<br>• Gatiau<br>• Coed/gwarchod coed, ac ati<br>• Seddi<br>• Pyst marcio ymylon<br>• Gorsafoedd tywydd |
| Systemau rheoli traffig | • Signalau traffig<br>• Signalau cerddwyr<br>• Croesfannau sebra | Gwahanol fathau gan gynnwys dolenni |
| | Cownteri Traffig/Cerddwyr/Beiciau | Gosodiad cyflawn gan gynnwys dolenni |
| | • Systemau gwybodaeth<br>• Camerâu diogelwch | • Arwyddion neges amrywiol<br>• Arwyddion a weithredir gan gerbydau<br>• Gwybodaeth amser real i deithwyr |
| Tir | • Tir rhydd-ddaliol<br>• Hawliau tir | Nid yw nodweddion ar y tir yn cael eu hystyried yn y prisiad |

**16.6 Storio Data**

**16.7** Cedwir data ar gyfer pob ased yn electronig ar y systemau meddalwedd amrywiol a ddangosir yn Nhabl 4 isod:

**16.8** Ar hyn o bryd mae Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol Cyngor Sir Ceredigion yn defnyddio Symology Insight Infrastructure Asset Management System ar gyfer yr holl asedau. Defnyddir nifer o systemau meddalwedd eraill ar gyfer swyddogaethau arbenigol.

*Tabl 4 – Systemau Meddalwedd*

<table>
<tr><th colspan="2">Mathau o Wybodaeth Asedau</th><th>Cerbytffyrdd</th><th>Troedffyrdd a Ffyrdd Beiciau</th><th>Adeileddau</th><th>Goleuadau Stryd</th><th>Draeniad</th><th>Dodrefn Stryd</th><th>Rheoli Traffig</th></tr>
<tr><td>1</td><td>Cofrestr asedau</td><td rowspan="6">Symology Insight Infrastructure Asset Management Systems<br><br>WDM</td><td rowspan="6">Symology Insight Infrastructure Asset Management Systems<br><br>WDM</td><td rowspan="6">Symology Insight Infrastructure Asset Management Systems</td><td rowspan="6">Symology Insight Infrastructure Asset Management Systems</td><td rowspan="6">Symology Insight Infrastructure Asset Management Systems</td><td rowspan="6">Symology Insight Infrastructure Asset Management Systems</td><td rowspan="6">Sentient (VAS)</td></tr>
<tr><td>2</td><td>Archwiliadau diogelwch</td></tr>
<tr><td>3</td><td>Arolwg cyflwr</td></tr>
<tr><td>4</td><td>Cynnal a chadw adweithiol</td></tr>
<tr><td>5</td><td>Cynnal a chadw cylchol</td></tr>
<tr><td>6</td><td>Cynnal a chadw cynlluniedig</td></tr>
</table>

| Mathau o Wybodaeth Asedau | | Cerbytffyrdd | Troedffyrdd a Ffyrdd Beiciau | Adeileddau | Goleuadau Stryd | Draeniad | Dodrefn Stryd | Rheoli Traffig |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 7 | Gwaith stryd | | | | | | | |
| 8 | Rhestr strydoedd | | | | | | | |
| 9 | Dadansoddiad damweiniau | AccsMAP | Amherthnasol | | | | | |
| 10 | Data traffig | MetroCount Compass | Drakewell C2-Cloud | Amherthnasol | | | | |
| 11 | Cysylltiadau cwsmeriaid | Symology Insight Infrastructure Asset Management Systems<br>Clic (System Cyswllt Cwsmeriaid Corfforaethol) | | | | | | |
| 12 | Hawliadau trydydd parti | | | | | | | |
| 13 | Cyllid adrannol | Civica Financials | | | | | | |

*Tabl 4 – Systemau Meddalwedd*

**16.9 Rheoli Data**

**16.10** Mae'n hanfodol ein bod yn gwybod ansawdd y data asedau sydd gennym a bod mesurau priodol yn cael eu cymryd i gynnal y data a chasglu unrhyw ddata pwysig nad yw'n cael ei gadw ar hyn o bryd.

**16.11** Mae'r cyfrifoldeb am reoli'r data sy'n ymwneud â phob grŵp asedau wedi'i neilltuo i'r rolau swyddogion a nodir isod:

| Grŵp Asedau | Y Swyddog sy'n Gyfrifol am Ddata Asedau |
|---|---|
| Cerbytffyrdd | Rheolwr Gwasanaeth (Datblygu Priffyrdd)<br>Rheolwr Asedau a Dylunio |
| Troedffyrdd, Troedffyrdd a Llwybrau Beiciau | Rheolwr Gwasanaeth (Datblygu Priffyrdd)<br>Rheolwr Asedau a Dylunio |
| Draenio | Rheolwr Gwasanaeth (Datblygu Priffyrdd)<br>Rheolwr Asedau a Dylunio |
| Adeileddau | Rheolwr Gwasanaeth (Datblygu Priffyrdd)<br>Rheolwr Asedau a Dylunio |
| Goleuadau Stryd | Rheolwr Gwasanaeth (Datblygu Priffyrdd)<br>Rheolwr Asedau a Dylunio<br>Peiriannydd Goleuadau Stryd |
| Goleuadau Traffig | Rheolwr Gwasanaeth (Datblygu Priffyrdd)<br>Rheolwr Asedau a Dylunio<br>Peiriannydd Goleuadau Stryd |
| Arwyddion heb eu goleuo | Rheolwr Gwasanaeth (Datblygu Priffyrdd)<br>Rheolwr Strategaeth a Diogelwch Trafnidiaeth<br>Uwch Beiriannydd Traffig |
| Dodrefn Stryd | Rheolwr Gwasanaeth (Datblygu Priffyrdd)<br>Rheolwr Asedau a Dylunio |
| Ymylon a Mannau wedi'u Plannu | Rheolwr Gwasanaeth (Datblygu Priffyrdd)<br>Rheolwr Asedau a Dylunio |

DRAFT

**16.12** Cyfrifoldeb y swyddog yn y rôl a ddangosir uchod yw sicrhau bod data sy'n ymwneud â'r grŵp asedau y mae'n gyfrifol amdano yn cael ei ddiweddaru, ei wirio, ei ddilysu a'i adolygu fel y dangosir yn yr adrannau canlynol, a bod unrhyw gamau gweithredu sy'n ofynnol i wella data yn cael eu hadrodd i'r Rheolwr Gwasanaeth (Datblygu Priffyrdd) a'r Rheolwr Asedau a Dylunio.

**16.13** Y Rheolwr Gwasanaeth (Datblygu Priffyrdd) (neu rywun a benodwyd yn benodol i ymgymryd â'r rôl) sydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol am ansawdd data asedau priffyrdd.

**16.14** Mae'r gofynion data craidd ar gyfer pob un o'r grwpiau asedau wedi'u nodi gan brosiect CRhAP Ceredigion 2025-2030, a gellir eu gweld yn nhaflen asesu data Tasg 2 CRhAP Ceredigion 2025-2030.

**16.15 Diweddaru**

**16.16** Dylid diweddaru data asedau yn dilyn newidiadau i'r ased fel y dangosir yn Nhabl 5 isod:

| Math | Amseru |
|---|---|
| Asedau Newydd – Adeiladwyd gan y Cyngor | O fewn mis i'w trosglwyddo |
| Asedau Newydd – Cymryd cyfrifoldeb | O fewn mis i'w trosglwyddo |
| Gwaith cynnal a chadw mawr e.e. ailosod wyneb y ffordd, adnewyddu asedau | Pob Grŵp Asedau – o fewn mis i'w gwblhau |
| Gwaredu | O fewn tri mis i gadarnhad gorchymyn cau/gwaredu |

*Tabl 5 – Amlder Diweddaru'r Stocrestr*

**16.17 Gwirio Data**

**16.18** Bydd unrhyw ddata asedau newydd neu ddata wedi'i ddiweddaru sydd wedi cael ei ddal yn cael ei wirio cyn ei gofnodi yn y feddalwedd/cronfa ddata briodol.

**16.19** Dylid gwirio trwy archwiliadau maes er mwyn i 100% o unrhyw ddata newydd (a ddarperir gan ffynhonnell allanol) gael ei ychwanegu at unrhyw system rheoli asedau.

**16.20** Os yw'r archwiliad gwirio yn nodi cywirdeb o lai na 90%, bydd y data'n cael ei ddychwelyd i'r darparwr a bydd yn ofynnol iddo ddiweddaru ac ailgyflwyno ei ddata heb unrhyw gost i'r Cyngor.

**16.21** Os yw'r archwiliad gwirio yn nodi 90% neu fwy o gywirdeb, caiff y data ei fewnbynnu i'r system rheoli asedau berthnasol, a chaiff yr holl anghysondebau a nodwyd eu cywiro.

**16.22** Bydd unrhyw ddata a ailgyflwynir yn destun yr un gwiriadau â'r data gwreiddiol.

DRAFT

**16.23 Dilysu Data**

**16.24** Er mwyn dilysu data a gedwir yn y meddalwedd cronfeydd data/asedau priffyrdd efallai y bydd angen cynnal arolygon dilysu sampl o bryd i'w gilydd ar gyfer yr holl asedau.

**16.25** Bydd arolwg dilysu yn cymharu'r data a gedwir o fewn y feddalwedd/cronfa ddata berthnasol ag archwiliad safle. Bydd safleoedd yn cael eu dewis ar hap i gyrraedd targed o 5%; os yw'r cywirdeb yn 90% neu'n uwch, ni fydd angen cymryd unrhyw gamau pellach.

**16.26** Os yw'r cywirdeb yn is na 90%, dylid adrodd i'r Rheolwr Gwasanaeth, Cynnal a Chadw Priffyrdd a bydd ymchwiliad yn cael ei gynnal i ganfod unrhyw dueddiadau o ran priodoleddau data penodol sy'n anghywir a hanes y data. Bydd yr ymchwiliad yn nodi a yw'r un gwallau yn effeithio ar weddill y data.

**16.27** Os canfyddir bod y data anghywir yn fwy na digwyddiad unigol, bydd y Rheolwr Gwasanaeth (Datblygu Priffyrdd) yn trefnu arolwg eang o'r ased er mwyn cywiro'r data gwallus.

DRAFT

## 17.0 ASESU A GWELLA DATA

### 17.1 Adolygiad Data Blynyddol

**17.2** Cynhelir adolygiad o'r data yn flynyddol. Caiff yr adolygiad ei lywio gan ganlyniadau arolygon dilysu data ac mae'n defnyddio'r taenlenni a gynhyrchir o dan brosiect CRhAP Cymdeithas Syrfewyr Sirol Cymru er mwyn gallu cynnal gwerthusiad o'r data a gedwir. Mae'r dull hwn yn defnyddio set ddata graidd a argymhellir gan Gymdeithas Syrfewyr Sirol Cymru fel y data lleiaf y dylai awdurdodau ei gadw ar gyfer pob grŵp asedau, a dull o asesu maint a dibynadwyedd y data a gedwir. Mae hyn yn arwain at gyfradd hyder ar gyfer pob eitem data.

**17.3** Defnyddir yr adolygiad i nodi diffygion data er mwyn gallu cynllunio camau i wella ansawdd y data a gedwir.

**17.4** Adroddir ar ganlyniadau'r adolygiad data diweddaraf yn Nhabl 6 isod, fesul grŵp asedau, gan fanylu ar unrhyw ddiffygion data a'r camau gweithredu arfaethedig ar gyfer eu gwella. Mae'r holl gamau gwella a ymgymerir yn cael eu hadrodd yn flynyddol yn yr Adroddiad Blynyddol ar Statws ac Opsiynau.

*Tabl 6 – Cofrestr Gwella Data Asedau*

| Ansawdd y Data a Gasglwyd | Cam Gweithredu Gwella Data | Dyddiad |
|---|---|---|
| **Data Cerbytffyrdd** | | |
| Nid oes unrhyw ddata cyflwr gweledol ar gyfer cerbytffyrdd a fyddai'n ddefnyddiol i gadarnhau canlyniadau'r arolwg cyflwr seiliedig ar beiriant. | Bydd yr holl ddiffygion diogelwch a gesglir gan yr Archwiliwr Diogelwch Priffyrdd yn cael eu dadansoddi a'u rhoi yn y gronfa ddata i gynorthwyo gyda blaenoriaethu cyflwr y cerbytffyrdd. | 2025/26 |
| Mae gan 100% o'r cerbytffyrdd ddata cyflwr seiliedig ar beiriant. | Adolygu cylch casglu cyflwr data i'w gysoni â'r Cod Ymarfer diwygiedig ar gyfer Archwiliadau Diogelwch Priffyrdd (2021). | 2025-27 |
| Ni chesglir data cyflwr seiliedig ar beiriant ar gyfer ffyrdd diddosbarth ar amlder penodol a allai fod yn effeithio ar y cynlluniau arfaethedig a nodir gan y broses flaenoriaethu. | Sicrhau bod ffyrdd diddosbarth i gyd yn cael eu harolygu gan beiriant o fewn cyfnod o ddim mwy na 5 mlynedd. Nid yw ffyrdd diddosbarth yn dirywio mor gyflym â ffyrdd dosbarthiadol, a chredir y bydd arolwg bob 5 mlynedd yn darparu gwybodaeth gywir ar gyfer y broses flaenoriaethu. Caiff yr amlder hwn ei fonitro. | 2030/31 |

DRAFT

| Ansawdd y Data a Gasglwyd | Cam Gweithredu Gwella Data | Dyddiad |
|---|---|---|
| Nid oes gan y rhan fwyaf o arwynebau cerbytffyrdd oedran wedi'i gofnodi yn y System Rheoli Asedau. Mae gwybodaeth o'r wybodaeth hon yn galluogi gwneud penderfyniadau gwell ynghylch cynnal a chadw'r arwyneb presennol. | Bydd dyddiad trin arwynebau yr holl gerbytffyrdd yn cael ei gynnwys yn y System Rheoli Asedau. | 2030/31 |
| **Data Troedffyrdd a Ffyrdd Beiciau** | | |
| Dim cofnodion ar gyfer 20% o'r troedffyrdd. Mae'r troedffyrdd hyn wedi'u lleoli yn yr amgylchedd gwledig. | Nodi lleoliadau troedffyrdd heb unrhyw gofnodion<br>Cynnal arolwg gan gasglu cyfeirnod geo-ofodol, hyd, lled, math o ddeunydd a sgôr cyflwr gweledol.<br>Rhoi gwybodaeth yn y gronfa ddata. | 2030/31 |
| Ni chytunwyd eto ar hierarchaeth troedffyrdd/ffyrdd beiciau llawn sy'n addas ar gyfer Cyngor Sir Ceredigion (yn ymwneud â hierarchaeth cerbytffyrdd ar hyn o bryd). | Cadarnhau bod hierarchaeth canllawiau Cod Ymarfer Cymdeithas Syrfewyr Sirol Cymru yn bodloni anghenion Cyngor Sir Ceredigion.<br>Cynnal ymarfer i ddyrannu hierarchaeth i bob rhan o'r droedffordd.<br>Rhoi gwybodaeth yn y gronfa ddata. | 2030/31 |
| Mae'n ymddangos bod y wybodaeth am gyflwr gweledol y troedffyrdd a gynhaliwyd gan FNS yn rhoi lefel anghywir (rhy uchel) o droedffyrdd gwael. | Ystyried a gweithredu sgôr cyflwr gweledol newydd.<br>Gweithdrefn casglu data cyflwr wedi'i flaenoriaethu ar sail risg i'w rhoi ar waith. | 2030/31 |
| **Data Goleuadau Stryd** | | |
| Nid yw manylion ynghylch lleoliad ac oedran yr holl geblau ar gael. | Cofnodi manylion llawn yr holl ceblau newydd / gwaith cynnal a chadw a wnaed a'u rhoi yn Symology. | Parhaus |
| **Data Adeileddau** | | |

DRAFT


| | | |
|---|---|---|
| Ar hyn o bryd mae data waliau cynnal yn cael ei gadw ar daenlen Excel ac amcangyfrifir bod 70% o'r asedau wedi'u cynnwys. | Nodi waliau cynnal coll trwy gynnal arolwg safle (blaenoriaethu ffyrdd dosbarthiadol yn gyntaf).<br>Rhoi'r holl wybodaeth data waliau cynnal yn Symology. | 2030/31<br>2030/31 |

| Ansawdd y Data a Gasglwyd | Cam Gweithredu Gwella Data | Dyddiad |
|---|---|---|
| Manylion lleoliad, oedran, cyflwr a chofnodion archwilio rhai asedau adeileddol ar goll o'r gronfa ddata adeileddau. | Nodi adeileddau coll trwy gynnal arolwg safle i greu stocrestr asedau. | 2030/31 |
| **Draenio** | | |
| Ar hyn o bryd mae cofnodion glanhau gylïau yn cael eu storio ar ffurf copi caled mewn ffolder yn y swyddfa. Byddai'r wybodaeth hon yn haws ei chyrchu a'i rheoli pe bai wedi'i lleoli mewn system rheoli asedau y gall yr holl staff ei chyrchu. | Cynnwys cam yn y broses glanhau gylïau i roi'r cofnodion glanhau gylïau yn y system rheoli asedau. | 2030/31 |
| Rhestr o gylïau sydd wedi'u blocio a phroblemus wedi'u storio mewn dogfen Microsoft Word ar y gweinydd. Byddai'r wybodaeth hon yn haws ei chyrchu a'i rheoli pe bai wedi'i lleoli yn y system rheoli asedau. | Rhoi manylion am gylïau problemus yn y system rheoli asedau. | 2030/31 |
| Mae'r wybodaeth stocrestr asedau draenio a gedwir yn wael. Mae'r data hwn yn hanfodol i gynllunio ar gyfer ailosod asedau a lleihau'r risg diogelwch os ydynt yn diffygiol. | • Gweithredu system sy'n ei gwneud yn ofynnol i holl staff Priffyrdd ar y safle yn ystod eu dyletswyddau o ddydd i ddydd nodi a chofnodi lleoliad a math o ddata (fan lleiaf) yn electronig i'w storio yn Symology.<br>• Gwybodaeth am ddraenio adeiledig i'w lanlwytho i Symology.<br>• Lanlwytho'r data presennol i Symology. | 2030/31 |

DRAFT

## 18.0 CYFROL 3 – CYNLLUN CYNNAL A CHADW PRIFFYRDD

**18.1** Y berthynas â Chynlluniau a Strategaethau eraill y Cyngor




DRAFT

### 18.2 Datblygu'r Cynllun

**18.3** Mae'r cynllun hwn wedi cael ei ddatblygu yn unol ag arferion cynllunio rheoli asedau priffyrdd a argymhellir gan Gymdeithas Syrfewyr Sirol (Cymru), a chynlluniau a strategaethau'r Cyngor.

**18.4** Mae'r cynllun yn gyson â dull rheoli asedau corfforaethol y Cyngor.

**18.5** Bydd safonau, targedau a thybiaethau gwariant yn y CRhAP hwn yn cael eu monitro a bydd adroddiad statws blynyddol yn cael ei gynhyrchu.

**18.6** Bydd yr adroddiad yn cyflwyno crynodeb o asedau'r Cyngor yn flynyddol ac yn darparu gwybodaeth i sicrhau y gellir gwneud dewisiadau gwybodus ynghylch lefelau buddsoddi yn y dyfodol.

## 19.0 ASEDAU PRIFFYRDD

**19.1** Mae'r ased priffyrdd yn cynnwys **cerbytffyrdd** (ffyrdd), **troedffyrdd/ffyrdd beiciau, pontydd/adeileddau, goleuadau stryd**, goleuadau traffig a dodrefn stryd. Dangosir eu niferoedd yn Nhabl 7 isod ac fe'u cwmpasir yn y cynllun hwn:

| Ased | Nifer |
|---|---|
| Cerbytffyrdd | 2,153km |
| Troedffyrdd, ffyrdd beiciau a llwybrau cyd-ddefnyddio | 220km* |
| Pontydd | 834 |
| Tanffyrdd | 1 |
| Waliau cynnal | 159* |
| Goleuadau stryd | 6,813 |
| Arwyddion a bolardiau wedi'u goleuo | 844 |
| Croesfannau cerddwyr â goleuadau traffig | 7 |
| Cyffyrdd â goleuadau traffig | 1 |
| Gylïau draenio | 45,000* |
| Eitemau o ddodrefn stryd | 30,000* |

*wedi'i gymryd o arolygon wedi'u cofnodi neu eu hamcangyfrif

*Tabl 7 – Eitemau Asedau Priffyrdd*

**19.2** **Gwaharddiadau** – Nid yw'r cynllun yn cwmpasu asedau sy'n gyfrifoldeb gwasanaethau neu awdurdodau eraill o fewn neu'r tu allan i'r Cyngor. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Cefnffyrdd
- Hawliau Tramwy Cyhoeddus
- Meysydd Parcio
- Asedau Draenio Tir
- Cerbytffyrdd / troedffyrdd heb eu mabwysiadu
- Asedau priffyrdd y Cyngor heb eu mabwysiadu (ystad gorfforaethol)
- Amddiffynfeydd arfordirol
- Camerâu cyflymder/teledu cylch cyfyng/ANPR

DRAFT

- Asedau cymunedol neu a drosglwyddwyd
- Adeileddau/adeiladau corfforaethol heb eu mabwysiadu
- Cysgodfannau bysiau (cymunedol a chenedlaethol)
- Goleuadau addurnol neu dymhorol


**19.3** **Cywirdeb Data –** Mae data asedau ar gyfer rhai asedau yn gyfyngedig ar hyn o bryd. Defnyddiwyd arolygon sampl ac amcangyfrifon lleol er mwyn eu cynnwys yn y cynllun hwn. I sicrhau bod cynlluniau'r dyfodol yn seiliedig ar wybodaeth well, mae Cynllun Gwella Data wedi cael ei greu i gefnogi'r cynllun hwn (gweler Cyfrol 2).

DRAFFT

**20.0 DISGWYLIADAU CWSMERIAID**

**20.1** Seiliwyd y cynllun hwn ar adolygiad o ddisgwyliadau cwsmeriaid a galwadau allanol ar y Gwasanaeth Priffyrdd.

**20.2** Mae cyswllt cwsmeriaid mewn perthynas ag asedau priffyrdd yn cael ei gofnodi ar system rheoli cwsmeriaid corfforaethol y Cyngor, CLIC. Mae system rheoli asedau Symology (Insight) wedi cael ei datblygu i weithio ochr yn ochr â CLIC i reoli ceisiadau a galwadau penodol y Gwasanaeth Priffyrdd.




**20.3** **Twf Asedau** – Dros y 5 mlynedd diwethaf mae 2 km o gerbytffyrdd newydd ac 8 km o droedffyrdd neu ffyrdd beiciau newydd wedi cael eu creu a'u hychwanegu at yr ased. Mae'r asedau ychwanegol hyn yn creu angen am archwilio, rheoli gwaith cynnal a chadw a chyllid cysylltiedig yn y dyfodol wrth iddynt heneiddio.

**20.4** **Tywydd** – Mae'r cynllun hwn yn seiliedig ar dywydd cyfartalog dros y gaeaf. Os, fel sydd wedi digwydd yn ddiweddar, y ceir gaeaf anarferol o galed bydd angen dargyfeirio cyllid i ddarparu'r Gwasanaeth Dros y Gaeaf, a gellir disgwyl y bydd difrod ychwanegol i wynebau ffyrdd, a bydd angen i'r Cyngor atgyweirio llawer mwy o dyllau.

**20.5** **Llifogydd** – Mae rhai ardaloedd yn dueddol o ddioddef llifogydd a all niweidio'r ffordd. Pan fydd llifogydd yn digwydd, caiff adnoddau eu defnyddio i ymateb. Mewn sefyllfaoedd eithafol gall hyn olygu clirio tirlithriadau neu atgyweirio rhannau o'r ffyrdd sydd wedi'u herydu gan lifogydd. Gall digwyddiadau o'r fath, os byddant yn codi, amharu ar y gallu i gyrraedd y targedau yn y cynllun hwn oni bai bod adnoddau (a chyllid) ychwanegol ar gael. Bydd yr ased pontydd/adeileddau yn arbennig o agored i niwed gan lifogydd. Mae llifogydd a thywydd eithafol yn fwy cyffredin erbyn hyn.

DRAFT

## 21.0 RHEOLI RISG

**21.1** Mae'r risgiau sy'n gysylltiedig â chynnal a chadw'r priffyrdd yn cael eu rheoli trwy ddefnyddio'r dulliau a ddisgrifir isod. Mae hyn yn cynnwys sut mae'r dulliau'n cydymffurfio â'r dull seiliedig ar risg sy'n ofynnol gan y Cod Ymarfer.

**21.2** Cyhoeddwyd Cod Ymarfer diwygiedig ar gyfer Priffyrdd "Seilwaith Priffyrdd wedi'i Reoli'n Dda" ym mis Hydref 2016, gan roi canllawiau y disgwylir i awdurdodau eu dilyn ac y gallant ddibynnu arnynt wrth amddiffyn eu hunain yn erbyn hawliadau trydydd parti.

**21.3** Y newid mwyaf arwyddocaol i'r canllawiau blaenorol, a gynigiwyd gan y Cod Ymarfer newydd, yw'r pwyslais cynyddol ar ddull sy'n seiliedig ar risg a llai o bwyslais ar ganllawiau rhagnodol ar gyfer pob penderfyniad a wneir gan bob Cyngor yn unigol.

**21.4** Mae Cymdeithas Syrfewyr Sirol Cymru wedi datblygu dull mewn ymateb i'r Cod Ymarfer y mae'n argymell i awdurdodau ei fabwysiadu fel safon ofynnol. Mae Ceredigion wedi mabwysiadu Cod Ymarfer Cymdeithas Syrfewyr Sirol Cymru hwn ynghyd â safonau a gymeradwywyd yn lleol er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r canllawiau newydd a bod asedau priffyrdd yn cael eu cynnal a'u cadw'n effeithiol.

**21.5** Mae'r dull yn cynnwys datblygu Hierarchaeth yn seiliedig i raddau ar faint o draffig (defnydd), y drefn archwilio ac ymateb i ddiffygion ar gyfer asedau priffyrdd, ynghyd â safonau gofynnol a argymhellir ar gyfer archwilio ac atgyweirio diffygion.

**21.6** Mabwysiadodd Cyngor Sir Ceredigion y dull seiliedig ar risg ar gyfer Archwiliadau Diogelwch ar Ffyrdd Sirol a'r Ymateb yn 2021.

DRAFT

## 22.0 CAFFAEL

**22.1** Mae gwaith sy'n gysylltiedig ag asedau priffyrdd yn cael ei gaffael trwy ddefnyddio cyfuniad o adnoddau mewnol ac allanol. Mae'r holl adnoddau allanol yn cael eu caffael yn unol â'r rheolau gweithdrefn contract corfforaethol cyfredol i sicrhau cydymffurfiaeth â Rheoliadau Caffael (Cymru) 2024.

**22.2** Mae cynnal a chadw asedau priffyrdd o ddydd i ddydd yn cael ei wneud yn bennaf gan adnoddau mewnol y Cyngor. Lle mae angen sgiliau arbenigol, cyflogir contractwyr allanol trwy fframweithiau contract y mae'r Cyngor yn rhan ohonynt. Dangosir manylion ynghylch sut y darperir y gwasanaeth ar gyfer pob ased yn Nhabl 8 isod.

| Ased | Math o Waith | Mewnol neu Gontractwr | Manylion y Contract |
|---|---|---|---|
| Cerbytffyrdd | Rheolaidd ac Adweithiol | Gweithlu Mewnol | Amherthnasol |
| | Cynlluniedig | Ailosod wyneb y ffordd – Contractwr | Contractau Blynyddol neu Gontractau yn ôl y Gofyn |
| | | Haen wyneb – Gweithlu Mewnol | Contract Blynyddol |
| Troedffyrdd a Ffyrdd Beiciau | Rheolaidd ac Adweithiol | Gweithlu Mewnol | Amherthnasol |
| | Cynlluniedig | Ailadeiladu – Contractwr | Contract Safle Penodol |
| | | Ailosod wyneb y ffordd – Contractwr | Contractau Blynyddol neu Gontractau yn ôl y Gofyn |
| | | Sêl slyri – Contractwr | Contract Blynyddol |
| Goleuadau Stryd | Rheolaidd ac Adweithiol | Contractwr | Contract Cyfnod Sefydlog |
| | Cynlluniedig | Colofn (Newydd / Newid) – Contractwr | Contract Cyfnod Sefydlog |
| | | Uned oleuo (Newydd / Newid) – Contractwr | Contract Cyfnod Sefydlog |

DRAFT

| Ased | Math o Waith | Mewnol neu Gontractwr | Manylion y Contract |
|---|---|---|---|
| Pontydd ac Adeileddau Priffyrdd | Rheolaidd ac Adweithiol | Gweithlu Mewnol a Chontractwr | Contract Cyfnod Sefydlog |
| | Cynlluniedig | Contractwr | Contract Safle Penodol |
| Goleuadau Traffig | Rheolaidd ac Adweithiol | Contractwr | Contract Cyfnod Sefydlog |
| | Cynlluniedig | Contractwr | Contract Cyfnod Sefydlog |
| Dodrefn Stryd | Rheolaidd ac Adweithiol | Gweithlu Mewnol | Amherthnasol |

*Tabl 8 – Contractau Gwaith Asedau*

**22.3** Bydd gwaith/contractau yn cael eu caffael trwy ddefnyddio'r canlynol;

- Fframwaith Contractwyr Peirianneg Sifil Rhanbarthol De-orllewin Cymru
- Fframwaith System Gaffael Ddeinamig y Cyngor
- Contractau fframwaith cyfnod sefydlog y Cyngor
- Contractau fframweithiau tymor eraill y Cyngor sydd ar gael i'r Cyngor eu defnyddio
- Contractau fframwaith cyfnod sefydlog Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru
- Contractau fframwaith Llywodraeth Cymru

**22.4** Mae'r rhain yn cynnwys meini prawf monitro perfformiad sy'n cynnig dull i'r Cyngor adolygu'r contractau y gellir ei ddefnyddio i wella contractau yn y dyfodol.

DRAFT

## 23.0 GWEITHGAREDD YMGYMERWYR STATUDOL

**23.1** Mae gwaith trydydd parti yn effeithio ar gyflwr y priffyrdd a'u rheolaeth. Mae rheolaeth o'r gweithgareddau trydydd parti hyn yn cael ei llywodraethu gan ddeddfwriaeth, sef;

- Deddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991; a
- Deddf Rheoli Traffig 2004

**23.2** Mae holl weithgaredd ymgymerwyr statudol a gyflawnir ar rwydwaith priffyrdd y Cyngor yn cael ei gydlynu gan y **Tîm Gwaith Stryd** a'i gofnodi o fewn y system rheoli asedau Insight. Mae'r Tîm Gwaith Stryd yn sicrhau bod pob ymgymerwr statudol yn cydymffurfio â Deddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 a'r holl ddiwygiadau fel y nodir yn Neddf Rheoli Traffig 2004 er mwyn sicrhau bod yr holl waith a wneir ar y priffyrdd yn cael ei gwblhau i'r safonau gofynnol a'i fod wedi'i raglennu i amharu cyn lleied â phosibl ar aelodau'r cyhoedd.

**23.3** Defnyddir gweithdrefnau manwl ar gyfer gwneud y gwaith hwn gan gynnwys gweithdrefnau ar gyfer:

- **Trwyddedau gwaith stryd**: trwydded y mae'n rhaid i ymgymerwyr statudol wneud cais amdani er mwyn gweithio ar ffyrdd y Cyngor
- **Cofrestr gwaith stryd**: y gofrestr a gedwir gan y Cyngor sy'n cofnodi ble a phryd y mae ymgymerwyr statudol yn gweithio ar y briffordd
- **Hysbysiadau gwaith**: yr hysbysiadau y mae'n rhaid eu cyhoeddi cyn i'r gwaith ddechrau, y dylid eu cyhoeddi gan y sefydliad sy'n gwneud y gwaith (y Cyngor o bosibl)
- **Cyfyngiadau gwaith**: atal gwaith rhag cael ei wneud ar ffyrdd sydd wedi cael wyneb newydd yn ddiweddar am gyfnod o amser ar ôl cwblhau'r gwaith hwnnw
- **Cydlynu gwaith**: cydlynu gwaith mewn trefn briodol ac ar adegau priodol pan fydd angen i fwy nag un sefydliad weithio ar yr un stryd
- **Dynodi strydoedd gwarchodedig**: lle gall y Cyngor neilltuo diogelwch ar strydoedd penodol a ddefnyddir gan ymgymerwyr statudol
- **Safonau adfer**: manyleb y Cyngor ar gyfer y safonau adfer disgwyliedig ar gyfer categorïau ffyrdd gan gynnwys deunyddiau a dyfnderoedd ac ati
- **Cyfarpar y mae gwaith priffyrdd yn effeithio arno**: lle mae'r Cyngor yn hysbysu ymgymerwyr statudol lle mae gwaith ffordd wedi'i gynllunio i sicrhau y gwneir darpariaeth ar gyfer diogelu neu ddargyfeirio cyfarpar presennol ymgymerwyr statudol

**23.4** Mae gwaith ymgymerwyr statudol yn cael effaith sylweddol ar gyflwr y priffyrdd a chanfyddiad defnyddwyr ohonynt. Yn y dyfodol, bydd Adroddiadau Blynyddol ar Statws ac Opsiynau yn cyfeirio at nifer yr agoriadau a wnaed a'r safonau adfer sy'n cael eu cyflawni er mwyn cael darlun cywir o'r cyflwr a gwybod beth sydd wedi achosi'r gwaith.

DRAFT

**23.5** Mae gwaith stryd yn angenrheidiol er mwyn darparu a chynnal gwasanaethau cyfleustodau a thrafnidiaeth ond gall amharu ar ddefnyddwyr ffyrdd. Er mwyn amharu cyn lleied â phosibl, bydd gan ddeiliad y swydd ddisgresiwn/rhyddid i weithredu trwy drafod, cydweithredu a chyfaddawdu gan gynnal a hyrwyddo perthnasoedd gweithio agos â rhanddeiliaid mewnol ac allanol, Aelodau Etholedig, cydweithwyr a sefydliadau allanol o ran amseriad gwaith cyfleustodau o'r fath, sy'n aml yn golygu bod angen cau'r ffordd er mwyn diogelu'r cyhoedd a staff y contractwr. Mae rheoli gwaith stryd yn dylanwadu'n fawr ar sut yr amharir ar y rhwydwaith priffyrdd gan felly sicrhau bod gwasanaethau eraill y Cyngor a'r gwasanaeth hwn yn gweithredu ar adegau pan fydd digwyddiadau allweddol. Er enghraifft, er mwyn rhwystro unrhyw wrthdaro â rhaglenni gwaith cynnal a chadw wedi'u cynllunio ar gyfer priffyrdd, trafnidiaeth bysiau ysgol, trafnidiaeth gyhoeddus, diwrnodau pleidleisio a digwyddiadau eraill sy'n gofyn am ddefnyddio'r 'gofod' priffyrdd, megis digwyddiadau arbennig gan gynnwys Dydd Sadwrn Barlys, Ffeiriau Nadolig, Rali Ceredigion a gweithgareddau eraill pan fydd angen i'r cyhoedd ddefnyddio'r briffordd er mwynhad.

**23.6** Yn 2024-25, cychwynnodd y gwasanaeth ar raglen creidd-samplu adfer cyfleustodau. Mae'n ceisio canfod crefftwaith gwael (yn is na safonau y cytunwyd arnynt) gan gwmnïau cyfleustodau a'u contractwyr. Y nod yw mynd ar ôl y cwmnïau cyfleustodau hyn a'u cael i gywiro eu gwaith er mwyn peidio ag achosi niwed hirdymor pellach i asedau'r Cyngor a'r gost gysylltiedig i'r Cyngor.

**23.7 Hawliadau Trydydd Parti**

**23.8** Gwneir hawliadau trydydd parti yn erbyn y Cyngor pan fydd aelodau'r cyhoedd yn credu bod esgeulustod ar ran y Cyngor wedi arwain at anaf neu ddifrod i eiddo.

**23.9** Mae'r holl hawliadau trydydd parti yn cael eu prosesu gan swyddogion priffyrdd ar hyn o bryd, y rheolwyr gweithredol yn bennaf, a phan fydd angen cânt eu cyfathrebu i dîm yswiriant y Cyngor. Bydd rhyngwyneb yn cael ei ddatblygu rhwng systemau'r tîm yswiriant a'r system rheoli asedau priffyrdd (Insight) er mwyn i swyddogion allu lledaenu'r data hawliadau a gwneud addasiadau i arferion gwaith os oes angen. Bydd cyfleusterau adrodd system Insight yn cael eu datblygu er mwyn i swyddogion yswiriant y Cyngor allu tynnu data mewn modd tryloyw a hwylus.

**23.10** Er mwyn adolygu hawliadau trydydd parti, bydd Rheolwyr Priffyrdd yn gallu rhedeg adroddiadau o system Insight. Mae'r adroddiad yn rhoi manylion am:

- nifer y ceisiadau
- dadansoddiad o'r math o hawliad (anaf personol/difrod i eiddo)
- yr ased y mae'n cyfeirio ato
- manylion penodol yr hawliad
- a oedd yr hawliad yn llwyddiannus neu a gafodd ei wrthod

DRAFT

**23.11** Bydd y Rheolwr Gwasanaeth Cynnal a Chadw Priffyrdd ynghyd â'r Rheolwr Gwasanaeth Datblygu Priffyrdd yn adolygu'r wybodaeth ac yn cynnwys crynodeb o'r data hawliadau yn yr Adroddiadau Blynyddol ar Statws ac Opsiynau.

DRAFFT

## 24.0 SAFONAU GWASANAETH

O dan Adran 41 o Ddeddf Priffyrdd 1980, mae gan y Cyngor fel yr Awdurdod Priffyrdd Lleol ddyletswydd statudol i gynnal a chadw'r priffyrdd, cyn belled ag y bo'n rhesymol, fel eu bod yn ddiogel i'w defnyddio ac yn addas i'r diben ar gyfer y cyhoedd.

**24.1** Mae'r safonau gwasanaeth ar gyfer pob ased wedi'u nodi yn Nhabl 9 isod mewn perthynas â:

| Safon Gwasanaeth | Safonau Perfformiad |
|---|---|
| Diogelwch | • Nifer y digwyddiadau/diffygion sy'n gofyn am ymateb ar unwaith (2 awr)<br>• Nifer y diffygion "diogelwch" sy'n gofyn am ymateb (24 awr) |
| Cyflwr | • Canran yr asedau sydd mewn cyflwr "gwael"<br>• Canran yr asedau y dylid eu "hystyried ar gyfer gwaith cynnal a chadw"<br>• Nifer y diffygion cynnal a chadw sy'n gofyn am ymateb o fewn 7 diwrnod |

*Tabl 9 – Safonau Gwasanaeth Asedau*

**24.2** Mae safonau archwilio ac atgyweirio adweithiol wedi'u nodi yn Llawlyfr Cynnal a Chadw Priffyrdd y Cyngor sydd yn ei dro yn cyfeirio at y Cod Ymarfer ar gyfer Archwiliadau Diogelwch ar Ffyrdd Sirol a'r Ymateb 2021. Mae'r cynllun hwn yn cymryd y bydd y safonau hynny'n cael eu bodloni'n gyson.

**24.3** Mae'r safonau penodol y gall defnyddwyr eu disgwyl gan bob categori ased priffyrdd yn ystod cyfnod y CRhAP i'w gweld yn adrannau.

**24.4** Defnyddir **strategaethau** i gyrraedd y targedau safonol perthnasol. Nodir y strategaeth ar gyfer pob categori ased yn yr adrannau isod. Mae'r strategaethau'n cynnwys rhagfynegi'r math o waith a maint y gwaith sydd ei angen i gyflawni'r safonau gwasanaeth priodol. Bydd hyn yn cynnwys blaenoriaethu atgyweirio neu ailosod elfennau o asedau mewn modd sy'n ceisio cyrraedd y safon o ran y gost tymor byr a hirdymor gorau posibl.

DRAFT

**24.5** Bydd **rhaglenni gwaith** yn cael eu cynhyrchu'n flynyddol yn seiliedig ar ganlyniadau archwilio a chyflwr gan ddefnyddio'r strategaethau a ddisgrifir yn y ddogfen hon. Bydd y rhaglenni hyn yn ddeinamig ac yn seiliedig ar gynnydd a'r cyllid sydd ar gael.

**24.6** Mae'r **cyllid** a nodir isod yn yr adrannau categori asedau perthnasol yn ceisio cyrraedd y safon berthnasol a ddisgrifir yn y cynllun hwn. Bydd newidiadau sylweddol i'r cyllid a ddarperir bob blwyddyn yn golygu y bydd angen diwygio'r safon yn y cynllun o ganlyniad.

DRAFFT

## 25.0 RHEOLI TRAFFIG

**25.1** Mae gan y Cyngor fel yr Awdurdod Traffig Lleol ddyletswydd i reoli'r rhwydwaith ffyrdd er mwyn sicrhau bod traffig yn symud yn hwylus ar y rhwydwaith a hwyluso'r un peth ar rwydweithiau ffyrdd y mae Cyngor arall yn Awdurdod Traffig ar eu cyfer. Mae'r dyletswyddau wedi'u hamlinellu yn Neddf Rheoli Traffig 2004 ac mae'r trefniadau sydd gan y Cyngor yn eu lle i gyflawni'r dyletswyddau hyn wedi'u nodi isod.

**25.2** **Rheolwr Traffig –** Rheolwr Traffig y Cyngor yw'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol ar gyfer Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol.

**25.3** **Amharu ar y Traffig –** Mae gan y Cyngor brosesau yn eu lle i sicrhau bod y Cyngor yn nodi achos, neu achosion posibl, tagfeydd ar y ffyrdd neu amharu arall, ac mae'n gweithredu mewn ymateb i (neu gan ragweld) unrhyw beth a nodir felly.

**25.4** **Polisïau ac Amcanion –** Bydd y Cyngor yn datblygu polisïau neu amcanion penodol mewn perthynas â ffyrdd gwahanol neu ddosbarthiadau o ffyrdd gwahanol ar ei rwydwaith ffyrdd, a bydd ganddo weithdrefnau yn eu lle i fonitro effeithiolrwydd ei brosesau gwneud penderfyniadau a gweithredu ei benderfyniadau ac asesu ei berfformiad wrth reoli ei rwydwaith ffyrdd.

**25.5** **Strydoedd sy'n sensitif i draffig –** Mae gan y sir nifer o strydoedd sydd, oherwydd eu lleoliad a'u nodweddion ffisegol, maint neu gyfansoddiad y traffig sy'n eu defnyddio a chanlyniad gwneud gwaith arnynt, wedi'u dynodi'n rhai sensitif i draffig, a rhoddwyd cyfyngiadau amser gweithio arnynt.

DRAFT

## 26.0 HIERARCHAETH RHWYDWAITH

**26.1** Mae'r asedau priffyrdd wedi'u rhannu'n gategorïau hierarchaeth rhwydwaith sy'n adlewyrchu defnydd a swyddogaeth. Mae hyn yn golygu y gall y trefniadau archwilio ac atgyweirio gael eu cysylltu â'u risg gysylltiedig.

**26.2** Mae'r hierarchaethau rhwydwaith wedi'u pennu yn unol â'r "Cod Ymarfer: Seilwaith Priffyrdd wedi'i Reoli'n Dda", UK Roads Liaison Group, 2016 ac "Ymagwedd Seiliedig ar Risg: Dull" Cymdeithas Syrfewyr Sirol Cymru. Ceir manylion ynghylch sut y pennwyd yr hierarchaethau yn "Adolygiad Risg Asedau Priffyrdd Blynyddol 4RA 2018".

**26.3** Ceir manylion am yr hierarchaethau a ddefnyddiwyd ar gyfer pob grŵp asedau yn Atodiad B. Cedwir manylion yr hierarchaeth a neilltuwyd i bob ased unigol yn systemau rheoli asedau'r Cyngor (Insight).

**26.4** Mae Cymdeithas Syrfewyr Sirol Cymru yn argymell y dylid ymgynghori ag awdurdodau cyfagos er mwyn neilltuo hierarchaeth gyson i asedau sy'n croesi ffiniau. Ar hyn o bryd nid yw'r broses ymgynghori wedi'i chwblhau eto. Pan fydd wedi'i chwblhau bydd yr asedau gyda hierarchaethau gwahanol rhwng y Cyngor a Chyngor cyfagos yn cael eu rhestru yn Atodiad B ynghyd â'r rheswm am y gwahaniaeth.

**26.5** Mae'r hierarchaethau'n cael eu **hadolygu'n** barhaus lle mae newidiadau'n digwydd i'r ased a/neu newidiadau sylweddol mewn defnydd (e.e. newidiadau ym maint y traffig). Mae'r hierarchaeth yn cael ei hadolygu a'i chadarnhau bob 5 mlynedd fan lleiaf. Cedwir cofnodion o'r adolygiad yn "Adolygiad Risg Asedau Priffyrdd Blynyddol 4RA Cyngor Sir Ceredigion". Bydd unrhyw newidiadau dilynol i'r hierarchaeth yn cael eu cynnig i'r Cyngor a'u cymeradwyaeth yn cael ei chofnodi.

DRAFT

**27.0 Y DREFN ARCHWILIO**

**27.1** Er mwyn monitro cyflwr ac anghenion atgyweirio'r ased mae'r Cyngor yn defnyddio trefn archwiliadau o fathau ac amlder gwahanol.

**27.2 Mathau o Archwilio**

**27.3** Mae'r Cyngor yn cynnal y mathau canlynol o archwilio:

**Archwiliadau/Ymateb Adweithiol:** archwiliadau a wneir mewn ymateb i'r Cyngor yn cael ei hysbysebu am ddiffygion posibl gan ffynonellau eraill (gweithwyr y Cyngor, aelodau'r cyhoedd, gwasanaethau brys ac ati).

**Archwiliadau Cynlluniedig/Rheolaidd:** archwiliadau rhagweithiol/cynlluniedig sydd â'r diben o nodi diffygion a allai achosi niwed i ddefnyddwyr a nodi diffygion y mae angen eu hatgyweirio er mwyn atal dirywiad rhag gwaethygu ac anghenion cynnal a chadw cynyddol (y gellir eu hosgoi).

Mae archwiliadau cynlluniedig rheolaidd yn gyfuniad o'r canlynol:

- **Archwiliadau gyrru**: mae Archwiliwr Priffyrdd yn cynnal archwiliadau o'r gerbytffordd mewn cerbyd sy'n symud yn araf ar gyflymder sy'n briodol i gyflwr y ffordd.
- **Archwiliadau cerdded:** archwiliadau gan Archwiliwr Priffyrdd ar droed ar gyflymder cerdded ar y droedffordd, lle caiff y droedffordd a'r gerbytffordd eu hasesu.

**27.4 Amlder Archwilio**

**27.5 Archwiliadau Adweithiol –** Mae'r rhain i'w cynnal er mwyn nodi unrhyw waith cynnal a chadw sy'n ofynnol yn dilyn ceisiadau am wasanaeth gan y cyhoedd neu drydydd parti. Mae'r rhain yn cael eu trosglwyddo i'r archwilwyr trwy System Rheoli Asedau Seilwaith y gwasanaeth, sef Symology Insight. Rhoddir sgôr blaenoriaeth i'r cais gan y ganolfan alwadau gorfforaethol ar gyfer ymateb/archwiliad/ymchwiliad. Dylid archwilio'r holl ddiffygion yr adroddir amdanynt o fewn y cyfnod penodedig ar ôl eu derbyn, oni bai bod yr archwiliwr eisoes yn gwybod amdanynt a'u bod wedi'u cofnodi'n flaenorol ar system Insight y Cyngor i'w cywiro ar sail blaenoriaeth.

Mae pob archwiliad adweithiol yn cael ei gofnodi ar ddyfais symudol. Mae unrhyw ddiffygion a nodir sy'n dod o fewn y meini prawf ymyrraeth rhagnodedig yn cael eu cofnodi ar gronfa ddata diffygion Insight gyda chyfarwyddiadau i'w gwneud yn ddiogel a/neu eu hatgyweirio o fewn amserau ymateb rhagnodedig.

**27.6 Archwiliadau Rheolaidd –** Cynhelir yr archwiliadau hyn ar amlder rheolaidd cynlluniedig. Mae'r amlder yn seiliedig ar yr hierarchaeth rhwydwaith a chaiff ei bennu

DRAFT

trwy ddefnyddio dull adolygu risg asedau priffyrdd Cymdeithas Syrfewyr Sirol Cymru a chaiff ei adolygu bob 2 flynedd. Dangosir amlder archwiliadau rheolaidd yn Atodiad C ynghyd â safonau gofynnol a argymhellir Cymdeithas Syrfewyr Sirol Cymru.

**27.7** Mae'n rhaid i'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol ar gyfer Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol gymeradwyo newidiadau i'r amlderau cyn gweithredu.

**27.8** Yn ogystal, mae'r Cyngor wedi awdurdodi gohirio'r drefn archwilio yn ei chyfanrwydd yn ystod cyfnodau pan nad yw'n bosibl archwilio. Darperir y ffurflen awdurdodi ar gyfer atal archwiliadau priffyrdd yn Atodiad Ch.

**27.9** Fel arfer bydd archwiliadau diogelwch yn cael eu cynnal ar y cyfnodau penodedig a nodir yn Atodiad C. Fodd bynnag, gellir gohirio'r rhaglen archwiliadau am resymau eithriadol. Mae'r rhain yn cynnwys ond heb eu cyfyngu i wyliau statudol neu sefydlog, cyfnodau o dywydd eithriadol lle mae llifogydd neu eira yn atal archwiliad priodol o'r rhwydwaith ffyrdd, a digwyddiadau brys neu eithafol eraill. Lle mae archwiliadau'n cael eu gohirio am gyfnodau o 2 ddiwrnod neu lai, bydd y ffyrdd a'r troedffyrdd oedd i'w harchwilio ar y diwrnodau hyn yn cael eu harchwilio o fewn pythefnos i'r dyddiad y bydd archwiliadau'n ailddechrau. Lle bo'r cyfnod gohirio yn fwy na 2 ddiwrnod, gyda chymeradwyaeth y Swyddog Arweiniol Corfforaethol, Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol a'r Aelod Cabinet, bydd y rhaglen archwilio gyfan yn cael ei rholio ymlaen/hailosod a'i hailddechrau fel pe na bai'r cyfnod gohirio wedi digwydd. Lle rhoddir cymeradwyaeth i rolio'r rhaglen archwilio ymlaen, rhaid cofnodi'r rhesymau dros atal a hyd yr atal y system rheoli asedau.

**27.10** **Goddefiant Archwilio –** Dylid cynnwys goddefiant i ganiatáu ar gyfer digwyddiadau na ellir eu hosgoi megis tywydd gwael, hyfforddiant, salwch archwiliwr ac ati. Pan fydd angen, argymhellir mai'r goddefiant a ddefnyddir ar gyfer pob amlder archwilio yw 50% o'r cyfnod archwilio rhagnodedig neu 3 mis (pa un bynnag yw'r lleiaf).

**27.11** Rhaid i unrhyw newidiadau i'r amlderau gael eu cymeradwyo gan y Swyddog Arweiniol Corfforaethol ar gyfer Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol cyn iddynt gael eu gweithredu.

**27.12** **Ffactorau Gweithredol –** Bydd archwiliadau'n cael eu cynnal ar sail optimeiddio llwybrau er mwyn sicrhau'r effeithlonrwydd gweithredol mwyaf posibl gyda'r adnoddau sydd ar gael. Bydd hyn yn arwain at archwilio rhannau penodol o'r rhwydwaith sydd wedi'u dosbarthu fel rhai ag amlder archwilio is ar hyn o bryd ar amlder uwch na'r hyn a nodwyd, er enghraifft, darn o'r rhwydwaith y nodwyd ei fod yn cael ei archwilio ar amlder o 3 mis yn cael ei harchwilio mewn gwirionedd ar gyfnod dychwelyd misol os yw'n fwy effeithlon yn weithredol.

**27.13** **Amserlen Archwilio –** Mae llwybrau archwilio (yn unol â'r drefn uchod) yn cael eu nodi yn system rheoli asedau'r Cyngor (Insight). Mae'r system rheoli asedau (Insight) yn

DRAFT

cynnwys manylion y trefniadau archwilio, yr archwiliadau a wneir a dyddiad yr archwiliad nesaf a drefnwyd. Bydd defnydd a chymeriad y ffordd yn cael eu hystyried wrth drefnu archwiliadau, er enghraifft, er mwyn osgoi cyfnodau pan fydd mwy o gerbydau wedi'u parcio. Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod amseriad yr archwiliad yn cynnig modd nodi diffygion mewn modd effeithiol.

**27.14 Asedau a Archwiliwyd –** Mae'r asedau a archwiliwyd yn ystod yr archwiliad rheolaidd yn cynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig) i'r canlynol:

- Cerbytffyrdd
- Troedffyrdd
- Gorchuddion, barrau a fframiau (gan gynnwys cyfarpar ymgymerwyr statudol)
- Cyrbau, ochrau a sianeli
- Draenio
- Rheiliau gwarchod, ffensys a systemau atal#
- Ymylon, coed a gwrychoedd*
- Stydiau a marciau ffordd
- Arwyddion
- Goleuadau stryd,
- Systemau traffig, croesfannau a reolir, bolardiau a chabinetau wedi'u goleuo
- Glendid a thwf chwyn

*#gweledol yn unig*

** archwiliad ar droed yn unig*

**27.15** Mae cofnodion yr archwiliad a'r arsylwadau dilynol yn cael eu cofnodi wrth i'r archwiliad gael ei gynnal gan ddefnyddio dyfais electronig a ddelir yn y llaw a'u llwytho'n uniongyrchol i system rheoli asedau (Insight) y Cyngor.

DRAFT

## 28.0 ASESIADAU CYFLWR

**28.1** Mae Cyngor Sir Ceredigion yn cynnal yr asesiadau cyflwr canlynol ar eu hasedau priffyrdd:

| **ARCHWILIADAU CERBYTFFYRDD** |
|---|
| **SCANNER** (Asesiad o Gyflwr Wyneb y Rhwydwaith Ffyrdd Cenedlaethol)<br>Mae SCANNER yn arolwg cyflwr peiriant a wneir o gerbyd sy'n symud ar gyflymder y traffig. Cedwir canlyniadau'r arolwg oddi ar y safle gan WDM a gellir eu cyrchu trwy ryngwyneb ar-lein WDM / WIP. Cwmpas arolwg blynyddol SCANNER yw:<br>Dosbarth A – 100% un cyfeiriad<br>Dosbarth B – 100% un cyfeiriad<br>Dosbarth C – 50% un cyfeiriad<br>Dosbarth U – 20% un cyfeiriad |
| **SCRIM** (Peiriant Ymchwilio Rheolaidd Cyfernod Grym o'r Ochr)<br>Mae SCRIM yn mesur gwrthiant sgidio ar ffyrdd gwlyb a chaiff canlyniadau'r arolwg eu cadw oddi ar y safle gan WDM a'u cyrchu trwy ryngwyneb ar-lein WDM / WIP. Cwmpas arolwg blynyddol SCRIM yw:<br>Dosbarth A – 100% i'r ddau gyfeiriad<br>Dosbarth B – 100% un cyfeiriad |
| **Asesiad o'r Cyflwr Gweledol**<br>Mae cyflwr gweledol yn cael ei gofnodi yn ystod y broses archwilio diogelwch priffyrdd. |

**28.2** Trefnir arolygon SCANNER a SCRIM trwy gontract canolog a reolir gan gontract IRIS Llywodraeth Cymru ac a ariennir gan y Cyngor. Mae'r contract yn cwmpasu Ffyrdd A, B ac C. Ariennir arolygon ffyrdd diddosbarth yn lleol gan y Cyngor yn ôl yr angen.

DRAFT

| ARCHWILIADAU TROEDFFYRDD/FFYRDD BEICIAU |
| --- |
| **Arolwg Rhwydwaith Troedffyrdd (FNS)**<br><br>Mae'r arolwg yn asesiad gweledol a wneir gan gontractwyr allanol, WDM. Cynhelir yr arolwg hwn unwaith bob 5 mlynedd. |
| **Asesiad o'r Cyflwr Gweledol**<br><br>Mae'r cyflwr gweledol yn cael ei gofnodi yn ystod y broses archwilio diogelwch priffyrdd. |

**28.3** Caiff **Adeileddau a Phontydd** eu harchwilio yn unol â gofynion DMRB CS450. Bydd hyn yn cynnwys yr holl bontydd, cylfatiau a waliau cynnal.

| ARCHWILIADAU PONTYDD AC ADEILEDDAU |
| --- |
| **Asesiad o'r Cyflwr Gweledol**<br>Archwilir adeileddau gan ddefnyddio dwy lefel o archwilio ac amlder<br>i. **Archwiliadau Cyffredinol:** Archwiliadau gweledol yw'r rhain gyda pheth asesiad sylfaenol a thrwy gyffyrddiad e.e. tapio gyda morthwyl a mesuriadau.<br>ii. **Prif Archwiliadau:** Mae'r rhain yn archwiliadau gweledol manylach, gydag asesiad trwy gyffyrddiad o'r rhan fwyaf/pob elfen ynghyd ag asesiad manwl e.e. tapio gyda morthwyl, hanner cell, mesuriadau clorid ac ati. |

**28.4** Mae **Archwiliad Cyffredinol** yn cynnwys cofnodi maint a difrifoldeb y diffygion a welwyd ar ffurflen ac mae'r data'n cael ei fewnbynnu wedi hynny i system rheoli pontydd y Cyngor (Insight). Mae pob ased pontydd yn cael ei archwilio ddwywaith y flwyddyn.

**28.5** Mae **Prif Archwiliad** yn cynnwys llunio adroddiad manwl ynghyd â'r data wedi'i gofnodi ar y ffurflen. Mae canlyniadau'r archwiliadau hyn hefyd yn cael eu cofnodi ar system rheoli pontydd CSC (Insight). Cynhelir Prif Archwiliadau unwaith bob 6 blynedd, ond gellir ymestyn yr amlder hwn trwy ddefnyddio asesiadau risg (PIIRA) a gynhelir yn unol ag CG450.

**28.6** **Goleuadau Stryd –** Asesir cyflwr yr asedau goleuadau stryd trwy ddefnyddio tri math o drefniadau archwilio a phrofi arbenigol:

DRAFT

| ARCHWILIO a PHROFI GOLEUADAU STRYD |
|---|
| **Arolygu'r Cyflwr Gweledol**<br>Cynhelir asesiad cyflwr gweledol ar sail ad hoc gan gontractwr allanol yn ystod ymweliadau cynnal a chadw gydag unrhyw ddiffygion amlwg neu asedau cyflwr gwael yn cael eu hadrodd i'r Peiriannydd Goleuadau Stryd a'u gweithredu arnynt yn unol â hynny. |
| **Profi Adeileddol Colofnau Goleuo**<br>Cwblhawyd rhaglen o brofion adeileddol ar yr holl golofnau goleuo gan ddefnyddio contractwr allanol. Mae canlyniadau'r profion adeileddol yn rhoi sgôr cyflwr fel a ganlyn:<br>• Coch: Rhaglen i'w gwaredu (fel arfer o fewn 5 diwrnod)<br>• Oren: Ail-brofi o fewn 3 blynedd<br>• Gwyrdd: Ail-brofi o fewn 6 blynedd<br>Mae canlyniadau'r profion adeileddol yn cael eu cofnodi ar system rheoli asedau Insight. |
| **Diogelwch Trydanol**<br>Mae profion trydanol yn cael eu cynnal gan gontractwr allanol ar yr holl offer. Mae canlyniadau'r profion trydanol yn cael eu cofnodi ar system rheoli asedau Insight. |

DRAFT

## 29.0 Y DREFN ATGYWEIRIO

**29.1** Mae diffygion a nodir trwy archwiliad neu hysbysiad gan trydydd parti yn cael eu blaenoriaethu ar gyfer eu hatgyweirio yn seiliedig ar y risg a berir i ddefnyddwyr. Gwneir hyn fel y nodir isod.

**29.2** **Categorïau Diffygion –** Defnyddir y data a gofnodir yn ystod archwiliadau i bennu categorïau diffygion. Mae categorïau diffygion yn blaenoriaethu gwaith atgyweirio gan ddefnyddio'r amser ymateb i ddiffygion a fabwysiadwyd gan y Cyngor ac a ddangosir yn Nhabl 10 isod:

| **Categorïau Diffygion** | **Disgrifiad** | **Amser Ymateb** | |
|---|---|---|---|
| | | **CSC** | **Safon Ofynnol Genedlaethol**<br>**Cymdeithas Syrfewyr Sirol Cymru** |
| Diffyg Critigol<br>**Categori 1** | Sefyllfa lle mae'r swyddog archwilio yn ystyried bod y risg i ddiogelwch yn ddigon uchel i fod angen gweithredu ar unwaith, e.e. seler wedi cwympo, gorchudd cyfleustodau ar goll, coeden wedi cwympo, agoriad heb ei ddiogelu<br>• Gofyn am ymateb ar unwaith i wneud y safle yn ddiogel | 2 awr # | 2 awr # |
| Diffyg Diogelwch<br>**Categori 1.1**<br>**Categori 1.5** | Diffygion sy'n creu risg uniongyrchol o anaf i ddefnyddwyr ffyrdd<br><br>Gofyn am ymateb cyn gynted â phosibl i ddileu risg bosibl o anaf i ddefnyddwyr | Erbyn diwedd y diwrnod calendr nesaf (CHSR, CH1, CH2)<br><br>O fewn 5 diwrnod calendr (CH3, CH4) | Erbyn diwedd y diwrnod gwaith nesaf (CHSR, CH1, CH2)<br><br>O fewn 5 diwrnod gwaith (CH3, CH4) |

DRAFT

| Categorïau Diffygion | Disgrifiad | Amser Ymateb | |
|---|---|---|---|
| | | CSC | Safon Ofynnol Genedlaethol Cymdeithas Syrfewyr Sirol Cymru |
| Diffyg Cynnal a Chadw **Categori 2.1** **Categori 2.3** | Diffygion sy'n cyfiawnhau triniaeth er mwyn eu hatal rhag dirywio i fod yn ddiffyg diogelwch cyn yr archwiliad nesaf a drefnwyd<br>Gofyn am ymateb i'w hatal rhag bod yn ddiffyg diogelwch | 1 mis (CHSR, CH1, CH2)<br>3 mis (CH3, CH4) | 1 mis (CHSR, CH1, CH2)<br>3 mis (CH3, CH4) |
| Atgyweiriadau wedi'u rhaglennu **Categori 3** | Diffygion sy'n cyfiawnhau triniaeth er mwyn eu hatal rhag dirywio i'r fath raddau fel bod gwaith neu gostau ychwanegol yn codi | Yn unol â'r rhaglen waith leol | Yn unol â'r rhaglen waith leol |

*Tabl 10 – Categorïau Diffygion*

#Dylid gwneud diffygion critigol yn ddiogel ar adeg yr archwiliad os yw hynny'n ymarferol neu dylai'r archwiliwr fod yn bresennol hyd nes y gellir gwneud y diffyg yn ddiogel. Gall gwneud yn ddiogel olygu arddangos rhybuddion, gosod conau neu ffensys i amddiffyn y cyhoedd rhag y diffyg.

**29.3** Rhoddir manylion am y mathau o ddiffygion a nodwyd a'r lefelau ymyrraeth a ragnodwyd ar gyfer pob categori diffyg yn **Atodiad Ch**.

**29.4** Mae cyfarwyddiadau gwaith gweithredol (gorchmynion) yn cael eu cynhyrchu'n awtomatig trwy ddefnyddio system rheoli asedau'r Cyngor (Insight) ar ôl mewnbynnu'r cofnodion archwilio.

**29.5** Ar ôl cwblhau'r gwaith atgyweirio, mae'r cofnodion perthnasol yn nodi manylion y math o waith a wnaed, y deunyddiau a ddefnyddiwyd a maint y gwaith atgyweirio ar system rheoli asedau'r Cyngor gyda llun o'r gwaith a gwblhawyd. Dim ond pan fydd yr holl gofnodion wedi'u cofnodi yn y system rheoli asedau y bernir bod y diffyg wedi'i 'atgyweirio'n llawn'.

DRAFT

## 30.0 BLAENORIAETHU CYNLLUN PRIFFYRDD

**30.1** Mae asedau y nodir bod angen eu cynnal a'u cadw, eu hatgyweirio, eu cryfhau neu eu hailosod yn cael eu cynnwys mewn rhaglen waith cynlluniau a phrosiectau posibl yn y dyfodol. Defnyddir proses flaenoriaethu ar sail risg i nodi pa gynlluniau arfaethedig y dylid eu cwblhau yn ystod y flwyddyn/blynyddoedd canlynol.

**30.2** Mae'r holl gynlluniau y mae angen eu cynllunio yn cael eu hasesu a'u blaenoriaethu. Defnyddir y rhestr hon fel sail i'w chynnwys yn y rhaglen flynyddol yn unol â'r safonau, strategaethau a chyllidebau ar gyfer pob math o ased a thriniaeth fel y nodir yn y Cynllun Rheoli Asedau Priffyrdd (CRhAP). Mae'r rhestr hon yn cynnwys mwy o gynlluniau nag y mae modd eu hariannu o fewn y cyfnod o un flwyddyn ariannol. Felly, mae'r rhestr o gynlluniau â blaenoriaeth yn ymestyn i waith sydd angen triniaeth am y ddwy i dair blynedd nesaf a thu hwnt. Gellir cyflymu cynlluniau o'r rhestr hon yn ôl yr angen os bydd oedi gyda'r rhaglenni gwaith blynyddol. Bydd rhaglen flynyddol (cyfalaf a refeniw) yn cael ei pharatoi ar gyfer pob categori ased o'r rhestr wedi'i blaenoriaethu y rhaglen dreigl.

**30.3** Mae'r offeryn blaenoriaethu cynlluniau presennol yn defnyddio matrics cymharu cost a budd i bennu blaenoriaethau cynllun/prosiect mawr. Mae'r offeryn hwn yn cael ei adolygu ar hyn o bryd er mwyn adlewyrchu Strategaeth Gorfforaethol 2022-2027 sy'n canolbwyntio mwy ar leihau allyriadau carbon a llesiant cenedlaethau'r dyfodol.

DRAFT

## 31.0 CYNNAL A CHADW CERBYTFFYRDD

**31.1** Mae'r Cyngor yn rheoli 2,153km o ffyrdd sy'n cynnwys:

| Dosbarth Ffordd | Hyd |
|---|---|
| Dosbarth 1 a 2 (Mathau A a B) | 484km |
| Dosbarth 3 (Math C) | 841km |
| Diddosbarth (Math U) | 828km |

**31.2** Mae Ceredigion yn sir wledig yn bennaf ac adlewyrchir hyn yn y ffaith bod 88% o'r ffyrdd a gynhelir gan y Cyngor mewn lleoliad gwledig.

**31.3** Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu hierarchaeth ffyrdd er mwyn i'r trefniadau archwilio ac atgyweirio adlewyrchu'r lefelau gwahanol o ddefnydd. Rhoddir diffiniadau ar gyfer yr hierarchaeth cerbytffyrdd yn Atodiad B.

**31.4 Targedau Diogelwch**

**31.5** Y targedau ar gyfer amserau ymateb y Cyngor i atgyweirio diffygion cerbytffyrdd yw:

| Atgyweirio Diffygion Diogelwch | Safonol |
|---|---|
| Bydd diffygion critigol yn cael eu hatgyweirio neu eu gwneud yn ddiogel o fewn | 2 awr |
| Bydd diffygion diogelwch ar lwybrau strategol yr hierarchaeth cerbytffyrdd, prif lwybrau dosbarthu a dosbarthu eilaidd yn cael eu cywiro neu eu gwneud yn ddiogel # | Erbyn diwedd y diwrnod calendr nesaf |
| Bydd diffygion diogelwch ar ffyrdd cyswllt yr hierarchaeth cerbytffyrdd a ffyrdd mynediad lleol yn cael eu hatgyweirio neu eu gwneud yn ddiogel # | 5 diwrnod |

#Rhoddir diffiniad o ddiffygion critigol a diogelwch ar gyfer cerbytffyrdd yn **Atodiad A**

**31.6 Diffygion Enghreifftiol**

**31.7** Mae'r enghreifftiau isod yn nodweddiadol o'r math o ddiffyg a all ddigwydd ar y briffordd a byddai'n darparu ymateb gwahanol.

DRAFT

| Enghreifftiau o Ddiffygion | |
|---|---|
| **Diffygion CRITIGOL** yw'r rhai sy'n achosi perygl uniongyrchol i ddefnyddwyr fel ei bod yn briodol ei warchod hyd nes y gellir gosod conau o'i amgylch neu ei atgyweirio. Nid yw diffygion o'r fath yn digwydd yn aml ond mae angen rhoi sylw iddynt yn ddi-oed er mwyn sicrhau diogelwch defnyddwyr. Mae'r ymateb i ddiffyg critigol yn cyfeirio at yr amser i fynychu'r safle a gwneud y safle'n ddiogel. |  |
| **Diffygion DIOGELWCH** yw'r rhai sy'n achosi risg uniongyrchol o anaf i ddefnyddwyr. Mae angen ymateb i'r diffygion hyn cyn gynted â phosibl er mwyn gwaredu'r risg bosibl. Y diffygion diogelwch mwyaf cyffredin ar gerbytffyrdd yw tyllau yn y ffordd.<br>Ystyrir maint a lleoliad y twll yn y ffordd wrth ddyrannu'r categori diffyg. |  |

**31.8** Mae **diffygion cynnal a chadw** yn ddiffygion sy'n achosi llai o berygl i ddefnyddwyr ac sydd fel arfer yn cael eu hatgyweirio er mwyn eu hatal rhag dirywio i fod yn ddiffygion diogelwch. Mae'r amser a gymerir i'w hatgyweirio yn adlewyrchu'r risg is i ddefnyddwyr.

**31.9** Targedau'r Cyngor ar gyfer atgyweirio diffygion cynnal a chadw cerbytffyrdd yw:

| Atgyweirio Diffygion Cynnal a Chadw | Safonol |
|---|---|
| Bydd diffygion cynnal a chadw ar lwybrau strategol yr hierarchaeth cerbytffyrdd, prif lwybrau dosbarthu a dosbarthu eilaidd yn cael eu hatgyweirio neu eu gwneud yn ddiogel # | 1 mis |
| Bydd diffygion cynnal a chadw ar ffyrdd cyswllt yr hierarchaeth cerbytffyrdd a ffyrdd mynediad lleol yn cael eu hatgyweirio neu eu gwneud yn ddiogel # | 3 mis |

# darperir diffiniad o ddiffygion cynnal a chadw ar gyfer cerbytffyrdd yn **Atodiad A**

**31.10** Dylid nodi bod llawer o ddiffygion ar y rhwydwaith sy'n **rhy fach** i gyfiawnhau triniaeth gost-effeithiol.

DRAFT

**31.11 Cyflwr Cerbytffyrdd**

**31.12** Targedau sylfaen y Cyngor ar gyfer cyflwr cerbytffyrdd (a fesurir gan arolygon cyflwr peiriant) ar gyfer cyfnod y cynllun yw:

| **Cyflwr Mesuredig (gan arolwg cyflwr)** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Dosbarth Ffordd | | **A** | **B** | **C** | **U** |
| Cedwir y ganran sydd mewn **cyflwr gwael** yn is na | (coch) | 3% | 6% | 12% | 12% |
| Cedwir y ganran y dylid ei "**hystyried ar gyfer cynnal a chadw** " yn is na | (ambr) | 20% | 20% | 32% | 32% |

**31.13** Bydd y targedau'n cael eu hadolygu bob blwyddyn yn dilyn yr arolygon data cyflwr a bydd unrhyw newidiadau y bernir eu bod yn angenrheidiol yn cael eu cytuno fel atodiad i'r cynllun hwn. Yn ogystal, nid dynodiadau hierarchaeth ffyrdd, h.y. p'un a yw ffordd wedi'i harwyddo fel A, B, C neu wedi'i chofnodi'n weithredol fel ffordd U (ffordd ddidosbarth) fydd yr unig beth sy'n penderfynu ar y dosbarth ffordd hwnnw yn y dyfodol. Yn hytrach, bydd ailddynodi ar sail risg yn seiliedig ar faint o draffig yn cael ei ddefnyddio i benderfynu ar yr hierarchaeth a fydd yn arwain yn y pen draw mewn cyd-destun gweithredol at ailddosbarthu i CHSR, CH1, CH2, CH3, CH4 a CH5. Bydd hyn yn cael ei gyfleu i gontractwr arolygu'r gwasanaethau, WDM, er mwyn i Ddangosyddion Berfformiad (mynegeion cyflwr ffyrdd) yn adlewyrchu/adrodd hynny'n gywir. Mae'r gwaith hwn yn parhau.

**31.14** Mae'r lluniau isod yn rhoi enghreifftiau o ffyrdd lleol y gellid eu hasesu fel rhai sydd mewn cyflwr 'gwael' neu sydd i'w 'hystyried ar gyfer cynnal a chadw'. Mae ffyrdd yr aseswyd eu bod yn 'wael' yn cynnwys darnau mawr o ddiffygion sy'n effeithio ar adeiledd y ffordd. Mae gan ffyrdd yr aseswyd eu bod yn dirywio lai o ddiffygion ac efallai mai dim ond difrod i wyneb y ffordd a welir.

| **CYFLWR GWAEL** | **GWAETHYGU** |
|---|---|
|   |  |

DRAFT

## 32.0 STRATEGAETH CYNNAL A CHADW CERBYTFFYRDD

**32.1** Mae'r strategaeth ar gyfer cerbytffyrdd yn cynnwys:

- parhau i atgyweirio mân ddiffygion
- buddsoddiad cyfalaf mewn trin ac ailadeiladu wynebau ffyrdd

### 32.2 Atgyweirio Diffygion

**32.3** Mae diffygion megis tyllau yn y ffordd a'r tebyg yn cael eu nodi trwy drefn archwilio a/neu eu hadrodd i'r Cyngor gan ddefnyddwyr. Asesir diffygion ar sail y risg y maent yn ei hachosi i ddefnyddwyr, a rhoddir blaenoriaeth i'w hatgyweirio yn unol â pholisi a Llawlyfr Cynnal a Chadw'r Cyngor.

**32.4** **Disgwylir i atgyweiriadau rheolaidd ac adweithiol barhau ar y lefelau presennol trwy gydol cyfnod y cynllun hwn a bydd angen buddsoddiad parhaus.**

**32.5** Mae'r cynllun hwn yn cymryd y bydd y gangiau gwaith sy'n cael eu defnyddio ar hyn o bryd i atgyweirio diffygion yn parhau i wneud hynny, ac y bydd maint y gwaith atgyweirio sydd ei angen yn debyg yn fras i'r hyn a brofwyd yn y blynyddoedd diwethaf.

### 32.6 Ailosod Wyneb, Trin Wyneb ac Ailadeiladu

**32.7** Er mwyn cadw diffygion ar lefel y gellir eu rheoli, mae angen ailosod wyneb neu drin wyneb ar ddarnau o'r ffyrdd. Mae angen trin wyneb pan fydd cyflwr y ffordd yn gwaethygu i'r pwynt lle mae diffygion yn digwydd. Adlewyrchir maint hyn yn y targedau cyflwr a ddangoswyd yn flaenorol.

**32.8** Y strategaeth ar gyfer pob dosbarth ffordd o ran cyflwr mesuredig yw cynnal yr ased cerbytffyrdd ar ei lefel cyflwr presennol. Bydd hyn yn cynnwys ystod o driniaethau ailosod wyneb ac ataliol. Disgwylir y bydd gwariant yn cael ei rannu 60% ar gynnal a chadw ataliol (triniaethau wyneb) a 40% yn cael ei wario ar gynnal a chadw cywirol (triniaethau ailosod wyneb)

**32.9** Yn gyffredinol, lle bo modd gellir trin ffyrdd sydd yng nghamau cychwynnol dirywio â thriniaeth wyneb. Bydd wyneb presennol ffyrdd sydd wedi gwaethygu mwy ac sydd mewn cyflwr gwael yn cael ei dynnu a'i ddisodli gan haen wyneb newydd neu ei ailadeiladu'n gyfan gwbl os bydd y sylfaen wedi methu'n llwyr.

**32.10** Bydd y rhannau o'r ffordd sydd i'w trin yn cael eu nodi trwy ganlyniadau arolygon cyflwr ac archwiliadau penodol. Bydd cynlluniau ailosod wyneb a thrin wyneb yn cael eu blaenoriaethu trwy ddefnyddio proses a nodir yn Llawlyfr Cynnal a Chadw Priffyrdd y Cyngor. Mae blaenoriaethu yn ystyried nifer y diffygion, canlyniadau arolygon gwrthiant sgidio, maint y traffig, cyflymder y traffig, cwynion cwsmeriaid, hawliadau a gwaith cyfleustodau cynlluniedig y gwyddys amdano yn y dyfodol.

DRAFT

## 33.0 CRYNODEB O WAITH AR GERBYTFFYRDD

**33.1** Disgwylir y bydd y strategaeth y manylir arni uchod yn gofyn i'r gwaith canlynol gael ei wneud.

**33.2** Bydd nifer yr atgyweiriadau rheolaidd ac adweithiol a ragwelir yn debyg i'r blynyddoedd blaenorol gyda'r un adnoddau.

atgyweirio tua 1,500 o ddiffygion diogelwch cerbytffyrdd bob blwyddyn

**33.3** Bydd diffygion cynnal a chadw yn cael eu hatgyweirio ar amlder sy'n seiliedig ar adnoddau er mwyn sicrhau bod y targed ar gyfer atgyweiriadau diogelwch yn cael ei flaenoriaethu. Bydd llawer o ddiffygion cynnal a chadw yn cael eu hatgyweirio fel rhan o'r atgyweiriadau i ddiffygion diogelwch er mwyn gwneud defnydd llawn o adnoddau mewn unrhyw ardal benodol. Mewn rhai amgylchiadau prin, er mwyn sicrhau diogelwch y cyhoedd, bydd rhaid cau'r ffordd hyd nes y gellir gwneud gwaith cynnal a chadw mawr.

**33.4 Gwaith Cynnal a Chadw Cynlluniedig ar Gerbytffyrdd**

**33.5** Dangosir y meintiau nodweddiadol o gerbytffyrdd sydd wedi cael eu cynnal gyda'r adnoddau sydd ar gael yn ystod y cyfnod CRhAP blaenorol yn Nhabl 11 isod. Disgwylir i'r lefel hon o waith cynnal a chadw gael ei chwblhau yn ystod y cynllun hwn.

| Dosbarth Ffordd | A | B | C | U |
|---|---|---|---|---|
| Triniaeth Wyneb<br>(Cynnal a Chadw Ataliol) | 9km | 16km | 23km | 39km |
| Ailosod Wyneb<br>(Cynnal a Chadw Cywirol) | 2km | 3km | 11km | 3km |

*Tabl 11 – Cynnal a Chadw Cynlluniedig ar Gerbytffyrdd*

**33.6 Rhaglen Waith Flynyddol**

**33.7** Cynhelir rhaglen dreigl ar gyfer yr holl ffyrdd lle dylid ystyried gwneud gwaith cynnal a chadw. Defnyddir proses flaenoriaethu a nodir yn Llawlyfr Cynnal a Chadw Priffyrdd y Cyngor i greu rhaglen waith flynyddol sy'n cael ei chymeradwyo a'i chyhoeddi gan y Cyngor.

DRAFT

**33.8** Mae'r broses flaenoriaethu ar sail risg yn sicrhau bod y strategaeth yn cael ei gweithredu a bod dull wedi'i ddogfennu ar gyfer dewis pa gynlluniau sy'n cael eu targedu ar gyfer triniaeth yn gyntaf.

**33.9** Mae maint o gwaith y manylir arno yn 33.2 a 33.5 wedi'i amcangyfrif ar sail y lefelau ariannu a ragwelir er mwyn cynnal lefel sefydlog o waith atgyweirio, ac fe'i dangosir yn Nhabl 12 isod:

| Math o Waith | Cyllid Blynyddol Gofynnol |
|---|---|
| Cynnal a Chadw Cynlluniedig | £4.6m |
| Cynnal a Chadw Arferol ac Adweithiol | £1.3m |

*Tabl 12 –Cyllid Blynyddol Gofynnol ar gyfer Cynnal a Chadw Cerbytffyrdd*

DRAFT

## 34.0 CYNNAL A CHADW TROEDFFYRDD A FFYRDD BEICIAU

**34.1** Mae'r Cyngor yn rheoli **220km o droedffyrdd a ffyrdd beiciau**. Mae hwn yn swm amcangyfrifedig yn seiliedig ar arolygon blaenorol, ond disgwylir iddo fod yn fwy. Darperir strategaeth ar gyfer gwella'r stocrestr asedau ar gyfer troedffyrdd a ffyrdd beiciau yng Nghyfrol 2.

**34.2 Targedau Diogelwch**

**34.3** Mae targedau'r Cyngor ar gyfer atgyweirio diffygion cynnal a chadw troedffyrdd yn cyd-fynd â'r gerbytffordd gyfagos fel a ganlyn:

| Atgyweirio Diffygion Diogelwch | Safonol |
|---|---|
| Bydd diffygion critigol yn cael eu hatgyweirio neu eu gwneud yn ddiogel o fewn | 2 awr |
| Bydd diffygion diogelwch ar lwybrau strategol yr hierarchaeth cerbytffyrdd, prif lwybrau dosbarthu a dosbarthu eilaidd yn cael eu hatgyweirio neu eu gwneud yn ddiogel # | Erbyn diwedd y diwrnod calendr nesaf |
| Bydd diffygion diogelwch ar ffyrdd cyswllt yr hierarchaeth cerbytffyrdd a ffyrdd mynediad lleol yn cael eu hatgyweirio neu eu gwneud yn ddiogel # | 5 diwrnod |

# rhoddir diffiniad o ddiffygion critigol a diogelwch ar gyfer troedffyrdd yn **Atodiad A**

**34.4** Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu hierarchaeth troedffyrdd er mwyn i'r trefniadau archwilio ac atgyweirio adlewyrchu'r lefelau defnydd gwahanol. Darperir diffiniadau ar gyfer yr hierarchaeth troedffyrdd yn Atodiad B.

**34.5 Diffygion Cyffredin ar Droedffyrdd a Ffyrdd Beiciau**

**34.6** Diffyg critigol ar droedffordd yw un sy'n achosi perygl uniongyrchol i ddefnyddwyr fel ei bod yn briodol i'w warchod hyd nes y gellir gosod conau o'i amgylch neu ei atgyweirio. Nid yw diffygion o'r fath yn digwydd yn aml ond mae angen rhoi sylw iddynt yn ddi-oed er mwyn sicrhau diogelwch defnyddwyr. Mae'r ymateb i ddiffyg critigol yn cyfeirio at yr amser i fynychu'r safle a gwneud y safle'n ddiogel.

**34.7** Diffygion diogelwch yw'r rhai sy'n achosi risg uniongyrchol o anaf i ddefnyddwyr. Mae angen ymateb i'r diffygion hyn cyn gynted â phosibl er mwyn gwaredu'r risg bosibl. Y prif ddiffygion y mae angen eu nodi yw'r rhai a all achosi cerddwyr i gwympo. Mae'r rhain yn cynnwys blociau a slabiau wedi'u difrodi a thyllau yn y ffordd. Ystyrir maint a lleoliad y diffyg wrth ddyrannu'r categori diffyg. Diffygion eraill y mae angen eu hystyried yw'r rhai a allai rwystro'r droedffordd a'i gwneud yn ofynnol i gerddwyr gerdded ar y gerbytffordd.

DRAFT

**34.8 Diffygion Enghreifftiol**

**34.9** Mae'r enghreifftiau a ddangosir isod yn nodweddiadol o'r math o ddiffyg diogelwch a all ddigwydd ar y droedffordd.

| | | |
|---|---|---|
|  |  |  |
| **DIFFYG DIOGELWCH**<br>Perygl baglu | **DIFFYG DIOGELWCH**<br>Twll yn y ffordd | **DIFFYG DIOGELWCH**<br>Perygl baglu |

**34.10** Mae targedau'r Cyngor ar gyfer atgyweirio diffygion cynnal a chadw troedffyrdd yn cyd-fynd â'r gerbytffyrdd gyfagos fel a ganlyn:

| **Atgyweirio Diffygion Cynnal a Chadw** | **Safonol** |
|---|---|
| Bydd diffygion cynnal a chadw ar lwybrau strategol yr hierarchaeth priffyrdd, prif lwybrau dosbarthu a dosbarthu eilaidd yn cael eu hatgyweirio neu eu gwneud yn ddiogel # | 1 mis |
| Bydd diffygion cynnal a chadw ar ffyrdd cyswllt yr hierarchaeth priffyrdd a ffyrdd mynediad lleol yn cael eu hatgyweirio neu eu gwneud yn ddiogel # | 3 mis |

#rhoddir diffiniad o ddiffygion cynnal a chadw ar gyfer troedffyrdd yn **Atodiad A**

DRAFT

**34.11 Cyflwr Troedffyrdd a Ffyrdd Beiciau**

**34.12** Targedau'r Cyngor ar gyfer cyflwr troedffyrdd ar gyfer cyfnod y cynllun yw:

| Dosbarth Cyflwr Mesuredig | | Safonol |
|---|---|---|
| Bydd y ganran sydd mewn **cyflwr gwael** yn cael ei chadw o dan | | 5% |
| Bydd y ganran y dylid ei **"ystyried ar gyfer cynnal a chadw"** yn cael ei chadw o dan | | 25% |

**34.13** Mae'r lluniau isod yn rhoi enghreifftiau o droedffyrdd y gellid eu hasesu fel rhai 'gwael' neu 'sy'n dirywio'. Asesir troedffordd fel un 'wael' pan fydd yr adeiledd a'r wyneb wedi'u difrodi. Mae angen ailosod y troedffyrdd hyn yn llwyr. Mae troedffyrdd â wyneb wedi'i ddifrodi yn unig yn cael eu 'hystyried ar gyfer cynnal a chadw'.

| CYFLWR GWAEL | | YN DIRYWIO | |
|---|---|---|---|
|  |  |  |  |

DRAFT

## 35.0 STRATEGAETH CYNNAL A CHADW TROEDFFYRDD A FFYRDD BEICIAU

**35.1** Mae'r strategaeth ar gyfer cerbytffyrdd yn cynnwys:

- parhau i atgyweirio mân ddiffygion
- buddsoddiad cyfalaf mewn ailosod wyneb a thin wyneb

**35.2 Atgyweirio Diffygion**

**35.3** Mae diffygion megis tyllau yn y ffordd a'r tebyg yn cael eu nodi trwy drefn archwilio a/neu yn cael eu hadrodd i'r Cyngor gan ddefnyddwyr. Asesir diffygion ar sail y risg y maent yn ei hachosi i ddefnyddwyr, a rhoddir blaenoriaeth i'w hatgyweirio yn unol â pholisi a Llawlyfr Cynnal a Chadw'r Cyngor.

**35.4 Disgwylir i atgyweiriadau rheolaidd ac adweithiol barhau ar y lefelau presennol trwy gydol cyfnod y cynllun hwn a bydd angen buddsoddiad parhaus.**

**35.5** Mae'r cynllun hwn yn cymryd y bydd y gangiau gwaith sy'n cael eu defnyddio ar hyn o bryd i atgyweirio diffygion yn parhau i wneud hynny, ac y bydd maint y gwaith atgyweirio sydd ei angen yn debyg yn fras i'r hyn a brofwyd yn y blynyddoedd diwethaf.

**35.6 Ailosod Wyneb a Thrin Wyneb**

**35.7** Y strategaeth ar gyfer troedffyrdd yw rheoli'r cyflwr gan sicrhau bod nifer y troedffyrdd gwael a'r rhai sy'n dirywio bob amser yn is na'u lefelau presennol. Bydd hyn yn cynnwys ystod o driniaethau cryfhau ac ailosod wyneb y ffordd. Disgwylir y bydd 95% o'r gwariant ar driniaethau ailosod wyneb y ffordd, gyda'r 5% sy'n weddill yn cryfhau'r troedffyrdd sydd yn y cyflwr gwaethaf.

**35.8** Bydd y rhannau o'r troedffyrdd sydd i'w trin yn cael eu nodi trwy ganlyniadau arolygon cyflwr ac archwiliadau penodol. Bydd cynlluniau'n cael eu blaenoriaethu trwy ddefnyddio proses a nodir yn llawlyfr cynnal a chadw'r Cyngor. Mae blaenoriaethu'n ystyried nifer y diffygion, nifer y cerddwyr, cwynion cwsmeriaid, hawliadau a gwaith cyfleustodau cynlluniedig y gwyddys amdanynt yn y dyfodol.

DRAFT

## 36.0 CRYNODEB O WAITH TROEDFFYRDD

**36.1** Disgwylir y bydd y strategaeth y manylir arni uchod yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r maint o waith canlynol gael ei wneud.

**36.2** Bydd nifer yr atgyweiriadau rheolaidd ac adweithiol a ragwelir yn debyg i flynyddoedd blaenorol gyda'r un adnoddau.

Atgyweirio tua 250 o ddiffygion ar droedffyrdd a ffyrdd beiciau bob blwyddyn

**36.3** Bydd yr holl ddiffygion yn cael eu hatgyweirio ar amlder sy'n seiliedig ar adnoddau i sicrhau bod y targed ar gyfer atgyweiriadau diogelwch yn cael ei flaenoriaethu. Bydd llawer o ddiffygion cynnal a chadw yn cael eu hatgyweirio fel rhan o'r atgyweiriadau i ddiffygion diogelwch er mwyn gwneud defnydd llawn o adnoddau mewn unrhyw ardal benodol.

**36.4 Cynnal a Chadw Cynlluniedig ar gyfer Troedffyrdd a Ffyrdd Beiciau**

**36.5** Dangosir y meintiau nodweddiadol o droedffyrdd a ffyrdd beiciau sydd wedi cael eu cynnal gyda'r adnoddau sydd ar gael yn ystod y cyfnod CRhAP blaenorol yn Nhabl 13 isod. Disgwylir i'r lefel hon o waith cynnal a chadw gael ei chwblhau yn ystod y cynllun hwn.

| Triniaeth | Pob troedffordd a ffordd feiciau |
|---|---|
| Ailosod wyneb<br>(cynnal a chadw cywirol) | 2km (400m/bl) |

*Tabl 13 – Cynnal a Chadw Cynlluniedig ar gyfer Troedffyrdd a Ffyrdd Beiciau*

**36.6 Rhaglen Waith Flynyddol**

**36.7** Cynhelir rhaglen dreigl ar gyfer yr holl ffyrdd lle dylid ystyried cynnal a chadw. Defnyddir proses flaenoriaethu a ddogfennir yn llawlyfr cynnal a chadw priffyrdd y Cyngor i greu rhaglen waith sy'n cael ei chymeradwyo a'i chyhoeddi gan y Cyngor.

**36.8** Mae'r broses flaenoriaethu yn sicrhau bod y strategaeth yn cael ei gweithredu a bod dull wedi'i ddogfennu ar gyfer dewis pa gynlluniau sy'n cael eu cwblhau gyntaf.

**36.9** Mae maint y gwaith y manylir arno yn 36.2 a 36.5 wedi cael ei amcangyfrif ar sail y lefelau ariannu a ragwelir i gynnal lefel atgyweirio gyson ac fe'i dangosir yn Nhabl 14 isod:

DRAFT

| Math o Waith | Cyllid Blynyddol Gofynnol |
|---|---|
| Cynnal a Chadw Cynlluniedig | £160k |
| Cynnal a Chadw Rheolaidd ac Adweithiol | Wedi'i gynnwys o fewn cyllideb flynyddol gyffredinol cynnal a chadw priffyrdd o £1.3M |

*Tabl 14 – Cyllid Blynyddol Gofynnol ar gyfer Cynnal a Chadw Troedffyrdd*

DRAFFT

## 37.0 CYNNAL A CHADW GOLEUADAU STRYD

**37.1** Mae'r Cyngor yn rheoli **6,813** o lusernau ar **6,328** o golofnau fel rhan o'r ased seilwaith goleuadau stryd.

**37.2** Yn ystod y cyfnod CRhAP blaenorol, cwblhaodd y Cyngor ei gynllun i roi unedau LED modern ac effeithlon yn lle'r unedau goleuo goleuadau stryd a gosodwyd ffotogellau newydd er mwyn gallu cyflwyno trefn goleuo ymaddasol. Mae'r mesurau hyn wedi lleihau defnydd ynni'r ased goleuadau stryd i'r isafswm a ganiateir cyn ystyried gwyro oddi wrth y safonol.

**37.3 Targedau Diogelwch**

**37.4** Targedau'r Cyngor ar gyfer diffygion diogelwch goleuadau stryd yw:

| Atgyweirio Diffygion Diogelwch | Safonol |
|---|---|
| Bydd diffygion critigol yn cael eu hatgyweirio neu eu gwneud yn ddiogel o fewn | 2 awr |

**37.5** Gallai diffyg critigol fod yn gebl datguddiedig neu golofn sydd ar fin cwympo (er enghraifft, ar ôl cael ei tharo gan gerbyd). Yr ymateb safonol yw mynychu a gwneud y safle'n ddiogel o fewn 2 awr. DS. Efallai na fydd bob amser yn bosibl gwneud atgyweiriad parhaol o fewn yr amserlen hon.

**37.6 Diffygion Enghreifftiol**

**37.7** Mae'r enghreifftiau a ddangosir isod yn nodweddiadol o'r math o ddiffyg critigol a all ddigwydd gyda chyfarpar goleuadau stryd.

| | | |
|---|---|---|
|  |  |  |
| **DIFFYGION CRITIGOL** | | |

DRAFT

**37.8** Targedau'r Cyngor ar gyfer atgyweirio diffygion cynnal a chadw goleuadau stryd yw:

| Atgyweirio Diffygion Cynnal a Chadw | Safonol |
|---|---|
| Bydd diffygion cynnal a chadw (blaenoriaeth uchel – torri cyflenwad lluosog) yn cael eu cywiro o fewn | 24 awr |
| Bydd diffygion cynnal a chadw (blaenoriaeth isel – torri cyflenwad unigol) yn cael eu cywiro o fewn | 5 diwrnod |

**37.9 Cyflwr goleuadau stryd**

**37.10** Targedau'r Cyngor ar gyfer cyflwr colofnau goleuadau stryd (a fesurir gan brofion adeileddol yw):

| Targed Cyflwr Mesuredig | | Safonol |
|---|---|---|
| Canran mewn **cyflwr gwael**: bydd canran y colofnau goleuadau stryd a brofwyd y mae angen eu gwaredu ar unwaith neu eu hailbrofi o fewn blwyddyn yn cael ei chadw o dan | | 5% |
| Canran y dylid ei "**ystyried ar gyfer cynnal a chadw**": bydd canran y colofnau goleuadau stryd a brofwyd y mae angen eu hailbrofi o fewn tair blynedd yn cael ei chadw o dan | | 25% |

DRAFT

## 38.0 STRATEGAETH CYNNAL A CHADW GOLEUADAU STRYD

**38.1** Mae'r strategaeth ar gyfer goleuadau stryd yn cynnwys:

- parhau i atgyweirio namau
- buddsoddiad cyfalaf mewn ailosod colofnau a cheblau
- lleihau ynni

**38.2** **Atgyweirio namau –** Canlyniad y rhan fwyaf o ddiffygion goleuadau stryd yw golau sydd ddim yn gweithio. Mae'r diffygion yn cael eu nodi trwy gyfres o archwiliadau neu ddefnyddwyr yn rhoi gwybod i'r Cyngor trwy system CRM y Cyngor. Asesir namau ar sail y risg y maent yn ei hachosi i ddefnyddwyr, a rhoddir blaenoriaeth i'w hatgyweirio yn unol â Llawlyfr Cynnal a Chadw Priffyrdd y Cyngor.

**38.3** **Lleihau Ynni –** Ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn gweithredu rhaglen waith lleihau ynni 3 blynedd. Mae cydrannau newydd yn cael eu gosod y gellir eu defnyddio i bylu'r goleuadau i lefelau amrywiol ar adegau gwahanol o'r dydd. Mae'r mwyafrif o'r gwaith wedi cael ei gwblhau yn 2024/25. Bydd 2 flynedd olaf y rhaglen yn cael ei chwblhau fel rhan o'r CRhAP hwn oherwydd bydd angen adnewyddu rhai diwedd oes.

**38.4** **Newid Ceblau –** Mae rhaglen nodi ac ailosod ceblau goleuo yn cael ei chwblhau bob blwyddyn i leihau nifer y namau ceblau yn y dyfodol.

DRAFT

## 39.0 CRYNODEB O'R GWAITH GOLEUADAU STRYD

**39.1** Disgwylir i'r strategaeth y manylir arni uchod ei gwneud hi'n ofynnol i'r meintiau gwaith canlynol gael eu gwneud.

**39.2** Bydd y nifer a ragwelir o atgyweiriadau rheolaidd ac adweithiol yn debyg i'r blynyddoedd blaenorol gyda'r un adnoddau.

Atgyweirio tua 500 o ddiffygion goleuadau stryd bob blwyddyn

**39.3** Bydd pob diffyg yn cael ei atgyweirio ar amlder sy'n seiliedig ar adnoddau er mwyn sicrhau bod y targed ar gyfer atgyweiriadau diogelwch yn cael ei flaenoriaethu. Bydd llawer o ddiffygion cynnal a chadw yn cael eu atgyweirio fel rhan o'r atgyweiriadau i ddiffygion diogelwch er mwyn gallu gwneud defnydd llawn o adnoddau mewn unrhyw ardal benodol.

**39.4** Bydd y mesurau lleihau ynni arfaethedig yn arwain at osod tua **4000 o ffotogelloedd lleihau ynni** rhwng 2024/25 a 2026/27.

**39.5 Gwaith Cynnal a Chadw Cynlluniedig**

**39.6** Amcangyfrifir y bydd y meintiau gwaith bras canlynol yn cael eu cwblhau yn ystod cyfnod y cynllun.

| Eitem | Maint fesul blwyddyn |
|---:|:---:|
| Newid colofnau | 20 |
| Newid ceblau | 1.5km |

**39.7 Rhaglen Waith Flynyddol**

**39.8** Cynhelir rhaglen dreigl o'r holl oleuadau stryd lle dylid ystyried gwneud gwaith cynnal a chadw. Defnyddir proses flaenoriaethu a ddogfennir yn Llawlyfr Cynnal a Chadw Priffyrdd y Cyngor i greu rhaglen waith flynyddol wedi'i chymeradwyo a'i chyhoeddi gan y Cyngor.

**39.9** Mae'r broses flaenoriaethu yn sicrhau bod y strategaeth yn cael ei gweithredu a bod dull wedi'i ddogfennu ar gyfer dewis pa gynlluniau sy'n cael eu cwblhau gyntaf.

**39.10** Mae main y gwaith y manylir arnynt yn 39.2 a 39.6 wedi'i amcangyfrif ar y lefelau ariannu disgwyliedig i gynnal lefel gyson o waith atgyweirio ac fe'i dangosir yn Nhabl 15 isod:

DRAFT

| Math o Waith | 25/26 | 26/27 | 27/28 | 28/29 | 29/30 |
|---|---|---|---|---|---|
| Ffotogellau Lleihau Ynni | £10k | £10k | - | - | - |
| Newid Colofnau | £30k | £30k | £30k | £30k | £30k |
| Newid Ceblau | £105k | £105k | £105k | £105k | £105k |
| Cynnal a Chadw Rheolaidd ac Adweithiol | £400k | £400k | £400k | £400k | £400k |
| Cost Ynni # | £240k | £240k | £240k | £240k | £240k |

*Tabl 15 – Cyllid a Ragwelir ar gyfer Goleuadau Stryd*

#Bydd y gost ynni yn amrywio bob blwyddyn ond defnyddiwyd llinell sylfaen ar gyfer yr ymarfer hwn

DRAFT

**40.0 CYNNAL A CHADW PONTYDD AC ADEILEDDAU PRIFFYRDD**

**40.1** Mae'r Cyngor yn rheoli **993 o adeileddau** gan gynnwys 476 o bontydd, 3 pont droed, 354 o gylfatiau, 1 tanlwybr a 159 o waliau cynnal.

**40.2 Targedau Diogelwch**

**40.3** Targedau amser y Cyngor ar gyfer ymateb i ddiffygion adeileddol yw:

| **Atgyweirio Diffygion Diogelwch** | **Safonol** |
|---|---|
| Bydd diffygion critigol yn cael eu gwneud yn ddiogel neu mae'r ased yn cael ei gau er diogelwch y cyhoedd | **2 awr** |

**40.4 Cyflwr Pontydd ac Adeileddau**

**40.5** Targedau'r Cyngor ar gyfer cyflwr strwythurol dros gyfnod y cynllun yw:

| **Targed Cyflwr Mesuredig** | | **Safonol** |
|---|---|---|
| **Canran mewn cyflwr gwael:** canran yr adeileddau sydd â Mynegai Cyflwr Pontydd (BCI) **gwael iawn** i'w chadw o dan | | 2% |
| **Canran y dylid "ystyried ar gyfer cynnal a chadw":** canran yr adeileddau gyda Mynegai Cyflwr Pontydd (BCI) **gwael** i'w chadw o dan | | 10% |

DRAFT

## 41.0 STRATEGAETH CYNNAL A CHADW PONTYDD A ADEILEDDAU

**41.1** Mae'r strategaeth ar gyfer adeileddau priffyrdd yn cynnwys gwaith adnewyddu wedi'i dargedu ar adeileddau sydd mewn cyflwr gwael iawn neu mewn cyflwr gwael, ynghyd â threfn o waith cynnal a chadw rheolaidd ac wedi'i chynllunio i atal adeileddau eraill rhag dirywio i fod mewn cyflwr gwael.

**41.2** **Cynnal a Chadw Adweithiol –** Fel arfer bydd defnyddwyr yn rhoi gwybod i'r Cyngor am ddiffygion difrifol. Mae'r amser ymateb safonol o 2 awr ar gyfer y namau hyn yn arwain at atgyweiriadau'n cael eu gwneud ar frys.

**41.3** Disgwylir i atgyweiriadau adweithiol barhau ar y lefelau presennol trwy gydol cyfnod y cynllun hwn.

**41.4** **Cynnal a Chadw Rheolaidd –** Mae gwaith cynnal a chadw rheolaidd yn waith "cadw tŷ da" sy'n fach o ran graddfa a chost ond sy'n angenrheidiol er mwyn atal angen gwneud atgyweiriadau mwy costus yn y dyfodol. Mae gwaith nodweddiadol yn cynnwys cael gwared ar lystyfiant, glanhau draeniau, mân waith ailbwyntio, mân atgyweiriadau concrit ac ati.

**41.5** **Cynnal a Chadw Cynlluniedig –** Mae'r Cyngor wedi nodi'r canlynol:

- 8 adeiledd sydd angen eu cryfhau
- 81 o adeileddau mewn cyflwr gwael iawn sydd angen gwaith adnewyddu mawr
- 242 o adeileddau mewn cyflwr gwael sydd angen mân waith adnewyddu.

**41.6** Y strategaeth yw rhoi sylw i'r rhai sydd angen eu cryfhau a'r rhai sydd mewn cyflwr gwael iawn o fewn y cynllun hwn. Bydd hyn yn cynnwys amrywiaeth o driniaethau o newid cydrannau gan gynnwys cynalyddion a chwyddgymalau i atgyweiriadau cyffredinol.

**41.7** Mae'r gofynion unigol ar gyfer pob adeiledd yn y rhaglen yn amrywio o ran y cam paratoi a gwneud y gwaith. Y sefyllfa ddelfrydol fydd cwblhau'r adeileddau yn nhrefn blaenoriaeth ond mae bron yn sicr y bydd oedi. Y dull mwyaf priodol fydd sicrhau bod yr holl adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithlon i gwblhau'r gwaith o fewn cyfnod y cynllun.

DRAFT

## 42.0 CRYNODEB O'R GWAITH AR BONTYDD AC ADEILEDDAU

**42.1** Rhagwelir y bydd y strategaeth a nodir uchod yn ei gwneud hi'n ofynnol i gyflawni'r canlynol dros gyfnod llawn y CRhAP.

**42.2** **Rhaglen Waith Flynyddol –** Bydd rhaglen o adeileddau sydd angen gwaith cryfhau a/neu adnewyddu yn cael ei nodi bob blwyddyn i'w gwblhau yn ystod y cynllun hwn. Bydd y gwaith yn blaenoriaethu adeileddau gwael a gwael iawn.

**42.3** Er mwyn gwneud y maint o waith a fanylir, bydd angen y symiau o arian amcangyfrifedig canlynol yn flynyddol.

| Math o Waith | Cyllid Blynyddol Gofynnol |
|---|---|
| Cynnal a Chadw Cynlluniedig a Rheolaidd | £636k |
| Cynnal a Chadw Adweithiol | Wedi'i gynnwys o fewn cyllideb flynyddol gyffredinol cynnal a chadw priffyrdd o £1.3M |

DRAFT

**43.0 CYNNAL A CHADW GOLEUADAU TRAFFIG**

**43.1** Mae'r Cyngor yn rheoli 8 set o oleuadau traffig, 1 gyffordd a 7 croesfan cerddwyr.

**43.2 Targedau Diogelwch**

**43.3** Targedau amser y Cyngor ar gyfer ymateb i ddiffygion diogelwch yw:

| Atgyweirio Diffygion Diogelwch | Safonol |
|---|---|
| Bydd diffygion critigol yn cael eu gwneud yn ddiogel o fewn | **2 awr** |

**43.4 Cyflwr Goleuadau Traffig**

**43.5** Targedau'r Cyngor ar gyfer cyflwr goleuadau traffig dros gyfnod y cynllun yw:

| Atgyweirio Diffygion Cynnal a Chadw | Safonol |
|---|---|
| Bydd diffygion cynnal a chadw (blaenoriaeth uchel) yn cael eu cywiro o fewn | 24 awr |
| Bydd diffygion cynnal a chadw (blaenoriaeth isel) yn cael eu cywiro o fewn | 5 diwrnod |

DRAFT

## 44.0 STRATEGAETH CYNNAL A CHADW GOLEUADAU TRAFFIG

**44.1** Nod y strategaeth cynnal a chadw goleuadau traffig yw sicrhau bod yr holl oleuadau traffig yn gweithredu 99% o'r amser a bod yr holl offer yn parhau i fod mewn cyflwr diogel.

**44.2** Dim ond ar ôl iddynt ddarfod y caiff gosodiadau eu newid oherwydd eu bod wedi cyrraedd diwedd eu hoes neu oherwydd difrod allanol

**44.3** **Cynnal a Chadw Rheolaidd a Chynlluniedig** – Rhagwelir dros y pum mlynedd nesaf y bydd y gwaith ar yr ased goleuadau traffig yn cael ei gyfyngu i archwiliadau rheolaidd a chynnal a chadw adweithiol yn unig. Yn ystod y cynllun bydd angen newid y groesfan cerddwyr un signal.

**44.4** Mae maint y gwaith a nodir uchod wedi cael ei amcangyfrif ar sail y lefelau ariannu a ragwelir i gynnal lefel sefydlog o waith atgyweirio ac fe'i dangosir isod.

| Math o Waith | Cyllid Blynyddol Gofynnol |
|---|---|
| Cynnal a Chadw Cynlluniedig | £20k |
| Cynnal a Chadw Rheolaidd ac Adweithiol | £14k |

DRAFT

## 45.0 RISGIAU I'R CYNLLUN

**45.1** Y risgiau a allai atal cyflawni'r safonau a nodir yn y cynllun hwn yw:

| Rhagdybiaeth y Cynllun | Risg | Camau i'w cymryd os bydd risg |
|---|---|---|
| Mae'r cynllun yn seiliedig ar gael gaeaf arferol. | Bydd tywydd garw yn creu lefelau uwch o ddiffygion a dirywiad nag a ddarparwyd ar ei gyfer. | Caiff cyllidebau a rhagfynegiadau eu hadolygu a chaiff y cynllun hwn ei ddiweddaru os bydd gaeafau anarferol o galed. |
| Mae'r cynllun yn seiliedig ar dywydd tymhorol arferol. | Bydd tywydd garw yn creu lefelau uwch o ddiffygion a dirywiad nag a ddarparwyd ar ei gyfer. | Bydd cyllidebau a rhagfynegiadau yn cael eu hadolygu a'r cynllun hwn yn cael ei ddiweddaru os bydd tywydd anarferol o anffafriol (e.e. llifogydd). |
| Mae'r cyllidebau sydd ar gael wedi'u rhagdybio fel y dangosir yn adrannau 31.0 i 44.0. | Mae pwysau allanol yn golygu bod y llywodraeth yn lleihau'r cyllid sydd ar gael ar gyfer ffyrdd. | Bydd Adroddiadau Blynyddol ar Statws ac Opsiynau yn pennu'r gyllideb sydd ei hangen i gynnal asedau ar y lefelau gwasanaeth y cytunwyd arnynt. Os nad yw'r cyllidebau hyn yn ddigonol ni fydd y lefel hon o safon gwasanaeth y cytunwyd arni yn gyraeddadwy. Bydd y targedau ar gyfer safonau gwasanaeth yn cael eu hargymell i'w hadolygu i lefelau fforddiadwy. |

DRAFT

| | | |
|---|---|---|
| Bydd chwyddiant adeiladu yn parhau ar lefel debyg i'r 5 mlynedd diwethaf. | Bydd chwyddiant adeiladu yn cynyddu cost gwaith (yn enwedig costau olew gan eu bod yn effeithio ar gost deunyddiau wyneb ffyrdd). | Bydd Adroddiadau Blynyddol ar Statws ac Opsiynau yn pennu'r gyllideb sydd ei hangen i gynnal asedau ar y lefelau gwasanaeth y cytunwyd arnynt. Os nad yw'r cyllidebau hyn yn ddigonol ni fydd y lefel hon o safon gwasanaeth y cytunwyd arni yn gyraeddadwy. Bydd y targedau ar gyfer safonau gwasanaeth yn cael eu hargymell i'w hadolygu i lefelau fforddiadwy. |
| Mae lefelau diffygion a dirywiad yn seiliedig ar ddata cyfredol sy'n gyfyngedig ar gyfer rhai asedau (e.e. troedffyrdd). | Asedau'n dirywio'n gyflymach na'r disgwyl ac mae'r buddsoddiad sydd ei angen i gwrdd â thargedau yn annigonol. | Bydd y rhaniad rhwng cyllidebau cynnal a chadw cynlluniedig ac adweithiol yn cael eu hadolygu. |

DRAFT

DRAFFT

# ATODIAD A

**ATODIAD A: DARNAU O DDEDDF PRIFFYRDD 1980**

**45.2** Fel yr Awdurdod Priffyrdd, mae'r Cyngor yn ddarostyngedig i ofynion cyfreithiol sy'n cynnwys:

**Deddf Priffyrdd 1980**

- *Adran 41;* cynnal y ffyrdd, y troedffyrdd a'r llwybrau beicio hynny sy'n 'priffyrdd i'w cynnal ar draul y pwrs cyhoeddus'.
- *Adran 58;* mae'n datgan y darperir amddiffyniad statudol yn erbyn hawliadau trydydd parti lle gall yr Awdurdod Priffyrdd gadarnhau bod gofal rhesymol wedi cael ei gymryd i 'wneud yn ddiogel y rhan o'r briffordd y mae'r weithred yn ymwneud ag ef' i lefel sy'n gymesur â maint arferol y traffig fel 'nad oedd yn beryglus i draffig'.

**45.3 Adran 58: Rhoi amddiffyniad arbennig ar waith yn erbyn awdurdod priffyrdd am iawndal am beidio â thrwsio priffyrdd**

*(1) In an action against a highway Authority in respect of damage resulting from their failure to maintain a highway maintainable at the public expense it is a defence (without prejudice to any other defence or the application of the law relating to contributory negligence) to prove that the Council had taken such care as in all the circumstances was reasonably required to secure that the part of the highway to which the action relates was not dangerous for traffic.*

*(2) For the purposes of a defence under subsection (1) above, the court shall in particular have regard to the following matters:—*

*a) the character of the highway, and the traffic which was reasonably to be expected to use it;*
*b) the standard of maintenance appropriate for a highway of that character and used by such traffic;*
*c) the state of repair in which a reasonable person would have expected to find the highway;*
*d) whether the highway Authority knew, or could reasonably have been expected to know, that the condition of the part of the highway to which the action relates was likely to cause danger to users of the highway;*
*e) where the highway Authority could not reasonably have been expected to repair that part of the highway before the cause of action arose, what warning notices of its condition had been displayed;*

DRAFT

*but for the purposes of such a defence it is not relevant to prove that the highway Authority had arranged for a competent person to carry out or supervise the maintenance of the part of the highway to which the action relates unless it is also proved that the Council had given him proper instructions with regard to the maintenance of the highway and that he had carried out the instructions.*

*The New Roads & Street Works Act 1991 imparts a duty on Statutory Undertakers to maintain their apparatus in the Highway, but it has been established in Case Law that they can rely on the Highway Authority's Safety Inspection regime to some extent when defending Claims.*

*The Council can avoid being held jointly liable for defective apparatus by issuing a Section 81 Notice – New Roads & Street Works Act 1991 to the Utility Company whenever a defect is identified by the Council within the Highway*

DRAFT

# ATODIAD B

DRAFT

## ATODIAD B: CATEGORÏAU HIERARCHAETH ASEDAU

| Cerbytffyrdd | | |
|---|---|---|
| **Categori Newydd** | **Categori Blaenorol** | **Band Maint Traffig (brasamcan)** |
| CHSR | Llwybr Strategol | Yn seiliedig ar bwysigrwydd lleol yn hytrach na llif traffig ond yn aml yn yr ystod >20,000 [30,000 ar gyfer cyfrifiadau] |
| CH1 | Prif Ddosbarthu | 10,000 – 20,000 |
| CH2 | Dosbarthu Eilaidd | 5,000 – 10,000 |
| CH3 | Ffordd Gyswllt | 1,000 – 5,000 |
| CH4 | Ffordd Fynediad Leol | 200 – 1,000 |
| CH5 | Is-Ffordd | <200 |

| Troedffyrdd | | |
|---|---|---|
| **Categori Newydd** | **Categori Blaenorol** | **Lefel nifer y defnyddwyr (dangosol)** |
| FHVHU | Ardal i Gerddwyr Canol y Ddinas | >10,000 (15,000 yn cael eu defnyddio ar gyfer cyfrifiadau) |
| FH1 | Ardal i Gerddwyr Canol y Dref | 5,000 – 10,000 |
| FH2 | Troedffordd y Tu Allan i Gyfleusterau Cyhoeddus | 1,000 – 5,000 |
| FH3 | Troedffordd Gyswllt (rhwng ystadau/ardaloedd) | 500 – 1,000 |
| FH4 | Troedffordd Stad Tai | < 500 |
| FH5 | Troedffordd Wledig Heb lawer o Ddefnydd | < 100 |

| Ffyrdd Beiciau | | |
|---|---|---|
| **Categori** | **Enw Categori** | **Disgrifiad** |
| A | Lôn Feiciau | Lôn sy'n rhan o'r gerbytffordd, llain wrth ymyl y cwrb agosaf fel arfer |
| B | Trac Beiciau | Llwybr priffordd i feicwyr nad yw'n cydgyffwrdd â'r droedffordd gyhoeddus neu'r gerbytffordd. Llwybrau cyd-ddefnyddio i feicwyr a cherddwyr, naill ai wedi'u gwahanu gan linell wen neu wahaniad ffisegol arall, neu heb ei wahanu. |
| C | Llwybrau Beiciau | Llwybrau hamdden trwy fannau agored. |

DRAFT

DRAFFT

# ATODIAD C

## ATODIAD C: AMLDER ARCHWILIADAU

Dangosir amlder archwiliadau rheolaidd yn y tablau canlynol ynghyd â safonau lleiaf a argymhellir Cymdeithas Syrfewyr Sirol Cymru:

| **Cerbytffyrdd: Amlder Archwilio Rheolaidd** | | |
|---|---|---|
| **Hierarchaeth Cerbytffyrdd** | **Cyfnod Archwilio CSC** | **Safonau Lleiaf a Argymhellir Cymdeithas Syrfewyr Sirol Cymru** |
| CHSR | Yn fisol | Yn fisol |
| CH1 | Yn fisol | Yn fisol |
| CH2 | Bob 3 mis | Bob 3 mis |
| CH3 | Bob 6 mis | Bob 6 mis |
| CH4 | Blynyddol | Yn flynyddol (cyflwr gwael neu anhysbys) |
| | | Bob 2 flynedd (cyflwr da) |
| CH5 | Adweithiol | Adweithiol yn unig |

| **Amlder Archwiliadau Troedffyrdd Rheolaidd** | | | |
|---|---|---|---|
| **Hierarchaeth Troedffyrdd** | **Cyfnod Archwilio CSC** | **Dull Archwilio** | **Safonau Lleiaf a Argymhellir Cymdeithas Syrfewyr Sirol Cymru** |
| FHVHU | Yn fisol | Ar droed | Yn fisol |
| FH1 | Yn fisol | Ar droed | Yn fisol |
| FH2 | Yn fisol | Ar droed | Bob 3 mis |
| FH3 | Bob 3 mis | Ar droed | Bob 6 mis |
| FH4 | Yn flynyddol | Ar droed | Yn flynyddol (cyflwr gwael neu anhysbys) |
| | | | Bob 2 flynedd (cyflwr da) |
| FH5 | Adweithiol | Ar droed | Adweithiol |

Lle caiff cerbytffyrdd a throedffyrdd cyfagos eu harchwilio yn ystod yr un archwiliad defnyddir y lefel amlder uwch.

| **Llwybrau Beicio: Amlder Archwilio Rheolaidd** | |
|---|---|
| **Hierarchaeth Llwybrau Beicio** | **Cyfnod Archwilio CSC** |
| A | Fel ar gyfer ffyrdd |
| B | Bob 6 mis |
| C | Bob 6 mis |

DRAFT

DRAFFT

# ATODIAD Ch

**ATODIAD Ch: MATHAU O DDIFFYGION A LEFELAU YMYRRAETH**

**45.4** Mae'r canlynol yn rhestr o fathau o ddiffygion a lefelau ymyrraeth a ddefnyddir yn y Cyngor.

**Diffygion Critigol**

| Math o Ased | Diffyg | Hierarchaeth | Dyfnder/ Uchder | Maint | Amser Ymateb |
|---|---|---|---|---|---|
| **Pob un** | **Enghreifftiau:** Gweddillion neu ollyngiadau mawr ar y briffordd; Cerbytffordd / troedffordd / ffordd feicio wedi cwympo gyda risg uchel o ddamweiniau / colli rheolaeth;<br>Gwifrau uwchben, coed neu adeileddau ansefydlog critigol;<br>Gwifrau byw datguddiedig; Dŵr llonydd ynysig gyda risg uchel o golli rheolaeth; Gwaith haearn coll neu ddiffygiol iawn gyda thebygolrwydd uchel o anaf i ddefnyddwyr priffyrdd | Pob un | Amherthnasol. Mae diffygion critigol yn cael eu diffinio gan eu potensial i achosi anaf uniongyrchol nid gan faint y diffyg. | | 2 awr |

DRAFT

## Diffygion Diogelwch

| Math o Ased | Math o Ddiffyg | Hier-archaeth | Meini Prawf Dimensiwn CSC | Safonau Gofynnol Cenedlaethol Cymdeithas Syrfewyr Sirol Cymru | | Amser Ymateb |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Dyfnder/Uchder | Dyfnder/Uchder | Maint | |
| Cerbytffyrdd | Pob un | CHSR, CH1 a CH2 | >50mm | > 50mm | Dimensiwn llorweddol mwyaf yn fwy na 150mm | Erbyn diwedd y diwrnod calendr nesaf |
| | Pob un | CH3, CH4 a CH5** | >75mm | >75mm | Dimensiwn llorweddol mwyaf yn fwy na 150mm | O fewn 5 diwrnod calendr |

** Ystyrir bod sbardunau diffygion ar ffyrdd CH5 ar lefel ymchwiliol

## Diffygion Cynnal a Chadw

| Math o Ased | Math o Ddiffyg | Hier-archaeth | Meini Prawf Dimensiwn CSC | Safonau Gofynnol Cenedlaethol Cymdeithas Syrfewyr Sirol Cymru | | Amser Ymateb |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Dyfnder/Uchder | Dyfnder/Uchder | Maint | |
| Cerbytffyrdd | Pob un | CHSR, CH1 a CH2 | > 40mm | > 40mm | Dimensiwn llorweddol mwyaf yn fwy na 150mm | 1 mis |
| | Pob un | CH3, CH4 a CH5** | >50mm | >50mm | Dimensiwn llorweddol mwyaf yn fwy na 150mm | 3 mis |

** Ystyrir bod sbardunau diffygion ar ffyrdd CH5 ar lefel ymchwiliol

DRAFT

# ATODIAD D

DRAFFT

## ATODIAD D: ATAL ARCHWILIAD DIOGELWCH FFYRDD

**CYNGOR SIR CEREDIGION COUNTY COUNCIL**

**Gwasanaeth Priffyrdd ac Amgylcheddol**
**Highways and Environmental Services**

**GOHIRIO ARCHWILIADAU DIOGELWCH Y FFYRDD SIROL**
**SUSPENSION OF HIGHWAY SAFETY INSPECTION**

| | | |
|---|---|---|
| **Cyfnod y gohiriad:**<br>*Period of suspension:* | **O**<br>*From* | **Hyd**<br>*To* |
| **Rheswm am y gohiriad:**<br>*Reason for suspension:* | | |

**Rhoddir awdurdod i ohirio'r archwiliadau diogelwch ffyrdd sirol dros y cyfnod a nodir am y rhesymau a roddir uchod.**
*The suspension of highway safety inspections is duly authorised for the period noted due to the reasons given above.*

| | |
|---|---|
| **Corfforaethol – Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol**<br>*Corporate Lead Officer - Highways and Environmental Services* | **Dyddiad**<br>*Date* |
| | |
| **Aelod Cabinet**<br>*Cabinet Member* | **Dyddiad**<br>*Date* |
| | |

DRAFFT

# ATODIAD Dd

**ATODIAD Dd: COD YMARFER AR GYFER ARCHWILIADAU DIOGELWCH FFYRDD SIROL A'R YMATEB 2021**

**45.5 CYFLWYNIAD**

**45.6 Deddfwriaeth**

Mae gan Gyngor Sir Ceredigion fel yr Awdurdod Priffyrdd ddyletswydd statudol i gynnal a chadw ei briffyrdd fel yr amlinellir yn Neddf Priffyrdd 1980.

Yn arbennig, mae Adran 41 yn gosod dyletswydd i gynnal priffyrdd y gellir eu cynnal ar draul y pwrs cyhoeddus. Nid oes diffiniad yn y Ddeddf ar gyfer lefel y gwaith cynnal a chadw sy'n ofynnol er bod codau cenedlaethol wedi cael eu cynhyrchu i gynnig rhywfaint o arweiniad. Mae'r ddogfen, "Seilwaith Priffyrdd wedi'i Reoli'n Dda: Cod Ymarfer (Hydref 2016)" a luniwyd gan y Grŵp Cyswllt Ffyrdd, yn gwneud argymhellion ar gyfer arolygon ac arolygiadau o'r rhwydwaith priffyrdd mabwysiedig, ac eithrio lle mae cyfyngiadau neu alwadau lleol wedi gwneud datrysiadau lleol yn ofynnol.

Mae Adran 58 o Ddeddf Priffyrdd 1980 yn darparu amddiffyniad arbennig i'r Awdurdod Priffyrdd Lleol:

> *"58 Special defence in action against a highway Authority for damages for non-repair of highway.*
>
> *(1) In an action against a highway Authority in respect of damage resulting from their failure to maintain a highway maintainable at the public expense it is a defence (without prejudice to any other defence or the application of the law relating to contributory negligence) to prove that the Council had taken such care as in all the circumstances was reasonably required to secure that the part of the highway to which the action relates was not dangerous for traffic."*

**45.7 Bwriad y Ddogfen hon**

Mae'r Cod Ymarfer Cymeradwy ar gyfer Archwiliadau Diogelwch ar Ffyrdd Sirol a'r Ymateb ar gyfer Cyngor Sir Ceredigion yn amlinellu'r polisi a'r safon ar gyfer cynnal archwiliadau o'r rhwydwaith priffyrdd mabwysiedig. Fe'i cynlluniwyd i'w ddefnyddio gan staff sy'n cynnal archwiliadau o'r priffyrdd ac mae'n rhan o'r Llawlyfr Cynnal a Chadw Priffyrdd cyffredinol. Nodir lefelau ymyrraeth ar gyfer y rhan fwyaf o amgylchiadau, ond bydd bob amser disgwyl i staff archwilio arddel barn gan na ellir ymdrin â phob posibilrwydd. Prif nod y Cod yw sicrhau bod manylion archwilio, diffygion ac atgyweiriadau a awgrymir yn cael eu hasesu a'u cofnodi'n gywir, ynghyd â manylion dilynol am yr atgyweiriadau gwirioneddol a wnaed. Rhaid i bawb sy'n ymwneud â'r broses

DRAFT

hon fod yn gyfarwydd â chynnwys y ddogfen hon er mwyn sicrhau dealltwriaeth gyson.

Mae Gwasanaethau Priffyrdd y Cyngor yn cynnal archwiliadau diogelwch o'r rhwydwaith cyhoeddus yng Ngheredigion. Diben hyn yw sicrhau, cyn belled ag y bo'n rhesymol, bod cerbytffyrdd, troedffyrdd ac asedau dynodedig eraill sy'n cael eu cynnal a'u cadw'n gyhoeddus yn ddiogel i ddefnyddwyr priffyrdd.

Mae gweithredu trefn archwilio a chynnal a chadw ffurfiol, cyn belled ag y bo'n rhesymol, ar gyfer y rhwydwaith ac asedau eraill, yn darparu amddiffyniad i'r Cyngor o dan Adran 58 o Ddeddf Priffyrdd 1980 yn erbyn hawliadau a wneir am iawndal o ganlyniad i ddigwyddiadau ar y briffordd gyhoeddus.

**45.8 STATWS Y COD**

**45.9** Mae'n arfer da i fonitro ac adolygu'n rheolaidd effeithiolrwydd, perthnasedd a chydymffurfiaeth Cod Ymarfer y Cyngor. Mae'r adolygiad hwn o God 2010 wedi ei ysgogi a'i lywio gan gyhoeddiad ym mis Hydref 2016 o'r ddogfen ganllaw "Cod Ymarfer: Seilwaith Priffyrdd wedi'i Reoli'n Dda". Er nad oes unrhyw ofyniad i fabwysiadu'r canllawiau hyn, diben y cod yw annog arferion gorau o ran cynnal a chadw a rheoli priffyrdd.

Yng nghyhoeddiad 2016 y newid mwyaf arwyddocaol o'r cod blaenorol oedd argymhelliad y dylai awdurdodau fabwysiadu dull seiliedig ar risg, er na roddwyd unrhyw fanylion ynghylch sut i gyflawni hyn. Gweithiodd Cymdeithas Syrfewyr Sirol Cymru i ddatblygu ymateb cyson cenedlaethol trwy lunio methodoleg a fyddai'n caniatáu i awdurdodau, trwy ei mabwysiadu, elwa ar weithio i safon genedlaethol. Mae Gwasanaethau Priffyrdd Cyngor Sir Ceredigion wedi defnyddio'r fethodoleg hon wrth ddatblygu Cod 2021 y Cyngor.

Bydd y ddogfen hon yn cadarnhau y bydd Cyngor Sir Ceredigion yn derbyn egwyddorion Cod 2016 sy'n caniatáu ar gyfer amrywiadau lleol. Nodir rhai egwyddorion yn y ddogfen hon sy'n ymdrin yn benodol ag Archwiliadau Diogelwch Priffyrdd.

Er bod y llysoedd yn derbyn na all priffordd gyhoeddus fyth fod mewn cyflwr perffaith bob amser, rhaid i'r Awdurdod Priffyrdd ddangos ei fod yn cyflawni ei gyfrifoldebau mewn modd rhesymol. Mae trefn archwilio ddigonol yn rhan hanfodol o'r gofyniad hwnnw.

**45.10 Adolygu**

**45.11** Caiff y ddogfen hon ei hadolygu'n rheolaidd ar lefel weithredol yn unol ag ymrwymiad y Cyngor Sir i broses o welliant parhaus. Caiff y ddogfen hon ei

DRAFT

hadolygu i gofnodi newidiadau i safonau gwasanaeth neu weithredu unrhyw safonau a pholisïau gwasanaeth sydd newydd eu diffinio, gan gynnwys data ychwanegol ar faint traffig rhwydwaith.

Bydd adolygiadau risg sy'n casglu data priodol yn cael eu cynnal o bryd i'w gilydd a'u defnyddio i lywio gwelliannau i'r hierarchaeth, y trefniadau archwilio ac atgyweirio.

**45.12 AMCANION**

**45.13** Mae'r "Seilwaith Priffyrdd wedi'i Reoli'n Dda: Cod Ymarfer (Hydref 2016)" yn nodi'r mathau o archwiliadau priffyrdd y dylid eu cynnal er mwyn rhoi sylw i dri amcan allweddol strategaeth cynnal a chadw priffyrdd.

1) Diogelwch y Rhwydwaith – Sicrhau cydymffurfiaeth â rhwymedigaethau statudol.
2) Defnyddioldeb y Rhwydwaith – Sicrhau argaeledd, cyfanrwydd a dibynadwyedd.
3) Cynaliadwyedd y Rhwydwaith – Sicrhau'r gwerth gorau i'r gymuned.

Mae'r ddogfen hon, "Cod Ymarfer Cyngor Sir Ceredigion: Archwiliadau Diogelwch ar Ffyrdd Sirol a'r Ymateb", yn ymdrin yn benodol ag Amcan 1, Diogelwch y Rhwydwaith, ac yn diweddaru'r cod ymarfer blaenorol "Cod Ymarfer ar gyfer Archwiliadau Diogelwch ar Ffyrdd Sirol" 2010.

Mae Cynllun Rheoli Asedau Priffyrdd Cyngor Sir Ceredigion yn darparu'r fframwaith strategol y mae'r Cyngor wedi'i fabwysiadu ac yn cysylltu â nodau ac amcanion corfforaethol y Cyngor.

Yr amcan corfforaethol cyffredinol sy'n ymwneud â chynnal a chadw priffyrdd yw darparu ffyrdd mwy diogel a gwell er mwyn cael mynediad at wasanaethau, cyflogaeth a thwristiaeth.

Bydd Cyngor Sir Ceredigion, fel Cyngor lleol ar gyfer priffyrdd i'w gynnal draul y pwrs cyhoeddus o fewn ei ffiniau, yn cymryd camau rhesymol i sicrhau bod y priffyrdd hyn yn ddiogel, ac wrth gyflawni ei ddyletswyddau bydd yn cynnal:

1) Archwiliadau rheolaidd o'r priffyrdd i'w cynnal ar draul y pwrs cyhoeddus
2) Archwiliadau ad-hoc adweithiol ychwanegol mewn ymateb i geisiadau gwasanaeth neu ymholiadau a dderbyniwyd am gyflwr y briffordd a gynhelir
3) Archwiliadau yn unol â'r cod ymarfer hwn

Nod archwiliadau diogelwch yw cofnodi 'diffygion' o fewn y briffordd er mwyn i drefn cynnal a chadw allu cynnal y briffordd mewn cyflwr diogel ar gyfer

DRAFT

defnyddwyr. Cyflawnir hyn trwy gynnal archwiliadau rheolaidd, nodi unrhyw ddiffygion sy'n bresennol, a rhoi sgôr blaenoriaeth iddynt gael eu cywiro yn unol â'r canllawiau yn y Cod hwn.

Dylid cymhwyso pob elfen o'r drefn archwiliadau ac asesu yn systematig ac yn gyson. Mae hyn yn arbennig o bwysig yn achos diogelwch y rhwydwaith, lle gallai gwybodaeth fod yn hanfodol mewn achosion cyfreithiol.

**45.14 HYFFORDDIANT A DATBLYGU**

**45.15** Mae Cyngor Sir Ceredigion wedi ymrwymo i ddatblygu a hyfforddi staff yn barhaus.

Mae'n bwysig bod pawb sy'n ymwneud â'r broses o gynnal a chadw priffyrdd yn deall maint a natur rhwymedigaethau cyfreithiol Cyngor Sir Ceredigion, fel yr Awdurdod Priffyrdd Lleol, ar gyfer cynnal a chadw priffyrdd, a sut mae'r rhain yn berthnasol i'w cyfrifoldebau penodol, gan gynnwys y gwahaniaeth pwysig rhwng dyletswyddau a phwerau.

Deellir felly ar gyfer pob elfen o strategaeth cynnal a chadw'r Cyngor y bydd y rhai sy'n ymwneud â'r broses wedi derbyn hyfforddiant i'w galluogi i ddangos y lefel angenrheidiol o gymhwysedd.

Bydd y Cyngor yn darparu'r hyfforddiant angenrheidiol gan gyrff mewnol ac allanol i sicrhau y darperir cefnogaeth i gynnal cymhwysedd o'r fath. O'u penodi, bydd holl Archwilwyr Priffyrdd Ceredigion yn cymryd rhan yn y rhaglen sefydlu a hyfforddi fewnol. Dilynir hyn gan hyfforddiant allanol ffurfiol a chymhwyster proffesiynol. Darperir hyfforddiant pellach fel y bo'n briodol i sicrhau datblygiad proffesiynol parhaus.

Mae holl Archwilwyr Priffyrdd Ceredigion wedi'u hyfforddi i safon City and Guilds 6033 – uned 301 a 311. Bydd hyfforddiant ychwanegol yn cael ei ddarparu i sicrhau cydymffurfiaeth â'r cod newydd, gan gynnwys unrhyw Gynllun Cymhwysedd neu Achrediad Archwilwyr Priffyrdd rhanbarthol neu genedlaethol.

UNED 301: IECHYD A DIOGELWCH

- Darparu hyfforddiant iechyd a diogelwch sylfaenol priodol i archwilwyr priffyrdd gan eu dysgu sut i gynnal asesiad risg sylfaenol a'u cynorthwyo i weithio'n ddiogel ar y briffordd.

UNED 311 – ARCHWILIO PRIFFYRDD – TECHNEGOL

- Ar gyfer y rhai sy'n cynnal archwiliadau priffyrdd ym mlwyddyn gyntaf eu penodiad ac fel cwrs gloywi defnyddiol i archwilwyr priffyrdd mwy

DRAFT

profiadol. Mae'r cwrs yn rhoi gwybodaeth sylfaenol dda ar gyfer pob maes cynnal a chadw ac archwilio priffyrdd y gallent weithio ynddo.

**45.16 RHEOLI RISG**

**45.17** Mae'r "Cod Ymarfer: Seilwaith Priffyrdd wedi'i Reoli'n Dda (Hydref 2016)" yn argymell bod awdurdodau'n defnyddio dull seiliedig ar risg ar gyfer rheoli priffyrdd. Wrth wneud hynny rhaid i awdurdodau gydnabod y ffaith bod risg yn amrywio ar draws yr ased a rhwng grwpiau asedau. Mae rheolwyr bob amser wedi ystyried risg wrth wneud penderfyniadau am archwiliadau, blaenoriaethau atgyweirio a rhaglennu gwaith. Mae'r cod newydd yn cynnwys yr angen i ffurfioli penderfyniadau o'r fath a sicrhau bod pob penderfyniad, cyn belled ag y bo modd, yn seiliedig ar ffeithiau, a bod y sail resymol dros y penderfyniadau hyn yn cael eu cofnodi.

**45.18 DIOGELWCH Y RHWYDWAITH – ARCHWILIADAU DIOGELWCH**

**45.19** Mae archwiliadau diogelwch yn nodi'r holl ddiffygion a welwyd sy'n debygol o greu perygl neu anghyfleustra difrifol i ddefnyddwyr y rhwydwaith neu'r gymuned ehangach. Dylai diffygion o'r fath gynnwys y rhai sydd angen sylw brys yn ogystal â'r rhai lle mae'r lleoliad a'r maint yn golygu y byddai cyfnodau ymateb hwy yn briodol.

Bydd archwiliadau diogelwch yn cael eu cynnal fel arfer gan gerbyd sy'n symud yn araf ac yn teithio ar gyflymder uchaf o 20mya. Caiff archwiliadau diogelwch ar droed eu cynnal lle a phryd y bo'n briodol. Bydd y dull archwilio ar gyfer pob lleoliad, naill ai ar droed neu trwy gyfrwng cerbyd sy'n symud yn araf, yn cael ei ddylanwadu gan asesiad risg o'r lleoliad.

Yn gyffredinol, mae'r archwiliadau diogelwch priffyrdd yn cael eu cynnal gan archwilwyr un gyrrwr. Mae eithriadau'n cynnwys lleoliadau trefol a'r rhai lle mae asesiadau risg wedi dangos bod angen cynnal archwiliadau ar droed. Adolygir y dull arolygu er mwyn adlewyrchu canllawiau arferion gwaith cenedlaethol a chyngor/canllawiau iechyd a diogelwch.

Efallai y bydd angen archwiliadau ychwanegol mewn ymateb i bryder gan ddefnyddwyr neu'r gymuned o ganlyniad i ddigwyddiadau neu amodau tywydd eithafol, neu yn sgìl gwybodaeth fonitro. Caiff y rhain eu nodi trwy'r broses rheoli risg. Y paramedrau y mae'n rhaid cadw atynt yw:

- Amlder archwilio
- Eitemau i'w harchwilio
- Maint y diffyg

DRAFT

- Natur yr ymateb

**45.20 ARCHWILIADAU AD-HOC (CEISIADAU AM WASANAETH)**

**45.21** Mae archwiliadau ad-hoc i'w cynnal er mwyn nodi unrhyw waith cynnal a chadw gofynnol yn dilyn ceisiadau am wasanaeth gan y cyhoedd neu drydydd parti. Mae'r rhain yn cael eu trosglwyddo i'r arolygiaeth trwy System Rheoli Asedau Seilwaith y gwasanaeth, sef Symology Insight. Rhoddir blaenoriaeth i'r cais gan y ganolfan alwadau gorfforaethol ar gyfer ymateb/archwiliad/ymchwiliad. Dylid archwilio'r holl ddiffygion yr adroddir amdanynt o fewn yr amser a neilltuwyd ar ôl eu derbyn, oni bai eu bod eisoes yn hysbys i'r archwiliwr a'u bod wedi'u cofnodi'n flaenorol ar system Insight y Cyngor i'w cywiro ar sail blaenoriaeth.

Mae pob archwiliad ad-hoc yn cael ei gofnodi ar ddyfais symudol. Mae unrhyw ddiffygion a nodir sy'n dod o fewn y meini prawf ymyrraeth rhagnodedig yn cael eu cofnodi ar gronfa ddata diffygion Insight gyda chyfarwyddiadau i'w gwneud yn ddiogel a/neu eu hatgyweirio o fewn amserau ymateb rhagnodedig.

Anfonir diffygion Categori 1 yn awtomatig at y tîm gwaith perthnasol.

**45.22** **Sylwer –** Gall gwaith haearn sydd ar goll neu wedi'i ddifrodi fod yn gyfrifoldeb cwmni cyfleustodau. O dan yr amgylchiadau hyn bydd yr Archwiliwr Diogelwch Priffyrdd yn rhoi manylion y diffyg ar system rheoli asedau'r Cyngor gyfer gweithredu gan adran Gwaith Stryd y Cyngor a fydd yn rheoli unrhyw ddiffyg gweithredu gan y cwmni cyfleustodau.

Os bydd aelod o'r cyhoedd yn rhoi gwybod am ddiffygion o'r fath i'r ganolfan alwadau gorfforaethol, cânt eu cofnodi a'u hanfon ymlaen at yr Archwiliwr Gwaith Stryd perthnasol a fydd yn cysylltu â'r ymgymerwr cyfleustodau statudol perthnasol neu gontractwr arall a gyflogir ar y briffordd. Os yn berthnasol byddant yn cofnodi'r diffyg ac yn cyfarwyddo'r cwmni cyfleustodau i'w wneud yn ddiogel. Os na all yr ymgymerwr cyfleustodau statudol neu gontractwr arall ei wneud yn ddiogel o fewn y cyfnod penodedig o 2 awr, bydd y gwaith yn cael ei wneud gan gontractwr y Cyngor a bydd y costau'n cael eu hailgodi.

**45.23 HIERARCHAETH RHWYDWAITH**

**45.24** Hierarchaeth rhwydwaith hyfyw yw sylfaen strategaeth cynnal a chadw gydlynol, gyson ac archwiliadwy.

Mae'r gofyniad i rannu'r ased yn hierarchaethau yn bodoli yn y cod presennol. Mae wedi'i gadw yn y cod newydd ond gyda'r cyfrifoldeb yn cael ei roi ar awdurdodau i benderfynu ar y ffordd orau o gymhwyso'r egwyddor risg wrth

DRAFT

benderfynu ar hierarchaethau priodol. Mae'r cod newydd yn nodi, "Ni fydd hierarchaeth cerbytffyrdd o reidrwydd yn cael ei phennu gan y dosbarthiad ffyrdd, ond yn hytrach yn ôl ymarferoldeb a graddfa'r defnydd." Er enghraifft, mae gan ffyrdd sy'n cludo 10,000 o gerbydau'r dydd fwy o botensial ar gyfer digwyddiad niweidiol na rhai sy'n cludo 500 o gerbydau'r dydd.

Mae'n bosibl amcangyfrif defnydd ar gyfer pob ffordd yn seiliedig ar y data cyfrif traffig sydd ar gael. Mae Cymdeithas Syrfewyr Sirol Cymru wedi dewis argymell y dylid gosod hierarchaeth seiliedig ar risg ar sail defnydd yn bennaf. Nid yw hyn yn atal awdurdodau rhag gwneud addasiadau angenrheidiol mewn ymateb i batrymau a materion defnydd lleol penodol. Mae Ceredigion wedi cynnal adolygiad risg asedau priffyrdd sydd, yn ogystal â data cyfrif traffig, yn ystyried ffactorau ychwanegol megis a yw'r ffordd yn cael ei hystyried yn un strategol, a yw'n rhan o lwybr dargyfeiriol neu sy'n cael ei theithio gan nifer fawr o gerbydau nwyddau trwm.

Mae'n bwysig bod yr hierarchaeth yn adlewyrchu anghenion, blaenoriaethau a defnydd gwirioneddol pob ffordd yn y rhwydwaith. Gellir categoreiddio ffyrdd yn: ffyrdd dosbarthiadol â rhif ('A' a 'B'), ffyrdd dosbarthiadol heb rif (ffyrdd 'C') neu ffyrdd diddosbarth ('U'). Fodd bynnag, nid yw'r system ddosbarthu hon o reidrwydd yn adlewyrchu blaenoriaeth a'r defnydd gwirioneddol o bob ffordd o fewn y rhwydwaith.

Gall blaenoriaethau troedffyrdd wrthdaro weithiau â blaenoriaethau cerbytffyrdd, ac felly mae angen diffinio hierarchaeth troedffyrdd a ffyrdd beiciau.

Am resymau effeithlonrwydd gweithredol pan fydd unrhyw elfen priffyrdd (naill ai troedffordd, ffordd feiciau neu gerbytffordd) yn rhedeg wrth ymyl elfen arall, yr elfen unigol sydd â'r hierarchaeth uchaf fydd yn pennu amlder archwilio'r elfennau eraill hyn.

Cynhelir archwiliadau diogelwch ar droed lle bo'n berthnasol.

Mae'r prosesau gweithredu diffiniedig yn ceisio ystyried diogelwch holl ddefnyddwyr y priffyrdd tra ar yr un pryd cadw ymwybyddiaeth o'r cyfyngiadau a osodir ar y Cyngor gan gyllidebau ac adnoddau dynol diffiniedig a chyfyngedig.

Mae'r hierarchaethau hyn yn ddeinamig ac wedi'u hadolygu er mwyn adlewyrchu unrhyw newidiadau yn nodweddion y rhwydwaith a allai ddeillio o'r defnydd gwirioneddol o'r rhwydwaith yn hytrach na'r defnydd disgwyliedig pan gafodd yr hierarchaeth ei diffinio'n wreiddiol.

DRAFT

Mae "Cod Ymarfer: Seilwaith Priffyrdd wedi'i Reoli'n Dda (2016)" yn cynnig pwynt cyfeirio lle gall Awdurdodau Priffyrdd ddatblygu hierarchaethau lleol ac at y diben hwn bydd Ceredigion yn cymhwyso'r hyn a ddangosir yn Nhabl 16 fel ei brif feini prawf gydag addasiadau ar gyfer defnydd:

| Cod Ymarfer Enwau Lefel Hierarchaeth | Lefel Hierarchaeth Cymdeithas Syrfewyr Sirol Cymru | Band Maint y Traffig (brasamcan) |
|---|---|---|
| Llwybr Strategol | CHSR | Yn seiliedig ar bwysigrwydd lleol yn hytrach na llif traffig ond yn aml yn yr ystod >20,000 [30,000 ar gyfer cyfrifiadau] |
| Prif Ddosbarthu | CH1 | 10,000 – 20,000 |
| Dosbarthu Eilaidd | CH2 | 5,000 – 10,000 |
| Ffordd Gyswllt | CH3 | 1,000 – 5,000 |
| Ffordd Fynediad Leol | CH4 | 200 – 1,000 |
| Is-Ffordd | CH5 | <200 |

*Tabl 16 – Hierarchaeth Priffyrdd (Cerbytffyrdd).*

## 45.25 Hierarchaeth Priffyrdd (Troedffyrdd)

Mabwysiadwyd yr un egwyddor ar gyfer sefydlu hierarchaeth troedffyrdd. Mae llawer llai o ddata ar gael ar gyfer nifer y defnyddwyr a bydd angen ei gasglu dros amser.

Mae hierarchaeth troedffyrdd yn seiliedig yn bennaf ar ddefnydd/maint y traffig a:

- gellir ei addasu er mwyn adlewyrchu amodau lleol
- bwriedir iddi greu cysondeb cenedlaethol
- caiff ei dogfennu gyda'r rhesymau dros unrhyw amrywiadau i'r dull

DRAFT

Disgwylir y bydd barn swyddogion yn cael ei defnyddio i amcangyfrif nifer y defnyddwyr ar gyfer troedffyrdd gwahanol er mwyn cymhwyso'r dull yn absenoldeb data.

Yn ogystal, ac am resymau effeithlonrwydd gweithredol, pan fydd elfen priffordd yn rhedeg wrth ymyl elfen arall, boed yn ffordd feiciau, troedffordd neu gerbytffordd, bydd yr elfen sydd â'r amlder archwilio uchaf yn pennu amlder yr holl elfennau.

Bydd Ceredigion yn mabwysiadu'r hierarchaeth a nodir yn Nhabl 17:

| **Cod Ymarfer Categori Hierarchaeth Rhwydwaith Troedffyrdd** | **Lefel Hierarchaeth Cymdeithas Syrfewyr Sirol Cymru** | **Lefel nifer y defnyddwyr (dangosol)** |
|---|---|---|
| Ardal i Gerddwyr Canol y Ddinas | FHVHU | >10,000 (15,000 yn cael eu defnyddio ar gyfer cyfrifiadau) |
| Ardal i Gerddwyr Canol y Dref | FH1 | 5,000 – 10,000 |
| Troedffordd y Tu Allan i Gyfleusterau Cyhoeddus | FH2 | 1,000 – 5,000 |
| Troedffordd Gyswllt (rhwng ystadau / ardaloedd) | FH3 | 500 – 1,000 |
| Troedffordd Stad Tai | FH4 | < 500 |
| Troedffordd Wledig Heb Lawer o Ddefnydd | FH5 | < 100 |

*Tabl 17 – Hierarchaeth Priffyrdd (Troedffyrdd)*

## 45.26 Hierarchaeth Priffyrdd (Ffyrdd Beiciau)

Mae datblygiadau cynyddol mewn llwybrau a hyrwyddir i feicwyr, felly, ac yn amodol ar adolygiad, bydd Ceredigion yn mabwysiadu'r canllawiau yn y Cod Ymarfer ac yn parhau i gymhwyso'r tabl canlynol i ddynodi'r hierarchaeth gymharol.

DRAFT

Yn ogystal, am resymau effeithlonrwydd gweithredol, yn achos elfen ffordd feiciau priffyrdd, pan fydd yn rhedeg wrth ymyl elfen arall (troedffordd neu gerbytffordd), neu wrth ffurfio lôn o'r gerbytffordd, yr elfen sydd â'r hierarchaeth uchaf fydd yn pennu amlder archwilio'r ffordd feiciau hon.

| Categori | Enw Categori | Disgrifiad |
|---|---|---|
| A | Lôn Feiciau | Lôn sy'n rhan o'r ffordd gerbydau, llain wrth ymyl y cwrb agosaf fel arfer. |
| B | Trac Beiciau | Llwybr priffordd i feicwyr nad yw'n cydgyffwrdd â'r droedffordd gyhoeddus neu'r gerbytffordd. Llwybrau cyd-ddefnyddio i feicwyr a cherddwyr, naill ai wedi'u gwahanu gan linell wen neu wahaniad ffisegol arall, neu heb ei wahanu. |
| C | Llwybrau Beiciau | Llwybrau hamdden trwy fannau agored |

*Tabl 18 – Hierarchaeth Priffyrdd (Ffordd Feiciau)*

**45.27 Y DREFN ARCHWILIO**

**45.28 Archwiliadau Diogelwch**

**45.29** Mae sefydlu hierarchaeth yn seiliedig ar risg yn cael ei wneud yn bennaf ar sail defnydd. Mae Tabl 19 yn manylu ar yr amlder archwilio a argymhellir. Gweler Atodiad B.

**45.30 Amlder Archwilio**

**45.31** Unwaith eto, mae amlder archwilio wedi'i bennu'n fras yn unol â'r "Cod Ymarfer: Seilwaith Priffyrdd wedi'i Reoli'n Dda: Cod Ymarfer (Hydref 2016)" gyda mân addasiadau er mwyn osgoi gwrthdaro rhwng hierarchaeth cerbytffyrdd a throedffyrdd. Lle ceir gwrthdaro, er enghraifft ar groesfan pelican, yr hierarchaeth troedffordd fydd yn cael blaenoriaeth bob amser wrth bennu amlder archwilio.

Mae'n rhaid i'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol ar gyfer Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol gymeradwyo newidiadau yn yr amlderau a nodir cyn eu gweithredu.

Yn ogystal, mae'r Cyngor wedi awdurdodi gohirio'r drefn archwilio yn ei chyfanrwydd yn ystod cyfnodau pan nad yw'n bosibl archwilio. Darperir y ffurflen awdurdodi ar gyfer gohirio archwiliadau priffyrdd yn Atodiad D.

DRAFT

Fel rheol cynhelir archwiliadau diogelwch yn ôl y cyfnodau penodedig a nodir yn Nhabl 19. Fodd bynnag, gellir gohirio'r rhaglen archwilio am resymau eithriadol. Mae'r rhain yn cynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i wyliau statudol neu sefydlog, cyfnodau o dywydd eithriadol lle mae llifogydd neu eira yn atal archwiliad priodol o'r rhwydwaith ffyrdd, ac achosion brys neu eithafol eraill. Pan fydd archwiliadau'n cael eu gohirio am gyfnodau o 2 ddiwrnod neu lai, rhaid archwilio'r ffyrdd a'r troedffyrdd oedd i'w harchwilio ar y diwrnodau hyn o fewn pythefnos i'r dyddiad y bydd yr archwiliadau'n ailddechrau. Lle bo'r cyfnod gohirio yn fwy na 2 ddiwrnod, gyda chymeradwyaeth y Swyddog Arweiniol Corfforaethol, Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol, a'r aelod cabinet, bydd y rhaglen archwilio gyfan yn cael ei rholio ymlaen/hailosod a'i hailddechrau fel pe na bai'r cyfnod gohirio wedi digwydd. Lle rhoddir cymeradwyaeth i rolio'r rhaglen arolygu archwilio ymlaen, rhaid cofnodi'r rhesymau dros gohirio ac am faint ar y system rheoli asedau.

| Nodwedd | Categori | Amlder Archwilio |
|---|---|---|
| Ffyrdd | CHSR | Yn fisol |
| | CH1 | Yn fisol |
| | CH2 | Bob 3 mis |
| | CH3 | Bob 6 mis |
| | CH4 | Yn flynyddol |
| | CH5 | Archwiliadau Adweithiol |
| Troedffyrdd | FHVHU | Yn fisol |
| | FH1 | Yn fisol |
| | FH2 | Bob 3 mis |
| | FH3 | Bob 6 mis |
| | FH4 | Yn flynyddol |
| | FH5 | Archwiliadau Adweithiol |
| Ffyrdd beiciau | A | Fel ar gyfer ffyrdd |
| | B | Bob 6 mis |
| | C | Bob 6 mis |

*Tabl 19 – Amlder Archwilio*

DRAFT

**45.32 Ffactor Gweithredol**

**45.33** Bydd archwiliadau'n cael eu cynnal ar sail optimeiddio llwybrau er mwyn sicrhau'r effeithlonrwydd gweithredol mwyaf posibl gyda'r adnoddau sydd ar gael. Bydd hyn yn arwain at archwilio rhannau penodol o'r rhwydwaith sydd bellach wedi'u dosbarthu fel rhai sydd ag amlder archwilio is yn cael eu harchwilio'n amlach na'r hyn a nodwyd, er enghraifft, rhan o'r rhwydwaith y pennir ei bod yn cael ei harchwilio ar amlder o 3 mis yn cael ei harchwilio ar gyfnod dychwelyd misol os yw'n fwy effeithlon yn weithredol i wneud hynny.

**45.34 Goddefiannau Archwilio**

**45.35** Dylid cynnwys goddefiant i ddarparu ar gyfer digwyddiadau na ellir eu hosgoi megis tywydd gwael, hyfforddiant, salwch archwiliwr ac ati. Pan fydd angen, argymhellir mai'r goddefiant a gymhwysir ar gyfer pob amlder archwilio yw 50% o'r cyfnod archwilio penodedig neu 3 mis (pa un bynnag yw'r lleiaf).

Rhaid i unrhyw newidiadau i'r amlder uchod gael eu cymeradwyo gan y Swyddog Arweiniol Corfforaethol ar gyfer Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol a'r aelod cabinet cyn iddynt gael eu gweithredu. Gweler Atodiad D.

**45.36 Diffygion**

**45.37** Diffyg critigol yw un y mae'r archwiliwr yn ystyried ei fod yn achosi risg i ddiogelwch sy'n ddigon uchel bod angen gweithredu ar unwaith. Mae diffygion sy'n achosi risg uniongyrchol neu risg ar fin digwydd o anaf i ddefnyddwyr ffyrdd fel arfer yn cynnwys eitemau fel seler wedi cwympo, gorchudd cyfleustodau ar goll, coeden wedi cwympo, agoriad heb ei ddiogelu ac ati. Dylid gwneud diffygion critigol yn ddiogel ar adeg yr archwiliad os yw'n ymarferol, neu dylai'r archwiliwr fod yn bresennol hyd nes y gellir gwneud y diffyg yn ddiogel. Gall gwneud yn ddiogel olygu arddangos rhybuddion, gosod conau neu ffensys i amddiffyn y cyhoedd rhag y diffyg. Y safon ofynnol ar gyfer diffyg critigol yw amser ymateb o 2 awr (i fod yn bresennol a'i wneud yn ddiogel cyn gynted â phosibl wedi hynny).

- Mae diffyg diogelwch yn un sy'n gofyn am sylw prydlon oherwydd ei fod yn achosi perygl sydd ar fin digwydd. Bydd diffygion diogelwch sy'n gofyn am ymateb cyn gynted â phosibl i waredu'r risg bosibl o anaf i ddefnyddwyr fel arfer yn cynnwys eitemau fel tyllau yn y ffordd o faint penodol, peryglon baglu, cyrbiau sydd wedi symud ac ati. Os yw'n ymarferol, dylid gwneud diffygion diogelwch yn ddiogel ar adeg yr archwiliad. Gall hyn olygu arddangos rhybuddion, gosod conau neu ffensys i amddiffyn y cyhoedd rhag y diffyg. Os nad yw'n bosibl

DRAFT

cywiro neu wneud y diffyg yn ddiogel ar adeg yr archwiliad, dylid gwneud atgyweiriadau parhaol neu dros dro o fewn yr amser ymateb penodedig. Mae safon ofynnol Cymdeithas Syrfewyr Sirol Cymru yn darparu data dimensiwn y gellir ei ddefnyddio fel canllaw i nodi diffygion diogelwch ar gyfer hierarchaethau rhwydwaith gwahanol.

- Diffyg cynnal a chadw yw un nad yw'n ddiffyg diogelwch ond sydd angen ei atgyweirio ar adeg briodol i warchod rhag unrhyw ddirywiad pellach. Nid yw'n achosi perygl uniongyrchol i ddefnyddwyr. Dylid categoreiddio diffygion cynnal a chadw fel blaenoriaeth uwch: diffygion sy'n cyfiawnhau eu trin er mwyn cael eu hatal rhag dirywio i fod yn ddiffyg diogelwch cyn yr archwiliad nesaf sydd wedi'i drefnu, a diffygion eraill â blaenoriaeth is sy'n cyfiawnhau cael eu trin er mwyn eu hatal rhag dirywio i'r fath raddau fel bod gwaith neu gostau ychwanegol yn codi.

**45.38 Maint y Diffyg**

**45.39** Bydd maint y diffyg mewn elfennau priffyrdd yn hanfodol wrth benderfynu ar natur a chyflymder yr ymateb. Mae'r tabl isod yn darparu llinell sylfaen. Bydd Archwilwyr Priffyrdd yn cadw'r hawl i ymchwilio ac o bosibl ymyrryd ar sail risg ar unrhyw adeg. Bydd asesiadau risg yn cael eu llywio gan y defnydd o Lawlyfr Cofnodi Archwilio Diffygion Ceredigion, hyfforddiant, briffio a dulliau rheoli ansawdd.

| **Trefn Atgyweirio Cerbytffyrdd: Amser Ymateb** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Hierarchaeth Cerbytffyrdd** | **Diffyg Diogelwch** | | **Diffyg Cynnal a Chadw** | |
| CHSR | >50mm | Erbyn diwedd y diwrnod calendr nesaf | >40mm | 1 mis |
| CH1 | >50mm | | >40mm | |
| CH2 | >50mm | | >40mm | |
| CH3 | >75mm | 5 diwrnod | >50mm | 3 mis |
| CH4 | >75mm | | >50mm | |
| CH5** | >75mm | | >50mm | |

*Tabl 20 – Amser Ymateb y Drefn Atgyweirio Cerbytffyrdd*

DRAFT

**45.40 Maint y Diffyg**

**45.41** Mae meintiau diffyg a ddewisir ar gyfer pob math o ddiffyg a hierarchaeth yn adlewyrchu'r ffaith bod diffygion cerbytffyrdd yn dirywio'n gyflymach ar ffyrdd lle ceir mwy o draffig o ganlyniad i nifer y cerbydau sy'n teithio drostynt. Bydd diffyg dyfnder o 50mm ar CH2 ac uwch yn destun traffig cyson. Mae pob un o'r ffyrdd hyn yn cludo >5,000 o gerbydau'r dydd ac felly gallai twll yn y ffordd ddirywio'n gyflym i fod yn nodwedd fwy peryglus os na chaiff ei atgyweirio'n brydlon. Am y rheswm hwn, mabwysiadwyd safon wahaniaethol o ran maint diffygion diogelwch ar gyfer y safon ofynnol a ddangosir yn Nhabl 9.2.

**45.42 Amser Ymateb**

**45.43** Mae'r amser ymateb arfaethedig hefyd yn seiliedig ar ystyried y lefelau defnydd gwahanol. Mae Atodiad Ch yn dangos sut mae bod yn agored i risg wedi cael ei gyfrifo a'i ddefnyddio i ddangos pa amserau ymateb sydd eu hangen er mwyn sicrhau lefel gyson o fod yn agored risg ar draws pob lefel o'r hierarchaeth.

**45.44 DIFFYGION SY'N GYSYLLTIEDIG Â PHARTÏON ERAILL**

**45.45** Mae rhai diffygion sy'n digwydd ar y briffordd yn gysylltiedig â chyfarpar cyfleustodau neu breifat diffygiol sy'n cynnwys gorchuddion siambrau archwilio, blychau neu fesuryddion. Gan weithredu fel Awdurdod Priffyrdd ac yn dilyn asesiad risg ar y safle, bydd y Cyngor, er mwyn amddiffyn y cyhoedd rhag dod ar draws diffyg peryglus o'r fath, yn gosod yr arwyddion a'r gwarchodwyr dros dro angenrheidiol i wneud yr ardal yn ddiogel.

Ar ôl penderfynu beth yw'r diffyg, mae'r Cyngor yn derbyn y cyfrifoldeb neu'n trosglwyddo'r cyfrifoldeb i'r cwmni cyfleustodau neu drydydd parti.

Bydd diffygion eraill sy'n gysylltiedig â thrydydd partïon eraill, megis llystyfiant bargodol a ffensys ymledol, neu rwystrau anghyfreithlon ar y briffordd sy'n amharu ar lif rhydd a diogel defnyddwyr y ffordd, yn cael eu cofnodi a gellir ymdrin â hwy trwy wneud y gwaith adfer ac ailgodi'r gost neu trwy lythyr gorfodi, a'i gyflwyno ar gyfer ymchwiliad pellach. Gall y camau hyn gynnwys achosion cyfreithiol.

**45.46 SYSTEM RHEOLI A CHIPIO DATA**

**45.47** Mae Gwasanaethau Priffyrdd yn defnyddio System Rheoli Asedau Seilwaith (IAMS) integredig ar draws nifer o feysydd busnes. Defnyddir y system hon i gasglu, diweddaru a rheoli data allweddol sy'n gysylltiedig â rhannau o'r ffordd a nodir trwy ddefnyddio Cyfeirnod Stryd Unigryw y Rhestr Strydoedd

DRAFT

Cenedlaethol (USRN). Gall data fod yn gysylltiedig â GIS ac mae'r system yn caniatáu ar gyfer storio ffotograffau a dogfennau cysylltiedig.

Mae'r prif system IAMS yn seiliedig ar y we a cheir mynediad iddi trwy gyfrifiaduron personol a gliniaduron. Ceir mynediad i fodiwlau archwilio a gwaith trwy ddyfeisiau symudol sy'n cael eu dal yn y llaw. Mae patrymau gweithio symudol gan Archwilwyr Priffyrdd yn hwyluso derbyn a chyfathrebu gwybodaeth amser real.

Defnyddir IAMS (er nid hwn yn unig) i drefnu archwiliadau, cofnodi diffygion, cyhoeddi tocynnau gwaith a derbyn/ymateb i ymholiadau cwsmeriaid.

Mae nodweddion y prosesau hyn yn cynnwys y canlynol:

Mae'r dyddiadau archwilio ar gyfer yr holl ffyrdd i'w harchwilio yn cael eu trefnu ymlaen llaw a'u lawrlwytho yn wythnosol i ddyfeisiau symudol.

Caiff diffygion eu cofnodi a'u blaenoriaethu gan Archwilwyr Priffyrdd ar ddyfeisiadau symudol trwy ddefnyddio dewislenni safonol a'u hanfon yn ôl i'r brif system mewn amser real, neu eu storio pan nad oes signal i'w trosglwyddo'n ddiweddarach.

Er mwyn hwyluso ymateb cyflym, anfonir diffygion Categori 1 yn uniongyrchol i gangiau gwaith trwy ddyfeisiau symudol pan gânt eu recordio.

Lle bo'n briodol, bydd Archwilwyr yn plotio diffygion ar fap, yn tynnu ffotograffau ac yn eu hatodi i'r diffygion.

Anfonir ceisiadau gwasanaeth cwsmeriaid yn uniongyrchol i ddyfeisiau symudol er mwyn annog archwiliadau ad-hoc adweithiol.

Mae ymatebion i geisiadau cwsmeriaid lle nad yw archwiliadau adweithiol yn creu diffygion yn cael eu cofnodi a hysbysiad yn cael ei ddychwelyd i wasanaethau cwsmeriaid.

Mae unrhyw ohirio neu atal archwiliadau y cytunwyd arno yn cael ei hwyluso trwy'r system a'i gofnodi.

Defnyddir adroddiadau o'r system IAMS ar gyfer cynllunio strategol yn ogystal â dibenion gweithredol, rheoli perfformiad ac amddiffyn yn erbyn hawliadau

DRAFT